Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

# Cyfranogiad yng Nghymru: troi Egwyddorion yn Ymarfer



www.comisiynyddplant.cymru



# Rhagair



**Mae Erthygl 12 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn datgan yn glir bod gan bob plentyn hawl i fynegi eu barn yn ddirwystr ar bob mater sy'n effeithio arnyn nhw, a bod pwys dyledus yn cael ei roi i'r farn honno. Mae hon yn hawl sylfaenol. Nid mater o gael gwrandawiad yn unig yw hyn; mae'n ymwneud â chael eich cymryd o ddifri a gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar fywydau plant a phobl ifanc.**

Yng Nghymru, adlewyrchir yr egwyddor hon mewn ystod o ddyletswyddau statudol sydd gan awdurdodau lleol o ran cynnwys plant a phobl ifanc wrth wneud penderfyniadau, gan gynnwys Adran 12 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. O'u cyfuno, mae'r fframweithiau hyn yn cyflwyno disgwyliadau clir, sef y dylai cyfranogiad fod yn ystyrlon, wedi'i wreiddio, a chael effaith.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae fy nhîm a minnau wedi cynnal ymarferiad gwrando i edrych ar effeithiolrwydd y strwythurau cyfranogiad ieuenctid a sefydlwyd gan awdurdodau lleol i gyflawni'r dyletswyddau hyn. Mae ein gwaith wedi canolbwyntio ar a yw'r strwythurau hyn yn wir yn galluogi plant a phobl ifanc i fod yn rhan o benderfyniadau sy'n bwysig iddyn nhw, neu a oes rhwystrau'n parhau i gyfyngu ar eu dylanwad.

Trwy'r gwaith hwn, rydyn ni wedi casglu tystiolaeth am ymarfer cryf, arloesol sy'n dangos y gwahaniaeth cadarnhaol y gall cyfranogiad effeithiol ei greu ym mywydau plant. Rydym hefyd wedi nodi meysydd lle mae angen gwella er mwyn sicrhau bod cyfranogiad yn ystyrlon, yn gynhwysol ac yn gyson ledled Cymru.

Hoffwn ddiolch i'r holl Awdurdodau Lleol a gweithwyr proffesiynol a fu'n ymwneud â'r gwaith hwn am eu hymrwymiad a'u parodrwydd i fod yn agored. Rwyf hefyd yn ddiolchgar i'r plant a'r bobl ifanc y buon ni'n cwrdd â nhw ar ein hymweliadau. Bu eu persbectif o gymorth i lywio a daearu ein dealltwriaeth o gyfranogiad ar waith.

**Rocio Cifuentes** MBE
Comisiynydd Plant Cymru

# Tabl o'r Cynnwys

**Rhagair** 3
**Crynodeb Gweithredol** 5
**01 Hawliau Plant a Chyfranogiad yng Nghymru** 7
**Diffinio cyfranogiad** 7
**Cyd-destun Cymru** 8
Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) 8
Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 8
Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 8
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 8
Canllawiau Statudol 9
Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru 10
Ehangu'r hawl i bleidleisio 10
Y Ffordd Gywir 10
Fframwaith Statudol Gwaith Ieuenctid 11
**02 Methodoleg** 12
**Dulliau** 12
**Cryfderau a Gwendidau** 14
**03 Canfyddiadau** 15
**Cyflwyniad** 15
**Gwreiddio** 16
Arolwg y Ffordd Gywir: Beth ddywedodd plant a phobl ifanc wrthyn ni 16
Arfer Da 16
Meysydd i'w Gwella 18
Mewnwelediad Allweddol 19
**Cydraddoldeb a Pheidio â Gwahaniaethu** 20
Arolwg y Ffordd Gywir: Beth ddywedodd plant a phobl ifanc wrthyn ni 20
Arfer Da 20
Meysydd i'w Gwella 22
Mewnwelediad Allweddol 22
**Grymuso** 23
Arolwg y Ffordd Gywir: Beth ddywedodd plant a phobl ifanc wrthyn ni 23
Arfer Da 24
Meysydd i'w Gwella 25
Mewnwelediad Allweddol 25
**Cyfranogiad** 26
Arolwg y Ffordd Gywir: Beth ddywedodd plant a phobl ifanc wrthyn ni 26
Arfer Da 27
Meysydd i'w Gwella 28
Mewnwelediad Allweddol 29
**Atebolrwydd** 30
Arolwg y Ffordd Gywir: Beth ddywedodd plant a phobl ifanc wrthyn ni 30
Arfer Da 30
Meysydd i'w Gwella 31
Mewnwelediad Allweddol 32
**04 Argymhellion** 33
**05 Casgliad** 36
**06 ATODIAD – Proffiliau Cyfranogiad y 22 Awdurdod Lleol** 38



# Crynodeb Gweithredol

**Mae Erthygl 12 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn sefydlu hawl pob plentyn i fynegi eu barn yn ddirwystr ar bob mater sy'n effeithio arnyn nhw, a bod pwys dyledus yn cael ei roi ar y farn honno. Mae hon yn hawl sylfaenol ac yn un o gonglfeini Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant.**

Mae'r adroddiad hwn yn archwilio i ba raddau mae strwythurau cyfranogiad awdurdodau lleol yn galluogi plant a phobl ifanc i ddylanwadu ar y penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau. Mae'n defnyddio ymgysylltiad â holl awdurdodau lleol Cymru, gan gynnwys ymatebion i arolygon, trafodaethau manwl gyda swyddogion ac arweinwyr, a dadansoddi ymarfer lleol. Mae'n rhoi ciplun cenedlaethol ar sut mae dyletswyddau cyfranogiad yn cael eu dehongli a'u cyflwyno'n ymarferol.

Mae'r canfyddiadau'n dangos ymrwymiad clir a dilys i gyfranogiad ar draws llawer o awdurdodau lleol, ochr yn ochr ag ystod o ddulliau gweithredu cadarn ac arloesol. Ymhlith yr enghreifftiau o arfer da mae cynghorau a fforymau ieuenctid sy'n rhan annatod o brosesau craffu a democrataidd; mentrau a gydgynhyrchir ac a arweinir gan bobl ifanc sy'n dylanwadu ar ffurf gwasanaethau, dulliau ymgysylltu digidol creadigol sy'n estyn cwmpas, a mecanweithiau megis "Fe Ddwedsoch Chi, Fe Wnaethon Ni", sy'n cryfhau atebolrwydd. Mewn rhai ardaloedd, mae cysylltiad amlwg rhwng cyfranogiad a chynllunio strategol, comisiynu, a datblygu polisi, gan ddangos bod potensial i gael dylanwad ystyrlon o'i wreiddio'n effeithiol.

Fodd bynnag, nid yw'r arfer da yma yn gyson ar draws Cymru, ac yn aml mae'n dibynnu ar arweinyddiaeth leol, capasiti ac adnoddau, yn hytrach na bod wedi'i wreiddio'n systematig. Mae cyfranogiad yn dal i amrywio'n sylweddol o ran safon, cwmpas ac effaith, gan greu beth mae rhai rhanddeiliaid wedi'i alw'n 'loteri cod post' i blant a phobl ifanc.

Nodwyd nifer o rwystrau allweddol. Mae cyfyngiadau o ran adnoddau yn her ganolog, barhaus, gyda llawer o awdurdodau lleol yn cyfeirio at gyllid cyfyngedig a thymor byr, capasiti annigonol o ran staff, a throsiant uchel, sy'n effeithio ar gynaliadwyedd gwaith cyfranogiad. Cyfyngir ar gyfranogiad ystyrlon hefyd gan rwystrau strwythurol a systemig mewn awdurdodau lleol, megis blaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd o fewn y sefydliad, amserlenni rhy gaeth wrth wneud penderfyniadau, a phrosesau nad ydynt yn caniatáu ymgysylltu parhaus hwylus â phlant a phobl ifanc.

Mae'r adroddiad hefyd yn amlygu heriau cyson o ran sicrhau bod cyfranogiad yn gynhwysol ac yn gynrychioliadol. Er bod enghreifftiau o waith wedi'i dargedu, mae llawer o awdurdodau lleol yn cydnabod bod bylchau wrth ymgysylltu â phlant a phobl ifanc sydd ar y cyrion neu wedi'u tangynrychioli, gan gynnwys plant anabl, grwpiau ethnig lleiafrifol, y rhai sy'n byw mewn tlodi a'r rhai sydd mewn ardaloedd gwledig. Nid yw cyfleoedd cyfranogiad bob amser yn cael eu llunio mewn ffyrdd sy'n rhoi sylw i rwystrau sy'n effeithio ar sawl grŵp, megis trafnidiaeth, eithrio digidol, hyder, a hygyrchedd.

Ar ben hynny, mae'r canfyddiadau'n dangos bod gwendidau parhaus o ran atebolrwydd. Er bod rhai awdurdodau lleol yn dangos bod ganddynt systemau adborth cadarn a llinellau cyfathrebu clir â phlant a phobl ifanc, nid dyna'r arfer safonol eto. Yn rhy aml, nid yw plant a phobl ifanc yn gweld nac yn deall yn gyson sut mae eu barn wedi dylanwadu ar benderfyniadau, ac mae perygl i hynny danseilio ymddiriedaeth a chyfrannu at ddiflasu ar ymgyngoriadau.

Mae'r adroddiad yn nodi bod angen dull cryfach a mwy cydlynus o ymdrin â chyfranogiad ar lefel genedlaethol a lleol. Mae hynny'n golygu cryfhau dyletswyddau statudol, gwella'r gyfatebiaeth rhwng fframweithiau deddfwriaethol sydd eisoes yn bodoli, a chyflwyno disgwyliadau cliriach yng nghyswllt strategaethau cyfranogiad, monitro ac adrodd. Mae hefyd yn amlygu pwysigrwydd cyllid cyson a neilltuwyd, er mwyn sicrhau nad yw cyfranogiad yn ddibynnol ar adnoddau tymor byr neu rai sy'n gysylltiedig â phrosiectau penodol.

Mae Dull Gweithredu effeithiol seiliedig ar Hawliau Plant yn gofyn bod cyfranogiad yn symud y tu hwnt i ymgysylltu neu ymgynghori untro, tuag at ymwneud parhaus, ystyrlon. Dylai plant a phobl ifanc gael eu cefnogi nid yn unig i rannu eu barn, ond hefyd i ddeall eu hawliau, datblygu'r sgiliau a'r hyder i gyfranogi, a chwarae rhan weithredol yn y broses o ffurfio penderfyniadau. Mae'n allweddol eu bod yn gallu gweld sut mae eu cyfraniadau'n arwain at newid.

Mae Fframwaith 'Y Ffordd Gywir' yn darparu sylfaen ymarferol ar gyfer gwreiddio'r dull gweithredu hwn ar draws gwasanaethau cyhoeddus. Fe'i seiliwyd ar bum egwyddor: gwreiddio; cydraddoldeb a pheidio â gwahaniaethu; grymuso; cyfranogiad; ac atebolrwydd. Mae'r rhain yn cynnig strwythur clir er mwyn trosi hawliau plant yn weithredu ymarferol. Er bod yr adroddiad yn nodi tystiolaeth o'r egwyddorion hyn ar waith, mae hefyd yn amlygu nad ydynt eto yn cael eu gweithredu'n gyson nac yn systematig ledled Cymru.

At ei gilydd, mae'r adroddiad yn dod i'r casgliad, er bod gan Gymru fframwaith polisi a deddfwriaeth cadarn i gefnogi cyfranogiad plant a phobl ifanc, nad yw hynny'n cael ei wireddu'n ymarferol mewn modd cyson na theg eto ar draws Awdurdodau Lleol. Mae cyflawni Erthygl 12 yn galw am fwy nag ymrwymiad: mae'n galw am arweiniad diflino, adnoddau digonol, atebolrwydd cryfach, a newid diwylliant yn y gwasanaethau cyhoeddus fel bod cyfranogiad yn cael ei ddeall a'i gyflwyno fel swyddogaeth graidd, yn hytrach na gweithgaredd ychwanegol.

# 01 Hawliau Plant a Chyfranogiad yng Nghymru

## Diffinio cyfranogiad

Mae Erthygl 12 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn nodi'n glir bod gan blant hawl i fynegi eu barn yn ddirwystr ar bob mater sy'n effeithio arnyn nhw, a bod y farn honno'n cael ei gwrando a'i pharchu, gan roi pwys dyledus arni. Yn y cyd-destun hwn, deellir mai ystyr cyfranogiad yw cynnwys plant yn weithredol ac yn ystyrlon mewn penderfyniadau sy'n dylanwadu ar eu bywydau.

Mae'r hawl hon yn berthnasol i bob plentyn yn ddiwahân, fel y nodir yn Erthygl 2 o CCUHP. Rhaid cefnogi pob plentyn i ymarfer eu hawl i gyfranogi, heb ystyried eu cefndir, eu hamgylchiadau, na'u hunaniaeth.

Gall cyfranogiad ddigwydd mewn llu o wahanol ffyrdd, a dylai fod yn briodol ar gyfer oed, aeddfedrwydd ac amgylchiadau'r plentyn. Dylid cefnogi plant a phobl ifanc i fod yn rhan o benderfyniadau ar draws pob agwedd ar eu bywydau, gan gynnwys yn eu bywydau teuluol, eu cymunedau, eu gwasanaethau a'r gymdeithas ehangach. Er y dylid rhoi pwys dyledus ar farn plant, yn unol â'u hoed a'u lefel dealltwriaeth, ni ddylid defnyddio oed byth fel sail i atal plant rhag cyfranogi, nac i leihau gwerth eu barn.

Er mwyn i gyfranogiad fod yn ystyrlon, rhaid i blant a phobl ifanc dderbyn gwybodaeth berthnasol, hygyrch, a chyfleoedd gwirioneddol i ddylanwadu ar benderfyniadau. Rhaid sicrhau prosesau clir a thryloyw i ddangos sut mae eu barn wedi cael ei hystyried, ochr yn ochr ag adborth hygyrch ac amserol, yn egluro'r deilliannau a hyd a lled eu dylanwad.

Dylid deall cyfranogiad fel proses barhaus, sydd wedi'i gwreiddio, yn hytrach na gweithgaredd neu ymgynghoriad untro. Rhaid iddo fod yn ddiogel, yn gynhwysol ac yn alluogol, gan feithrin deialog adeiladol rhwng plant a gweithwyr proffesiynol. Mae cyfrifoldeb ar gyrff cyhoeddus i ganfod a dileu rhwystrau i gyfranogiad, gan sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu cyfranogi ar sail gyfartal.



# Cyd-destun Cymru

Mae gan Gymru fframwaith polisi a chyfreithiol unigryw, sefydledig, sy'n gwneud cyfranogiad plant a phobl ifanc yn ganolog i benderfyniadau. Seiliwyd y fframwaith hwn ar ymrwymiad cadarn, hirsefydlog i hawliau plant:

### Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)

Mae dull Cymru o ymdrin â chyfranogiad wedi'i wreiddio yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Ochr yn ochr ag Erthygl 12, mae sawl Erthygl arall yn ategu hawliau cyfranogiad plant:

- Mae Erthygl 2 yn datgan bod gan bob plentyn yr hawliau hyn, yn ddiwahân;
- Mae Erthygl 3 yn gofyn bod lles pennaf y plentyn yn brif ystyriaeth ym mhob penderfyniad sy'n effeithio ar y plentyn
- Mae Erthyglau 13 ac 15 yn cefnogi rhyddid mynegiant a chysylltiadau
- Mae Erthygl 23 yn amlygu hawliau plant anabl a phwysigrwydd eu galluogi i gyfranogi'n llawn mewn cymdeithas.

### Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010

Mae Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn cryfhau cyfranogiad trwy gyflwyno dyletswyddau ar awdurdodau lleol er mwyn hyrwyddo a hwyluso gyfranogiad plant a phobl ifanc mewn penderfyniadau. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod plant a phobl ifanc yn rhan o gynllunio, cyflwyno ac adolygu gwasanaethau.

### Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011

Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd statudol ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i CCUHP wrth ymarfer eu swyddogaethau. Mae hyn yn gwreiddio hawliau plant yng nghyfraith a pholisi Cymru, fel bod gofyn i Weinidogion ystyried a dangos sut mae eu penderfyniadau'n effeithio ar yr hawliau hynny. Cydnabyddir bod cyfranogiad o fewn y fframwaith yn elfen sylfaenol o lywodraethiant seiliedig ar hawliau.

### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn atgyfnerthu ymhellach bwysigrwydd cyfranogiad. Mae'n gofyn bod cyrff cyhoeddus yn ystyried effaith hirdymor eu penderfyniadau ac yn mabwysiadu ffyrdd o weithio sy'n cynnwys cymunedau'n weithredol wrth lunio'r dyfodol. Mae 'Ymwneud', un o'r pum dull o weithio yn y Ddeddf, yn amlygu'n benodol bwysigrwydd ymgysylltu â phlant a phobl ifanc yng nghyswllt penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw.

## Canllawiau Statudol

Mae Anecs B i'r ddogfen Shared Purpose: Shared Future 3 yn cyflwyno canllawiau statudol ar gyfer cyfranogiad plant a phobl ifanc, a gyflwynwyd o dan Adran 17(3) o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 ac Adran 51(1) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r canllawiau'n esbonio sut dylai dyletswyddau cyfranogiad gael eu deall, eu cyflawni a'u cefnogi oddi mewn i fframwaith llesiant cyffredinol, cynllunio, a chyflwyno gwasanaethau cyhoeddus.

Mae'r canllawiau wedi'u seilio ar ddull gweithredu seiliedig ar hawliau, gan dynnu ar Gonfensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), yn arbennig Erthygl 12, sy'n sefydlu hawl plant a phobl ifanc i fynegi barn ar faterion sy'n effeithio arnyn nhw ac i sicrhau bod y farn honno'n cael ei chymryd o ddifri. Mae cyfranogiad wedi'i fframio fel hawl sylfaenol sy'n galluogi, gan ddarparu sail ar gyfer deilliannau mwy cyffredinol yng nghyswllt llesiant a datblygu cynaliadwy.

Mae'r ddyletswydd statudol i hybu a hwyluso cyfranogiad yn gorffwys gydag awdurdodau lleol yn unig. Fodd bynnag, mae Anecs B yn dangos yn eglur bod cyflawni'r ddyletswydd hon yn effeithiol yn galw am gydweithio gweithredol gyda phartneriaid, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

Er mwyn cyflawni gofynion deddfwriaethol, mae disgwyl i awdurdodau lleol weithio gyda phartneriaid perthnasol i hyrwyddo a hwyluso cyfranogiad plant a phobl ifanc oddi mewn i gyd-destun cyffredinol CCUHP, fel rhan o'u polisïau, eu gwasanaethau, a'u hymwneud ehangach â dinasyddion. Mae hynny'n cynnwys sicrhau bod plant a phobl ifanc yn ymwybodol o'u hawliau, yn enwedig eu hawl i gyfranogi, i sicrhau gwrandawiad i'w barn, ac i fod yn rhan o benderfyniadau ynghylch polisïau a gwasanaethau sy'n effeithio ar eu bywydau.

Mae'r canllawiau'n gofyn bod cyfranogiad yn cael ei wreiddio ym mhob agwedd ar gynllunio, cyflwyno ac adolygu, yn hytrach na'i drin fel gweithgarwch ar wahân neu achlysurol. Mae hynny'n cynnwys yn benodol asesu llesiant lleol, paratoi'r cynllun llesiant lleol, a datblygu is-gynlluniau perthnasol. Mae disgwyl i gyfranogiad lywio blaenoriaethau, dylanwadu ar ffurf gwasanaethau, a chefnogi gwelliant parhaus dros amser.

Mae disgwyl i awdurdodau lleol fabwysiadu'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol fel fframwaith ar gyfer cyflawni eu dyletswyddau cyfranogiad statudol. Nodir bod mabwysiadu'r Safonau yn ddisgwyliad yn hytrach nag opsiwn, gan ddarparu dull ymarferol, cyson o sicrhau bod cyfranogiad yn ystyrlon, yn effeithiol ac wedi'i alinio â hawliau plant yng Nghymru.

Mae'r canllawiau'n gofyn ymhellach bod awdurdodau lleol yn cyhoeddi gwybodaeth am gyfranogiad, gan gynnwys manteision cyfranogiad, a'r trefniadau sydd yn eu lle i'w hyrwyddo a'i hwyluso. Anogir awdurdodau i ledaenu enghreifftiau o arfer da trwy ddefnyddio sianeli hygyrch megis gwefannau, cylchlythyrau a'r cyfryngau cymdeithasol, a thrwy gysylltiadau â strwythurau cyfranogiad cenedlaethol, gan gynnwys Cymru Ifanc. Gall gwybodaeth ynghylch cyfranogiad gael ei chynnwys hefyd yn adroddiadau cynnydd blynyddol Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, a dylid cefnogi plant a phobl ifanc eu hunain i fod yn rhan o gynyddu ymwybyddiaeth o gyfranogiad.

Mae Anecs B yn rhoi pwyslais cryf ar ansawdd, eglurder a hygyrchedd gwybodaeth sydd wedi'i bwriadu ar gyfer plant a phobl ifanc. Rhaid i'r deunyddiau fod yn hawdd eu deall, yn gywir, wedi'u diweddaru, yn berthnasol ac yn hygyrch o ran iaith a fformat, gan ymateb i gwestiynau plant a phobl ifanc a'r anghenion a nodir ganddynt.

Mae disgwyl hefyd i awdurdodau lleol sicrhau ystod o gyfleoedd a chefnogaeth briodol ar gyfer cyfranogiad, gan integreiddio cyfleoedd ar gyfer cyfranogiad unigolion mewn gwasanaethau beunyddiol, ochr yn ochr â strwythurau cyfranogiad penodol. Mae'r rhain yn cynnwys fforymau neu grwpiau ar gyfer plant a phobl ifanc, yn arbennig y rhai sydd ar y cyrion, yn fregus neu sydd â diddordebau arbenigol, gan gydnabod eu rôl yn cefnogi plant a phobl ifanc i ymarfer eu hawliau CCUHP.

Ar ben hynny, mae'r canllawiau'n disgwyl y bydd awdurdodau'n cefnogi Fforwm Ieuenctid Sirol neu Gyngor Ieuenctid fel mecanwaith cynrychioliadol a fydd yn sianel i rannu barn pobl ifanc ar draws yr awdurdod ac i mewn i benderfyniadau lleol a chenedlaethol. Dylai'r cyrff hyn fod yn gynhwysol, derbyn cefnogaeth ddigonol, gael eu cysylltu â strwythurau democrataidd lleol, a'u cysylltu â threfniadau cyfranogiad cenedlaethol.

Mae'r canllawiau hefyd yn ymrwymo Llywodraeth Cymru i fonitro trefniadau lleol ar gyfer cyfranogiad plant a phobl ifanc. Ar ben hynny, mae'r canllawiau'n darparu cyfle i Swyddfa Archwilio Cymru adolygu i ba raddau mae cyfranogiad plant a phobl ifanc yn dylanwadu ar ddatblygiad cynlluniau llesiant lleol a phenderfyniadau lleol.

## Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru

Mae Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol Cymru (SCC), a ddatblygwyd gyntaf yn 2007 ac a ddiweddarwyd yn 2017, yn darparu fframwaith ar gyfer cefnogi sefydliadau i wreiddio cyfranogiad effeithiol, seiliedig ar hawliau. Mae gofyn bod pob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru yn hyrwyddo a hwyluso cyfranogiad plant a phobl ifanc, ac mae disgwyl iddyn nhw fabwysiadu'r Safonau wrth gyflawni'r ddyletswydd honno. Mae'r SCC yn nodi disgwyliadau clir o ran ymgysylltiad cynhwysol, ystyrlon, a gefnogir yn dda, gan sicrhau bod cyfranogiad yn hygyrch, yn berthnasol ac yn cael effaith. Yng nghyd-destun Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'r safonau hyn yn cefnogi awdurdodau lleol a'u partneriaid i wreiddio cyfranogiad fel rhan greiddiol o gynllunio, cyflwyno ac adolygu.

## Estyn Rhyddfraint Pleidleiswyr

Mae estyn yr hawl i bleidleisio i bobl ifanc 16 ac 17 oed trwy Ddeddf y Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn ddatblygiad pwysig o ran cydnabod pobl ifanc fel cyfranogwyr gweithredol mewn bywyd democrataidd. Mae'r camau diwygio hyn yn rhoi rôl ffurfiol i bobl ifanc wrth ddylanwadu ar benderfyniadau lleol a chenedlaethol, gan ategu pwysigrwydd cyfranogiad fel hawl sylfaenol. Yn y cyd-destun hwn, rhaid i gyfranogiad mewn gwasanaethau cyhoeddus gyfateb i'r hawl ddemocrataidd ehangach hon, gan sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu cefnogi, nid yn unig i bleidleisio, ond hefyd i ymgysylltu'n ystyrlon â phrosesau gwneud penderfyniadau sy'n cael effaith ar eu bywydau.

## Y Ffordd Gywir

Y Ffordd Gywir yw fframwaith Comisiynydd Plant Cymru ar gyfer gwreiddio Dull Gweithredu Seiliedig ar Hawliau Plant ar draws gwasanaethau cyhoeddus. Mae'n rhoi arweiniad ymarferol ar gyfer trosi CCUHP yn ymarfer beunyddiol, wedi'i strwythuro o amgylch pum egwyddor allweddol: Gwreiddio, Cydraddoldeb a Pheidio â Gwahaniaethu, Grymuso, Cyfranogiad, ac Atebolrwydd. Mae'r fframwaith yn pwysleisio y dylai hawliau plant gael eu hintegreiddio'n llawn i ddiwylliant y sefydliad, ei benderfyniadau a'r gwasanaethau mae'n eu cynnig, yn hytrach

na'i drin fel elfen ychwanegol. Oddi mewn i'r adroddiad hwn, mae'r Ffordd Gywir yn darparu'r fframwaith dadansoddol ar gyfer asesu cyfranogiad awdurdodau lleol ar waith, a nodi meysydd sy'n gryf a chyfleoedd i wella.

### Fframwaith Statudol Gwaith Ieuenctid

Mae cyhoeddi Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Cyflawni dros Bobl Ifanc, ym mis Mawrth 2026 yn cyflwyno fframwaith statudol newydd pwysig ar gyfer cynllunio, cyflwyno a monitro gwaith ieuenctid ledled Cymru. Mae'r fframwaith hwn, a seiliwyd ar Gyfarwyddiadau'r Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid (Darparu Gwaith Ieuenctid) (Cymru) 2026, yn gosod dyletswyddau clir ar awdurdodau lleol a'u partneriaid i ddarparu cynnig gwaith ieuenctid eglur, a gefnogir gan y safonau cenedlaethol, ac a gaiff ei strwythuro trwy gynlluniau strategol pum mlynedd. Mae gofyn bod y cynlluniau hyn yn cyflwyno blaenoriaethau ar sail tystiolaeth o anghenion pobl ifanc, ochr yn ochr â threfniadau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth, monitro ac atebolrwydd.

Mae'r fframwaith yn uniongyrchol berthnasol i gyfranogiad. Mae'n pwysleisio bod rhaid llunio gwaith ieuenctid trwy ymgysylltu'n weithredol â phobl ifanc, yn unol â CCUHP a dyletswyddau cyfranogiad presennol, ac mae'n gofyn bod awdurdodau lleol yn cryfhau strwythurau cyfranogiad, yn gwella hygyrchedd, ac yn sicrhau bod mecanweithiau adborth yn eu lle. Mae hefyd yn amlygu rôl gwaith ieuenctid o ran cyrraedd grwpiau a dangynrychiolir a chefnogi hyder, sgiliau a gallu i weithredu, gan ategu ei bwysigrwydd fel mecanwaith cyflwyno allweddol ar gyfer cyfranogiad ystyrlon. Yn sgîl hynny, mae'r fframwaith yn darparu sylfaen statudol gryfach ar gyfer gwreiddio cyfranogiad mewn systemau lleol, ac mae'n cynnig cyfle hollbwysig i roi sylw i rai o'r anghysondebau a'r rhwystrau a nodwyd yn yr adroddiad hwn.

O'u cyfuno, mae'r fframweithiau hyn yn sefydlu disgwyliad polisi a chyfreithiol clir, sef y dylai cyfranogiad plant a phobl ifanc gael ei wreiddio ar draws gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Maent yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer sicrhau bod hawliau plant yn cael eu cydnabod, eu parchu a'u gwireddu'n ymarferol ar draws sectorau megis addysg, iechyd, gofal cymdeithasol a pholisi cyhoeddus yn fwy cyffredinol. Fodd bynnag, fel mae'r adroddiad hwn yn dangos, mae bwlch yn parhau rhwng disgwyliadau deddfwriaethol a'u gweithrediad cyson. Mae rhwystrau cysylltiedig ag adnoddau, systemau ac ymarfer yn dal i ddylanwadu ar effeithiolrwydd gwreiddio cyfranogiad, gan gyfyngu ar allu plant a phobl ifanc i ddylanwadu ar benderfyniadau mewn modd ystyrlon ledled Cymru.



# 02 Methodoleg

Mae'r adroddiad hwn yn tynnu gwybodaeth o raglen ymgysylltu genedlaethol â phob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru, i asesu effeithiolrwydd strwythurau cyfranogiad ieuenctid a'u cyfraniad at gyflawni hawliau plant yn ymarferol. Lluniwyd y dull gweithredu i ddarparu sylfaen gadarn a chrwn o dystiolaeth, fyddai'n cyfuno cipolwg meintiol ac ansoddol, ac yn golygu bod modd cymharu ar draws Cymru.

## Dulliau

Cyflawnwyd y gwaith mewn pedwar cam:

**Cam 1 – Arolwg Awdurdod Lleol:** Ym mis Gorffennaf 2025, gwahoddwyd holl Awdurdodau Lleol Cymru i gwblhau arolwg byr, strwythuredig. Lluniwyd yr ymarferiad hwn yn weithgaredd rhychwantu cychwynnol pen desg i gasglu gwybodaeth lefel uchel am drefniadau cyfranogiad, gan gynnwys strwythurau llywodraethu a staffio, dulliau cyfranogi, ac i ba raddau mae cyfranogiad wedi'i wreiddio mewn ymarfer.

Darparodd y canlyniadau cychwynnol drosolwg cyffredinol o weithgarwch cyfranogiad ledled Cymru, gan helpu i ganfod themâu oedd yn dod i'r amlwg, amrywiadau, a meysydd i'w harchwilio ymhellach. Yn hytrach na darparu sylfaen annibynnol o dystiolaeth, defnyddiwyd y cam hwn i lywio a dylanwadu ar yr ymweliadau ymgysylltu manwl dilynol gydag awdurdodau lleol.

**Cam 2 – Ymweliadau Ymgysylltu ag Awdurdodau Lleol:** Rhwng Gorffennaf a Rhagfyr 2025, cynhaliodd Comisiynydd Plant Cymru a'i thîm ymweliadau â phob awdurdod lleol. Roedd yr ymweliadau hyn yn cynnwys trafodaethau gydag uwch arweinwyr, arweinwyr cyfranogiad, a swyddogion perthnasol oedd yn gyfrifol am gyflawni dyletswyddau cyfranogiad.

Roedd yr ymweliadau'n gyfle i archwilio canfyddiadau'r arolwg yn fanylach, gan drafod dulliau gweithredu lleol yn fanwl, yn ogystal â'r ffactorau oedd yn herio ac yn hwyluso. Roeddent hefyd yn fodd i ganfod ffactorau cyd-destunol oedd yn dylanwadu ar gyflwyno, megis blaenoriaethau sefydliadol, cyfyngiadau o ran adnoddau, a rhwystrau ar lefel y system. Er mai prif ffocws yr ymweliadau oedd ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol, hwylusodd rhai awdurdodau lleol gyfleoedd i glywed yn uniongyrchol gan blant a phobl ifanc. Roedd y cyfraniadau hynny'n darparu cyd-destun ychwanegol ac yn helpu i ddaearu'r canfyddiadau mewn profiadau bywyd, er nad ydynt yn cael eu cyflwyno yma fel sylfaen gynrychioliadol o dystiolaeth.

**Cam 3 – Arolwg y Ffordd Gywir:** Caiff yr adroddiad ei lywio ymhellach gan ddadansoddiad o'r canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg o Arolwg Y Ffordd Gywir (TRW) yn 2026. Mae'r arolwg hwn yn darparu set ddata gydweddus ar lefel genedlaethol sy'n casglu profiadau plant a phobl ifanc, ochr yn ochr â'r bobl broffesiynol sy'n gweithio gyda nhw.

Bu'r dadansoddiad yn canolbwyntio ar feysydd allweddol sy'n berthnasol i gyfranogiad a hawliau plant ar waith, gan gynnwys:

- cyfleoedd plant a phobl ifanc i gael llais mewn penderfyniadau
- i ba raddau maen nhw'n teimlo eu bod yn cael eu gwrando ac yn gallu dylanwadu ar ganlyniadau
- ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o hawliau plant, gan gynnwys CCUHP
- mynediad at strwythurau cyfranogiad megis cynghorau ysgol a fforymau ysgol, a chanfyddiadau ohonynt.

Mae'r data yn cynnwys ymatebion gan 3,523 o blant a phobl ifanc 7–18 oed, a 215 o weithwyr proffesiynol, ar draws ystod o leoliadau sy'n cynnwys ysgolion cynradd ac uwchradd a darpariaeth ieuenctid. Mae'r sampl mawr, amrywiol hwn yn darparu sylfaen feintiol gref ar gyfer canfod tueddiadau ac amrywiadau ar lefel y system ar draws grwpiau oed a chyd-destunau.

Defnyddiwyd canfyddiadau Y Ffordd Gywir i driongli'r mewnwelediad a gafwyd gan awdurdodau lleol, a bu hynny o gymorth i brofi i ba raddau mae'r strwythurau a'r dulliau gweithredu yr adroddwyd amdanynt yn cael eu hadlewyrchu ym mhrofiadau ymarferol plant a phobl ifanc.

**Cam 4: Dadansoddiad Thematig**

Fframiwyd y dadansoddiad o'r dystiolaeth a gasglwyd trwy'r prosiect hwn gan Fframwaith y Ffordd Gywir, sy'n cyflwyno dull gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant ar gyfer cyrff cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r fframwaith hwn yn darparu strwythur clir ar gyfer troi hawliau plant yn weithredu, a hynny ar sail pum egwyddor greiddiol:

- **Gwreiddio:** Sicrhau bod hawliau plant yn cael eu gwreiddio ar draws polisi, cynllunio a chyflwyno gwasanaethau
- **Cydraddoldeb a Pheidio â Gwahaniaethu:** Sicrhau bod pob plentyn yn gallu cyfranogi ar sail gyfartal
- **Grymuso:** Cefnogi plant a phobl ifanc i ddeall ac ymarfer eu hawliau
- **Cyfranogiad:** Galluogi ymwneud ystyrlon a pharhaus mewn penderfyniadau
- **Atebolrwydd:** Dangos sut mae barn plant yn dylanwadu ar ganlyniadau

Defnyddiwyd yr egwyddorion hyn yn lens dadansoddi er mwyn asesu i ba raddau mae cyfranogiad yn cael ei gyflwyno yn unol â Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant ar draws awdurdodau lleol.

Yna cynhaliwyd dadansoddiad thematig ar draws yr holl ddata a gasglwyd trwy'r prosiect, gan gynnwys ymatebion arolwg, tystiolaeth o ymweliadau ag awdurdodau lleol, a'r hyn a ddysgwyd o arolwg Y Ffordd Gywir. Roedd hynny'n golygu adolygu a chodio'r data yn systematig er mwyn canfod patrymau cyson, meysydd oedd yn gryfderau, a heriau cyffredin.

Bu'r dadansoddiad yn canolbwyntio ar y canlynol:

- canfod enghreifftiau o ymarfer effeithiol ac arloesol
- deall y prif rwystrau sy'n effeithio ar gyflawni
- archwilio sut caiff cyfranogiad ei brofi a'i weithredu'n ymarferol
- asesu aliniad rhwng disgwyliadau statudol a chyflawni ar lawr gwlad

Cyflwynir y canfyddiadau'n thematig o fewn yr adroddiad, wedi'u strwythuro o amgylch egwyddorion Y Ffordd Gywir. Mae'r dull gweithredu hwn yn sicrhau bod y dadansoddiad yn dal wedi'i wreiddio mewn fframwaith hawliau plant cydnabyddedig, gan ddarparu sylfaen glir a chyson ar gyfer nodi arfer da, bylchau, a meysydd i'w gwella.

## Cryfderau a Gwendidau

Mae'r fethodoleg hon yn darparu trosolwg cenedlaethol cynhwysfawr a chydnerth, gan ddefnyddio tystiolaeth o holl awdurdodau lleol Cymru a chyfuno mewnwelediad ymarferwyr â data meintiol gan blant a phobl ifanc. Mae integreiddio data arolwg, ymgysylltu manwl trwy ymweliadau ag awdurdodau lleol, a thystiolaeth gefnogi ehangach yn cryfhau dibynadwyedd a dyfnder cyffredinol y canfyddiadau, fel bod modd dadansoddi ar lefel systemau a deall y cyd-destun.

Mae'r dull gweithredu yn rhoi pwyslais arbennig ar ddeall sut mae dyletswyddau cyfranogiad yn cael eu cyflawni'n ymarferol gan y rhai sy'n gyfrifol am eu gweithredu. Mae hyn yn darparu cipolwg gwerthfawr ar strwythurau sefydliadol, a ffactorau sy'n herio ac hwyluso ledled Cymru, gan gynnwys, lle bo hynny ar gael, clywed yn uniongyrchol gan blant a phobl ifanc yn ystod ymweliadau lleol, sy'n helpu i hysbysu'r canfyddiadau a'u rhoi yn eu cyd-destun. Ar ben hynny, mae cynnwys data o Arolwg y Ffordd Gywir (TRW) yn sicrhau bod y dadansoddiad wedi'i wreiddio mewn sylfaen eang ac amrywiol o dystiolaeth sy'n adlewyrchu profiadau plant a phobl ifanc ledled Cymru.

Er nad yw'r prosiect hwn yn adrodd barn plant a phobl ifanc yn gwbl gynrychioliadol, mae'r sylfaen gyfunedig o dystiolaeth yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer nodi themâu allweddol, patrymau, a meysydd i'w gwella. O'u cyfuno, mae'r dulliau hyn yn cynnig asesiad cytbwys, digonol ei dystiolaeth, o ymarfer cyfranogi ledled Cymru.

# 03 Canfyddiadau

## Cyflwyniad

Mae'r bennod hon yn cyfuno tystiolaeth o bob un o'r 22 awdurdod lleol, ynghyd â chanfyddiadau o Arolwg Y Ffordd Gywir (TRW), gan ddarparu darlun cenedlaethol o sut mae cyfranogiad yn cael ei gyflwyno'n ymarferol. Mae'n defnyddio mewnwelediad ansoddol yn sgîl ymgysylltu ag awdurdodau lleol a data meintiol gan fwy na 3,500 o blant a phobl ifanc.

Ledled Cymru, mae ymrwymiad amlwg i gyfranogiad, gyda phob awdurdod lleol yn dangos bod ganddynt strwythurau sefydledig megis cynghorau ieuenctid, fforymau, a phrosesau ymgynghori. Mae'r dystiolaeth yn amlygu ystod amrywiol, esblygol o ddulliau gweithredu, gan gynnwys mentrau a arweinir gan bobl ifanc, ymgyngoriadau ar raddfa fawr, ac ymgysylltu digidol creadigol. Mewn llawer o ardaloedd, mae plant a phobl ifanc yn dylanwadu ar ddyluniad gwasanaethau, prosesau recriwtio a phenderfyniadau lleol.

Fodd bynnag, er bod cyfranogiad wedi ennill ei blwyf mewn egwyddor, mae ei ansawdd, ei gwmpas a'i effaith yn dal i amrywio. Yn aml ceir yr ymarfer cryfaf lle ceir capasiti ac arweiniad ymroddedig, ac mae'n llai cyson os yw'n dibynnu ar wasanaethau unigol neu adnoddau tymor byr.

Canfyddiad allweddol yw nad yw presenoldeb strwythurau cyfranogiad bob amser yn gyfystyr â dylanwad ystyrlon. Er bod llawer o blant a phobl ifanc yn sôn am gyfleoedd i rannu eu barn, mae llai ohonynt yn teimlo bod y farn honno'n effeithio ar benderfyniadau. Mae'r dystiolaeth hefyd yn amlygu anghydraddoldeb parhaus o ran cyfranogiad, gan fod rhai grwpiau o blant a phobl ifanc yn llai tebygol o gael eu cyrraedd na'u clywed.

At ei gilydd, mae'r canfyddiadau'n dangos bod gan Gymru sylfeini cadarn ar gyfer cyfranogiad, ond bod angen cynnydd pellach i sicrhau ei fod yn gyson ystyrlon a chynhwysol, a'i fod yn cael effaith.

Mae'r dadansoddiad wedi'i strwythuro o amgylch egwyddorion Fframwaith y Ffordd Gywir: Gwreiddio, Cydraddoldeb a Pheidio â Gwahaniaethu, Grymuso, Cyfranogiad ac Atebolrwydd.

Ceir proffiliau manwl ar gyfer yr awdurdodau lleol, yn nodi'r holl ystod o ymarfer ledled Cymru, yn yr Atodiad.

## Gwreiddio

Mae gwreiddio cyfranogiad yn galw am gapasiti arbenigol, buddsoddiad ac arweiniad ar lefel gorfforaethol, ochr yn ochr â chydnabod bod cyfranogiad yn gyfrifoldeb craidd i bob aelod o staff a phob gwasanaeth. Mae'n amlwg pan fo hawliau a chyfranogiad plant wedi'u hintegreiddio ar draws systemau sefydliadol, llywodraethiant, a phrosesau gwneud penderfyniadau, yn hytrach na'u cyflwyno fel elfen annibynnol neu weithgarwch amser-gyfyngedig.

Ar draws Cymru, mae tystiolaeth glir o gynnydd. Mae cyfranogiad yn cael ei ymgorffori fwyfwy mewn cynllunio corfforaethol, comisiynu, craffu a gweithio mewn partneriaeth, ac yn cael ei gefnogi gan rolau, polisïau a fframweithiau penodol. Mae tystiolaeth hefyd bod penderfyniadau yn ystyried iechyd a llesiant plant a phobl ifanc ar ffurf asesiadau effaith integredig. Fodd bynnag, mae'r defnydd o Asesiadau Effaith ar Hawliau Plant (CRIAs) yn dal yn anghyson. Er bod rhai awdurdodau'n arddangos arfer mwy datblygedig, nid yw hynny'n digwydd yn systematig ledled Cymru eto, ac o ganlyniad nid oes tystiolaeth benodol ynghylch hawliau plant bob amser fel rhan o brosesau gwneud penderfyniadau.

Er bod y datblygiadau hyn yn cynrychioli cynnydd pwysig, mae'r gwreiddio'n dal yn anwastad ar draws gwasanaethau a chyd-destunau.

### Arolwg y Ffordd Gywir: Beth ddywedodd plant a phobl ifanc wrthyn ni

Mae'r canfyddiadau meintiol yn dangos bod cyfleoedd i gyfranogi i'w gweld, ond nad ydynt bob amser yn cael eu profi fel rhai a wreiddiwyd yn y broses o wneud penderfyniadau.

- Mae 67% o blant a phobl ifanc yn sôn eu bod yn cael cyfleoedd i fod yn rhan o benderfyniadau
- Fodd bynnag, dim ond rhyw draean sy'n teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau megis polisïau neu sut mae adnoddau'n cael eu defnyddio
- Mae 38% yn dweud eu bod yn ansicr a fydd unrhyw weithredu ar sail eu barn

Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu, er bod strwythurau'n bodoli, nad yw cyfranogiad yn cael ei brofi'n gyson fel rhan o brosesau craidd y sefydliad, ac nad yw ei effaith bob amser yn glir.

### Arfer Da

Ar draws Cymru, mae enghreifftiau cadarn a mwyfwy datblygedig o wreiddio cyfranogiad mewn systemau sefydliadol, gan ddangos beth sy'n bosibl os bydd arweinyddiaeth, capasiti a strwythurau yn cyd-fynd â'i gilydd.

Ar lefel strategol, mae cyfranogiad yn cael ei integreiddio i fframweithiau gwneud penderfyniadau a llywodraethiant corfforaethol. Mewn sawl awdurdod, mae cysylltiad uniongyrchol rhwng plant a phobl ifanc a strwythurau ffurfiol megis pwyllgorau craffu, ymgysylltiad â'r Cabinet, a phrosesau cynllunio corfforaethol, fel bod eu barn yn gallu llywio polisi, strategaeth, a datblygiad gwasanaethau.

Mae tystiolaeth glir hefyd o gyfranogiad yn llywio comisiynu a dylunio gwasanaethau, gyda phobl ifanc yn cyfrannu at nodi blaenoriaethau, ffurfio modelau cyflwyno a gwerthuso'r ddarpariaeth. Defnyddir dulliau ymgysylltu ar raddfa fawr (megis pleidleisio, arolygon ac ymgyngoriadau dan arweiniad pobl ifanc) mewn rhai ardaloedd i ddarparu sylfaen gadarn o dystiolaeth er mwyn gwneud penderfyniadau.

## Caerdydd: Dinas sy'n Dda i Blant

Mae cyfranogiad wedi'i wreiddio trwy ddull gweithredu cydlynus ar draws y ddinas dan arweiniad y tîm Dinas sy'n Dda i Blant (CFC), sydd â throsolwg strategol ac yn cefnogi meithrin capasiti ar draws gwasanaethau'r cyngor. Mae'r model dosbarthu hwn yn galluogi adrannau unigol a phrosesau craffu (ar draws cynllunio, trafnidiaeth ac addysg) i arwain eu hymgysylltiad eu hunain, gan ddefnyddio arbenigedd canolog i sicrhau cysondeb ac aliniad â hawliau plant.

Mae rôl allweddol i'r tîm CFC wrth gryfhau ymarfer trwy gefnogi staff, darparu offer a chanllawiau, a galluogi gwasanaethau i gomisiynu ymchwil a gweithgarwch cyfranogiad yn ôl y galw, gan gynnwys er mwyn llywio datblygiad polisi ac Asesiadau Effaith ar Hawliau Plant (CRIAs). Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn creu model aeddfed lle mae cyfranogiad wedi'i wreiddio ar draws cynllunio, penderfyniadau a chyflwyno gwasanaethau, gyda chefnogaeth arweinwyr canolog a pherchnogaeth ar lefel y gwasanaeth.

## Caerffili: Fforwm Ieuenctid y Fwrdeistref Sirol

Mae fforwm ieuenctid Caerffili yn ymgysylltu â phobl ifanc trwy gynghorau ysgol a gwasanaethau ieuenctid, ac mae'n cydweithio'n wych â'r gwasanaethau plant. Mae hyn wedi'i wreiddio yn yr awdurdod, lle mae tîm bach o staff yn y gwasanaeth ieuenctid i gefnogi'r Fforwm Ieuenctid. Mae ganddyn nhw hefyd Bencampwr Ieuenctid, sef y Dirprwy Arweinydd ar hyn o bryd. Mae strwythur cyfranogiad clir, lle mae pobl ifanc yn codi materion mewn ysgolion/grwpiau bob blwyddyn. Eir â'r rhain i gynhadledd fforwm flynyddol a arweinir gan bobl ifanc, a chânt eu trafod a'u blaenoriaethu yno, cyn dod yn destun pleidlais ar-lein i'r fforwm cyfan (bu 2472 o bobl ifanc yn cymryd rhan y llynedd) a'r blaenoriaethau sy'n dod i'r brig ym mhleidleisiau'r bobl ifanc fydd gwaith y Fforwm Ieuenctid yn y flwyddyn sy'n dod.

## Sir y Fflint: Ieuenctid Sir y Fflint

Mae cyfranogiad wedi'i wreiddio ar draws meysydd polisi niferus, gyda phobl ifanc yn dylanwadu ar flaenoriaethau strategol megis y newid yn yr hinsawdd, rhianta corfforaethol a chyflwyno gwasanaeth. Mae model "Young Flintshire" yn cysylltu cynghorau ysgol a gwasanaethau ieuenctid â'i gilydd i greu system gydlynus, gan greu llwybrau clir ar gyfer cyfranogiad o gyd-destunau lleol i benderfyniadau strategol.

### Abertawe: Llywodraethiant seiliedig ar hawliau

Mae cyfranogiad wedi'i wreiddio trwy ddull gweithredu strwythuredig, sy'n pontio gwasanaeth, a hynny ar sail ymrwymiad cadarn i CCUHP a gweithredu ar sail hawliau dynol. Adlewyrchir hyn yn "Sgwrs Fawr" y cyngor, proses ymgysylltu ar raddfa fawr, sy'n casglu barn a blaenoriaethau plant a phobl ifanc ac yn bwydo'n uniongyrchol i'r broses o gynllunio a chyflwyno gwasanaethau.

Mae grwpiau cyfranogiad wedi'u targedu (e.e. pobl ifanc â phrofiad o ofal a'r rhai sy'n ymwneud â'r system cyfiawnder ieuenctid) yn gysylltiedig â phrosesau ehangach llywodraethiant a gwneud penderfyniadau, gyda chefnogaeth timau gwaith ieuenctid a chyfranogiad penodol. Mae hyn i gyd yn dangos sut caiff ymrwymiad i gyfranogiad ar sail hawliau ei roi ar waith, gyda llwybrau clir o'r ymgysylltu i systemau sefydliadol a phenderfyniadau.

### Sir Benfro: Beth sy'n Bwysig i Chi

Mae pleidlais ieuenctid "Beth sy'n Bwysig i Chi" yn darparu sylfaen gadarn, graddfa fawr o dystiolaeth ynghylch cyfranogiad, gan gyrraedd mwy na 5,000 o bobl ifanc. Defnyddir y canfyddiadau i lywio sut caiff gwasanaethau eu cynllunio, ac mae cysylltiad uniongyrchol rhwng hynny a chyflawni trwy'r Cynulliad Ieuenctid, gan sicrhau cysylltiad clir rhwng ymgysylltu a gweithredu.

Ar draws yr enghreifftiau hyn, cefnogir cyfranogiad gan arweinyddiaeth glir, strwythurau cadarn a buddsoddiad cyson, fel bod modd symud y tu hwnt i ymgynghori a dylanwadu ar benderfyniadau a deilliannau mewn modd amlwg.

## Meysydd i'w Gwella

Er bod enghreifftiau clir o ymarfer cadarn, mae gwreiddio cyfranogiad yn dal yn anghyson ac yn anwastad ledled Cymru, ac mae sawl her systemig yn cyfyngu ar ei effeithiolrwydd.

Elfen allweddol yw amrywiadau ar draws ac o fewn gwasanaethau awdurdodau lleol. Er bod cyfranogiad yn aml wedi'i ddatblygu'n dda mewn gwasanaethau ieuenctid, mae wedi'i wreiddio'n llai systematig ar draws:

- Addysg ac ysgolion, lle mae'r ymatebion i lais y dysgwr yn amrywio'n fawr, heb gysylltiad bob amser â phrosesau ehangach yr awdurdod lleol na phenderfyniadau strategol
- Gwasanaethau corfforaethol ehangach, lle gall cyfranogiad gael ei weld fel gofyniad ychwanegol, yn hytrach na rhan annatod o gynllunio, datblygu polisi a chomisiynu
- Sefydliadau partner a strwythurau rhanbarthol, gan gynnwys Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, lle nad yw'r ymgysylltu bob amser wedi'i wreiddio, ei gydlynu na'i gysylltu'n amlwg â phenderfyniadau

O ganlyniad, mae cyfranogiad yn aml yn dibynnu ar dimau unigol, arweinyddiaeth a chyllid, yn hytrach na bod wedi'i wreiddio'n gyson ar draws sefydliadau cyfan.

Nododd awdurdodau lleol hefyd heriau o ran capasiti ac adnoddau, gan gynnwys:

- Dibyniaeth ar gyllid grantiau neu dymor byr
- Staffio ac amser cyfyngedig i gefnogi cyfranogiad ystyrlon
- Galw cynyddol ar draws gwasanaethau i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc

Mae bylchau hefyd o ran cymhwyso fframweithiau hawliau plant yn gyson. Er bod asesiadau effaith integredig yn cael eu defnyddio mewn rhai cyd-destunau, nid yw'r defnydd o Asesiadau Effaith penodol ar Hawliau Plant (CRIAs) yn systematig eto, ac mae hynny'n cyfyngu ar weledadd ac atebolrwydd yng nghyswllt sut mae hawliau plant yn llywio penderfyniadau.

Mae diwylliant a dealltwriaeth sefydliadol yn parhau'n rhwystrau allweddol. Nid yw cyfranogiad yn cael ei gydnabod yn gyffredinol eto fel cyfrifoldeb a rennir gan sefydliadau, a lle caiff ei weld yn bennaf fel rôl timau arbenigol, gall hynny gyfyngu ar berchnogaeth, cysondeb ac effaith ar draws gwasanaethau.

Ar ben hynny, gall cyfyngiadau strwythurol gyfyngu ar wreiddio, gan gynnwys:

- Llinellau amser sydd ddim yn caniatáu ar gyfer ymgysylltu ystyrlon wrth wneud penderfyniadau
- Prosesau llywodraethiant cymhleth y mae'n anodd i blant a phobl ifanc gael mynediad iddyn nhw
- Systemau sydd heb eu llunio i gefnogi cyfranogiad parhaus

Yn olaf, mae anghydraddoldebau o ran sut mae cyfranogiad yn cael ei wreiddio a'i brofi, gyda rhai grwpiau o blant a phobl ifanc yn llai tebygol o gael eu cyrraedd trwy'r strwythurau presennol oherwydd rhwystrau cysylltiedig â daearyddiaeth, tlodi, anabledd neu hyder.

## Mewnwelediad Allweddol

Mae gwreiddio cyfranogiad yn dod yn fwyfwy amlwg mewn strwythurau a systemau ledled Cymru. Fodd bynnag, nid yw eto'n cael ei wireddu'n gyson mewn ymarfer.

Y brif her yw symud o wneud cyfranogiad yn rhan sylfaenol o brosesau i sicrhau ei fod yn cael ei brofi'n gyson gan blant a phobl ifanc fel rhywbeth sy'n dylanwadu ar benderfyniadau, trwy berchnogaeth sefydliad cyfan gyda chefnogaeth arweiniad, buddsoddiad ac atebolrwydd parhaus.

## Cydraddoldeb a Pheidio â Gwahaniaethu

Mae cydraddoldeb a pheidio â gwahaniaethu yn gofyn bod modd i bob plentyn a pherson ifanc gymryd rhan ar sail gyfartal, beth bynnag yw eu cefndir, eu hunaniaeth neu eu hamgylchiadau. Mae hynny'n golygu nid yn unig darparu cyfleoedd i gyfranogi, ond mynd ati'n rhagweithiol i nodi a rhoi sylw i'r rhwystrau sy'n atal rhai grwpiau rhag ymgysylltu neu gael eu clywed.

Ar draws Cymru, mae cydnabyddiaeth glir o bwysigrwydd cyfranogiad cynhwysol. Mae awdurdodau lleol wedi datblygu ystod o ddulliau o gyrraedd gwahanol grwpiau o blant a phobl ifanc, gyda phwyslais cynyddol ar allu i addasu ac ymgysylltiad wedi'i dargedu. Fodd bynnag, mae i ba raddau y ceir profiad cyfartal o gyfranogiad yn dal i amrywio.

Er gwaethaf y cynnydd hwn, mae'r dystiolaeth yn amlygu nad yw cyfranogiad cynhwysol wedi'i wreiddio'n gyson mewn ymarfer eto. Nododd awdurdodau lleol heriau parhaus wrth gyrraedd rhai grwpiau o blant a phobl ifanc a chynnal ymgysylltiad â nhw, yn enwedig y rhai sy'n wynebu rhwystrau lluosog neu gysylltiedig. Mae'r rhain yn cynnwys materion cysylltiedig ag ymwybyddiaeth o gyfleoedd, hyder i gyfranogi, hygyrchedd y ddarpariaeth, ac i ba raddau mae cyfleoedd cyfranogiad wedi'u llunio gydag anghenion amrywiol mewn golwg. O ganlyniad, gall cyfranogiad barhau'n anwastad, gyda rhai lleisiau'n cael eu clywed a'u cynrychioli'n fwy cyson nag eraill, gan atgyfnerthu anghydraddoldeb sydd eisoes yn bodoli o ran dylanwad a phenderfyniadau.

### Arolwg y Ffordd Gywir: Beth ddywedodd plant a phobl ifanc wrthyn ni

Mae'r canfyddiadau meintiol yn amlygu bylchau o ran ymwybyddiaeth, mynediad a chynhwysiad mewn strwythurau cyfranogiad.

- Mae ymwybyddiaeth ac ymgysylltiad yn amrywio yn ôl oed a chyd-destun, gyda phobl ifanc hŷn yn sôn am lefelau cyfranogiad is.
- Mae cyfran o blant a phobl ifanc yn ansicr sut mae chwarae rhan neu'n teimlo nad yw cyfranogiad yn berthnasol neu'n hygyrch iddyn nhw. Er enghraifft, mae 45% yn ansicr ydyn nhw'n cael cyfle i leisio barn mewn fforymau ysgol, ac nid yw 38% yn gwybod ydyn nhw'n cael gwrandawiad. Mae hyn, ochr yn ochr â'r canfyddiad nad yw 60% yn ymwybodol o fforymau ieuenctid lleol, yn awgrymu nad yw llwybrau cyfranogiad bob amser yn glir, yn weladwy, nac yn hygyrch.

Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu, er bod cyfleoedd yn bodoli, nad ydynt bob amser yn weladwy, yn hygyrch nac yn gynhwysol, yn enwedig i'r rhai sy'n llai hyderus neu â llai o gysylltiad â strwythurau ffurfiol.

### Arfer Da

Ledled Cymru, mae enghreifftiau cryf o awdurdodau lleol yn cymryd camau rhagweithiol i hybu cyfranogiad cynhwysol a rhoi sylw i rwystrau.

Mae llawer o awdurdodau wedi datblygu nifer o lwybrau cyfranogiad, gan gydnabod na fydd unrhyw fecanwaith unigol yn cyrraedd pob plentyn a pherson ifanc. Mae'r rhain yn cynnwys cynghorau ieuenctid, fforymau wedi'u targedu, cyfranogiad yn yr ysgol, ac ymgysylltiad cymunedol neu estyn allan, yn aml gyda chefnogaeth partneriaethau â chyrff trydydd sector.

Mae tystiolaeth hefyd o ddulliau gweithredu wedi'u targedu i gefnogi grwpiau penodol, gan gynnwys:

- Fforymau penodol ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal
- Cyfranogiad wedi'i addasu ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol neu anableddau
- Gwaith estyn allan gyda phlant a phobl ifanc sy'n llai tebygol o ymgysylltu trwy strwythurau ffurfiol

## Bro Morgannwg: Ei Llais Cymru

Prosiect cyfranogiad a arweinir gan ferched yw Her Voice Wales, ac mae'n cefnogi menywod ifanc i archwilio materion sy'n effeithio arnyn nhw, gyda ffocws ar ddiogelwch a chydraddoldeb rhyw. Trwy'r ymgyrch #WeDontFeelSafe, bu'r cyfranogwyr yn casglu tystiolaeth ynghylch profiadau o aflonyddu, ac yn cyflwyno'u canfyddiadau'n uniongyrchol i lunwyr penderfyniadau, gan gynnwys Cabinet y Cyngor a Llywodraeth Cymru.

Mae'r prosiect wedi dylanwadu ar fentrau diogelwch lleol, megis cynlluniau Mannau Diogel ac ymwybyddiaeth o fecanweithiau adrodd, ac fe'i cydnabuwyd yn genedlaethol trwy Ddyfarniad Rhagoriaeth mewn Gwaith Ieuenctid.

Mae hyn yn dangos sut gall cyfranogiad wedi'i dargedu, dan arweiniad ieuenctid, sicrhau bod lleisiau menywod ifanc yn llywio penderfyniadau'n uniongyrchol ac yn sbarduno newid.

## Wrecsam: Strwythurau wedi'u Teilwra

Mae Wrecsam wedi datblygu ystod o strwythurau cyfranogiad a luniwyd i gefnogi ymgysylltiad â phlant a phobl ifanc sy'n wynebu rhwystrau ychwanegol, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal, a'r rhai sy'n ymwneud â chyfiawnder ieuenctid. Mae'r dulliau gweithredu yn cynnwys fforymau wedi'u teilwra, ymgysylltiad â chefnogaeth a gweithio mewn partneriaeth gyda gwasanaethau arbenigol. Lluniwyd y llwybrau hyn nid yn unig i alluogi cyfranogiad, ond hefyd i sicrhau bod barn y grwpiau hyn yn llywio cynllunio, dylunio gwasanaethau a phrosesau adolygu. Mae'r pwyslais ar ymgysylltu cyson ac integreiddio i strwythurau gwneud penderfyniadau yn dangos ymrwymiad i symud y tu hwnt i fynediad yn unig at gynhwysiant ystyrlon.

## Meysydd i'w Gwella

Er gwaethaf bwriad clir ac enghreifftiau o arfer da, nid yw cyfranogiad eto yn gyson gyfartal ledled Cymru.

Her allweddol yw tangynrychiolaeth rhai grwpiau mewn strwythurau cyfranogiad. Amlygodd awdurdodau lleol anawsterau parhaus wrth ymgysylltu'n gyson â'r canlynol:

- Plant anabl a'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol
- Plant o gefndiroedd ethnig lleiafrifol a chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr
- Plant nad ydynt yn rhan o addysg brif ffrwd
- Pobl ifanc sy'n byw mewn ardaloedd gwledig neu rai sy'n ynysig yn ddaearyddol

Yn aml mae'r heriau hyn yn cael eu gwaethygu gan rwystrau sosioeconomaidd a rhai sy'n gorgyffwrdd, lle mae nifer o ffactorau yn rhyngweithio i gyfyngu ar fynediad ac ymgysylltiad. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cyfyngiadau trafnidiaeth a daearyddol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig
- Eithrio digidol, gan gynnwys mynediad a hyder
- Ymwybyddiaeth gyfyngedig o gyfleoedd cyfranogiad

Mewn rhai achosion, cefnogir cynhwysiad trwy strwythurau ar wahân neu wedi'u targedu, yn hytrach na'i wreiddio ar draws yr holl fecanweithiau cyfranogiad. Er bod hynny'n werthfawr, fe all weithiau gyfyngu ar gyfleoedd ar gyfer cynrychiolaeth ehangach a dylanwad mewn prosesau gwneud penderfyniadau prif ffrwd.

Mae bylchau hefyd o ran:

- Cysondeb arfer cynhwysol ar draws gwasanaethau
- Hyder y gweithlu a'u sgiliau wrth ymgysylltu â grwpiau amrywiol
- Data a dealltwriaeth o ran pwy sy'n cyfranogi a phwy sydd ddim

Gyda'i gilydd, mae'r ffactorau hyn yn cyfrannu at ddeilliannau cyfranogiad anwastad ac yn cyfyngu ar i ba raddau gall pob plentyn a pherson ifanc ddylanwadu ar benderfyniadau ar sail gyfartal.

## Mewnwelediad Allweddol

Mae ymrwymiad cadarn ledled Cymru i gyfranogiad cynhwysol, gyda chefnogaeth ystod o ddulliau gweithredu a dargedir ac y gellir eu haddasu. Fodd bynnag, nid yw cyfranogiad yn gyson gyfartal eto, ac mae cryn amrywiadau o ran pwy sy'n gallu cyrchu, ymgysylltu â phenderfyniadau a dylanwadu arnynt.

Yr her allweddol yw sicrhau bod cyfranogiad nid yn unig ar gael, ond yn hygyrch, yn weladwy ac yn ystyrlon i bob plentyn a pherson ifanc, yn enwedig y rhai sy'n cael eu tangynrychioli ar hyn o bryd, neu sy'n wynebu rhwystrau ychwanegol.

## Grymuso

Mae grymuso'n gofyn bod plant a phobl ifanc yn cael eu cefnogi i ddeall eu hawliau, i feithrin hyder, ac i ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol i gyfranogi'n ystyrlon mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau. Mae grymuso yn symud cyfranogiad y tu hwnt i ymgynghori, gan alluogi plant a phobl ifanc i weithredu fel cyfranwyr gwybodus, gweithredol.

Ledled Cymru, mae cydnabyddiaeth glir o bwysigrwydd grymuso plant a phobl ifanc mewn ymarfer cyfranogi. Mae llawer o awdurdodau lleol yn buddsoddi mewn cyfleoedd sy'n cefnogi arweinyddiaeth, datblygu sgiliau ac ymwybyddiaeth o hawliau, yn aml trwy waith ieuenctid a rhaglenni cyfranogiad. Mae'r dulliau gweithredu hyn yn dangos dealltwriaeth bod cyfranogiad ystyrlon yn dibynnu nid yn unig ar gyfle, ond ar allu plant a phobl ifanc i ymgysylltu'n hyderus ac yn effeithiol.

Fodd bynnag, mae i ba raddau y caiff grymuso ei wreiddio'n gyson yn dal i amrywio. Er bod enghreifftiau cadarn o ymarfer, nid yw'r grymuso bob amser yn cael ei gynnal na'i ddatblygu'n systematig ar draws pob gwasanaeth. Gall hynny arwain at gyfleoedd cyfranogiad sy'n hygyrch, ond nad ydynt bob amser yn galluogi plant a phobl ifanc i ddylanwadu'n llawn ar benderfyniadau.

### Arolwg y Ffordd Gywir: Beth ddywedodd plant a phobl ifanc wrthyn ni

Mae canfyddiadau'r arolwg TRW yn dangos bod gwahaniaeth clir rhwng ymwybyddiaeth o hawliau a'r gallu i ymarfer yr hawliau hynny.

- Mae 87% o blant a phobl ifanc yn dweud eu bod wedi clywed am hawliau plant
- Nid yw 36% wedi clywed am CCUHP, ac mae cyfran bellach yn ansicr
- Mae ymwybyddiaeth ac ymgysylltiad yn amrywio yn ôl oed a chyd-destun, gyda phobl ifanc hŷn yn sôn am lefelau is o gyfranogiad
- Mae hyder i gyfranogi a dylanwadu ar benderfyniadau yn amrywio'n sylweddol, yn enwedig ymhlith pobl ifanc hŷn.

Mae'r ffigurau hyn yn amlygu bwlch rhwng ymwybyddiaeth gyffredinol a dealltwriaeth ddyfnach o hawliau ar waith. Er bod cysyniad hawliau yn ddigon cyfarwydd, mae diffyg gwybodaeth benodol am CCUHP yn awgrymu dealltwriaeth fwy arwynebol. Mae hynny'n awgrymu y gallai plant a phobl ifanc gael trafferth i sylweddoli a yw eu hawliau'n cael eu cynnal neu eu torri.

Nododd plant a phobl ifanc hefyd bwysigrwydd y canlynol:

- Deall sut caiff penderfyniadau eu gwneud a phwy sy'n eu gwneud
- Meddu ar yr hyder a'r gefnogaeth i fynegi barn
- Gallu gweld sut mae eu cyfraniadau'n arwain at newid

Canfyddiad gwerth ei nodi yw, er bod llawer o blant a phobl ifanc yn nodi cyfleoedd i gyfranogi, nad ydynt bob amser yn teimlo eu bod wedi'u grymuso i ddylanwadu ar ddeilliannau. Adlewyrchir hynny yn y sôn am lefelau is o ddylanwad ar benderfyniadau allweddol megis polisïau a dyrannu adnoddau. Ymddengys hefyd fod hyder i ymgysylltu yn lleihau wrth fynd yn hŷn, sy'n awgrymu nad yw strwythurau cyfranogiad sydd eisoes yn bodoli bob amser yn cefnogi ac yn cynnal grymuso dros amser.

Gyda'i gilydd, mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu, er bod ymwybyddiaeth o hawliau yn gymharol gryf, nad yw hynny'n cael ei drosi'n gyson yn ymwybyddiaeth o sut i gyfranogi, hyder i ymgysylltu, na dylanwad ystyrlon, ac mae hynny'n amlygu bwlch rhwng gwybodaeth ac ymarfer, lle gallai plant a phobl ifanc adnabod eu hawliau mewn egwyddor, ond lle nad yw strwythurau cyfranogiad presennol yn eu cefnogi fel mater o drefn i'w hymarfer mewn ffyrdd ystyrlon sy'n cael effaith.

## Arfer Da

Ar draws Cymru, mae enghreifftiau cadarn o ddulliau gweithredu sy'n cefnogi plant a phobl ifanc yn rhagweithiol i feithrin hyder, sgiliau a dealltwriaeth, fel bod modd cael cyfranogiad ystyrlon.

Nodweddir y dulliau gweithredu hyn gan y canlynol:

- Ymgysylltu parhaus, yn hytrach nag ymgynghori untro
- Cyfleoedd i arwain a chyd-gynhyrchu
- Cefnogaeth gan weithwyr proffesiynol sy'n cael eu trystio i feithrin hyder a sgiliau
- Cysylltiadau clir rhwng cyfranogiad a phrosesau gwneud penderfyniadau

Mae'r dulliau gweithredu hyn yn fwyaf effeithiol lle deellir grymuso fel proses barhaus, a gefnogir trwy berthnasoedd a gynhelir, gwybodaeth hygyrch, a chyfleoedd i blant a phobl ifanc ddatblygu sgiliau a dylanwad dros amser.

### Powys: Junior Start Well Board (JSWB)

Ym Mhowys, mae JSWB wedi cyflwyno sawl menter dan arweiniad pobl ifanc sydd wedi cael effaith ac wedi gwella gwasanaethau i bobl ifanc yn uniongyrchol. Buon nhw'n dylunio ac yn lansio Caffi Ieuenctid yn y Drenewydd, gan greu lle diogel, croesawgar gyda Wi-Fi, lluniaeth, a chefnogaeth gweithwyr ieuenctid, gan roi sylw i fwlch clir a nodwyd gan eu cyfoedion.

Yn dilyn y pandemig, cynhaliodd JSWB arolwg iechyd emosiynol ar draws y sir, a arweiniodd at ailsefydlu nyrsys ysgol a llywio mentrau llesiant i'r dyfodol. Mae eu gwaith eiriolaeth wedi dylanwadu ar bolisi rhanbarthol, gan gynnwys cyfraniadau i Fframwaith NYTH/NEST trwy ymgysylltiad uniongyrchol ag uwch-swyddogion Llywodraeth Cymru. Buont hefyd yn datblygu cynlluniau ar gyfer gwasanaethau boreol ar iechyd meddwl mewn ysgolion ac yn ehangu'r gynrychiolaeth trwy ffurfio grŵp i bobl ifanc 18–25 oed.

Mae hyn yn dangos sut gall cefnogaeth barhaus ac ymwneud ystyrlon â phenderfyniadau feithrin hyder a galluogi pobl ifanc i ddylanwadu ar ddeilliannau.

### Merthyr Tydfil: Hyfforddiant hawliau i weithwyr proffesiynol dan arweiniad pobl ifanc

Ym Merthyr Tydfil, cefnogir pobl ifanc i gyflwyno hyfforddiant i weithwyr proffesiynol ar hawliau a chyfranogiad plant. Mae'r dull gweithredu hwn yn meithrin hyder, sgiliau cyfathrebu a dealltwriaeth o brosesau gwneud penderfyniadau, ond hefyd yn newid deinameg pŵer trwy wneud pobl ifanc yn gyfranwyr credadwy i ddysgu sefydliadol. Trwy wreiddio hyfforddiant dan arweiniad pobl ifanc yn natblygiad y gweithlu, mae'r model hwn yn dangos sut gall grymuso estyn y tu hwnt i weithgareddau cyfranogiad er mwyn dylanwadu ar arfer a diwylliant.

Ar draws yr enghreifftiau hyn, cyflawnir grymuso trwy gefnogaeth gyson, rolau ystyrlon a chysylltiadau clir â gwneud penderfyniadau, fel bod plant a phobl ifanc yn gallu symud o gyfranogi i ddylanwadu.

## Meysydd i'w Gwella

Er gwaethaf enghreifftiau cryf o arfer, nid yw grymuso wedi'i wreiddio'n gyson ledled Cymru eto. Problem allweddol yw'r bwlch rhwng ymwybyddiaeth o hawliau plant a dealltwriaeth ddyfnach o sut i'w rhoi ar waith yn ymarferol. Er bod llawer o blant a phobl ifanc yn ymwybodol o'u hawliau, mae gan lai ohonynt yr wybodaeth neu'r hyder i'w defnyddio'n sylfaen ar gyfer ymgysylltu, eiriolaeth neu her.

Mae'r canfyddiad nad yw 60% o blant a phobl ifanc yn gwybod a oes fforwm ieuenctid yn bodoli yn amlygu bwlch sylweddol yng ngwelededd a hygyrchedd trefniadau cyfranogi. Heb lwybrau clir at gyfranogiad, mae plant a phobl ifanc yn llai galluog i feithrin hyder, datblygu sgiliau nac ymarfer eu hawliau.

Hefyd mae heriau parhaus yng nghyswllt:

- Hyder a hunan-barch, yn enwedig i blant iau a'r rhai sy'n wynebu rhwystrau ychwanegol
- Cyfleoedd cyfyngedig i ymgysylltu'n barhaus, gan fod cyfranogiad yn aml yn rhywbeth tymor byr neu seiliedig ar brosiect penodol
- Amrywiadau o ran mynediad at hyfforddiant, cefnogaeth a chyfleoedd i ddatblygu capasiti

Amlygodd awdurdodau lleol yr angen am gryfhau:

- • Hyder y gweithlu a'u sgiliau wrth gefnogi grymuso ar draws pob gwasanaeth
- Darparu gwybodaeth glir, hygyrch ynghylch hawliau a phrosesau gwneud penderfyniadau
- Cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddeall sut mae eu barn yn dylanwadu ar newid

Mae rhwystrau strwythurol hefyd yn cael effaith ar rymuso, gan gynnwys cyfyngiadau amser ac adnoddau, blaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd, a dulliau gweithredu anghyson ar draws gwasanaethau. O ganlyniad, mae grymuso yn aml yn dibynnu ar raglenni neu dimau penodol, yn hytrach na chael ei wreiddio ar draws sefydliadau cyfan.

## Mewnwelediad Allweddol

Mae enghreifftiau cadarn ar draws Cymru o blant a phobl ifanc yn cael eu cefnogi i ddatblygu'r hyder a'r sgiliau angenrheidiol i gyfranogi'n ystyrlon. Fodd bynnag, nid yw grymuso'n cael ei wireddu'n gyson eto, ac mae bwlch clir rhwng ymwybyddiaeth o hawliau a'r gallu i'w hymarfer.

Yr her allweddol yw sicrhau bod plant a phobl ifanc nid yn unig yn cael gwybod am eu hawliau, ond hefyd yn cael eu cefnogi dros amser i'w deall, eu cymhwyso a'u defnyddio, fel bod modd cynnal cyfranogiad a dylanwad ystyrlon ar benderfyniadau.

# Cyfranogiad

Mae cyfranogiad yn gofyn bod plant a phobl ifanc yn cael cyfleoedd ystyrlon, parhaus i ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau, yn unol ag Erthygl 12 o CCUHP. Mae hynny'n mynd y tu hwnt i ymgynghori, ac yn gofyn bod plant a phobl ifanc yn ymwneud yn weithredol â llunio penderfyniadau, a bod eu barn yn cyfrannu at ddatblygiad polisïau, gwasanaethau a blaenoriaethau.

Ledled Cymru, mae cyfranogiad wedi'i sefydlu'n dda mewn egwyddor, gyda phob awdurdod lleol yn arddangos ystod eang o strwythurau a dulliau gweithredu i gefnogi ymgysylltiad. Mae'r rhain yn cynnwys cynghorau ieuenctid, fforymau, ymgyngoriadau a mecanweithiau ymgysylltu ehangach. Mae estyn y rhyddfraint democrataidd i bobl ifanc 16 ac 17 oed yn atgyfnerthu ymhellach y disgwyl y bydd plant a phobl ifanc yn gyfranogwyr gweithredol mewn bywyd dinesig a democrataidd.

Fodd bynnag, mae i ba raddau mae cyfranogiad yn ystyrlon, yn barhaus ac yn ddylanwadol yn dal i amrywio. Er bod cyfleoedd i gyfranogi ar gael yn gyffredinol, nid ydynt bob amser yn golygu bod plant a phobl ifanc yn cael dylanwad clir neu gyson ar benderfyniadau. Mewn llawer o achosion, mae cyfranogiad gryfaf ar lefel leol neu lefel y gwasanaeth, gydag ymwneud mwy cyfyngedig â phenderfyniadau strategol neu gorfforaethol.

## Arolwg y Ffordd Gywir: Beth ddywedodd plant a phobl ifanc wrthyn ni

Mae canfyddiadau arolwg TRW yn dangos bod cyfleoedd cyfranogiad ar gael yn gyffredinol, ond nad yw eu heffaith bob amser yn glir nac yn gyson.

- Mae 67% o blant a phobl ifanc yn dweud eu bod yn cael cyfleoedd i fod yn rhan o benderfyniadau
- Fodd bynnag, mae bron 44% o'r bobl ifanc oed uwchradd yn dweud nad ydynt yn cael llais ar faterion allweddol megis bwlio, diogelwch ar-lein neu chwarae
- Dim ond rhyw draean sy'n teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau ynghylch polisïau neu sut mae adnoddau'n cael eu defnyddio

Amlygodd plant a phobl ifanc hefyd fod:

- • Diffyg eglurder ynghylch sut mae eu barn yn cyfrannu at benderfyniadau
- Canfyddiad bod cyfranogiad yn gallu teimlo'n docenistaidd, yn ailadroddus neu fel rhywbeth untro
- Pwysigrwydd cyfleoedd sy'n teimlo'n berthnasol, yn amserol, ac yn gysylltiedig â materion bywyd go iawn

Mae disgwyliad clir hefyd y dylai cyfranogiad adlewyrchu sut mae plant a phobl ifanc yn cyfathrebu ac yn ymgysylltu, gan gynnwys trwy blatfformau digidol ac ar-lein, ochr yn ochr â chyfleoedd wyneb yn wyneb.

Ymddengys bod hyder mewn cyfranogiad yn lleihau wrth fynd yn hŷn. Tra bod plant iau yn aml yn sôn am brofiadau cadarnhaol, mae pobl ifanc hŷn yn fwy tebygol o deimlo wedi'u dadgysylltu oddi wrth strwythurau cyfranogiad. Mae hyn yn arbennig o arwyddocaol yng nghyd-destun Pleidleisio yn 16, lle mae pobl ifanc yn cael eu cydnabod fel cyfranogwyr democrataidd, ond heb deimlo bob amser eu bod wedi'u grymuso'n gyfartal mewn penderfyniadau lleol.

O'u cyfuno, mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu, er bod cyfranogiad yn weladwy ac yn digwydd yn aml, na cheir profiad ystyrlon, perthnasol na dylanwadol ohono yn gyson, yn enwedig mewn perthynas â phenderfyniadau strategol neu'r materion sydd o'r pwys mwyaf i bobl ifanc.

## Arfer Da

Ledled Cymru, mae enghreifftiau cadarn o gyfranogiad sy'n dangos sut gall plant a phobl ifanc ymwneud yn ystyrlon â phenderfyniadau pan fo'r amodau cywir yn eu lle.

Nodweddir arfer effeithiol gan y canlynol:

- Ymgysylltiad parhaus a chyson, yn hytrach nag ymgynghori untro
- Cyfleoedd i gyd-gynhyrchu a rhannu penderfyniadau
- Llwybrau clir o gyfranogiad i wneud penderfyniadau a chyflawni
- Cysylltiadau gweladwy rhwng barn plant a phobl ifanc a meysydd newid neu ddatblygiad

Mae cysylltiad cynyddol rhwng cyfranogiad ac ymgysylltiad democrataidd ehangach â phobl ifanc sy'n ymwneud â phrosesau llywodraethiant, cynghorau ysgol a mentrau dinesig sy'n cefnogi dealltwriaeth o gyfranogiad fel rhan o fywyd democrataidd.

Mae awdurdodau lleol hefyd yn datblygu dulliau ymgysylltu digidol i gyd-fynd â dulliau traddodiadol. Mae'r rhain yn cynnwys ymgyngoriadau ar-lein, fforymau rhithwir, ymgysylltu ar y cyfryngau cymdeithasol a chynnwys digidol a arweinir gan bobl ifanc. O'u defnyddio'n effeithiol, mae'r dulliau gweithredu hyn yn estyn cwmpas, yn gwella hygyrchedd, ac yn adlewyrchu sut mae plant a phobl ifanc yn ymgysylltu mewn rhannau eraill o'u bywydau.

Mae'r dulliau gweithredu hyn yn fwyaf effeithiol lle caiff cyfranogiad ei wreiddio ar draws cylch cyfan gwneud penderfyniadau; o ganfod blaenoriaethau hyd at ddylunio, cyflwyno ac adolygu.

### Blaenau Gwent: Ymwneud pobl ifanc â recriwtio staff

Ym Mlaenau Gwent, mae pobl ifanc yn chwarae rhan weithredol yn y broses recriwtio o fewn y Gwasanaeth Ieuenctid trwy gyfranogi mewn cyfweliadau staff. Mae eu hymwneud yn sicrhau bod ymgeiswyr yn cael eu hasesu, nid o ran eu galluoedd proffesiynol yn unig, ond hefyd o ran eu gallu i ymgysylltu'n ystyrlon â phobl ifanc. Mae'r dull gweithredu cynhwysol hwn yn grymuso pobl ifanc, yn hybu penderfyniadau a rennir, ac yn helpu i benodi staff sy'n cyfateb yn well i werthoedd, anghenion a disgwyliadau'r bobl ifanc y byddan nhw'n eu cefnogi.

### Conwy: Adduned Gorfforaethol

Yng Nghonwy, mae dull gweithredu adduned gorfforaethol yn gofyn bod gwasanaethau'n ymgysylltu â phobl ifanc fel rhan o gynllunio a gwneud penderfyniadau. Mae'r Cyngor Ieuenctid yn darparu llwybr strwythuredig i bobl ifanc ddylanwadu ar flaenoriaethau corfforaethol, gan gryfhau cysylltiadau rhwng cyfranogiad a llywodraethiant.

### Sir Ddinbych: Ymgysylltiad Digidol

Mae Sir Ddinbych wedi datblygu dulliau digidol o ymgysylltu a arweiniwyd gan bobl ifanc, gan gynnwys podlediadau a phrosiectau cyfryngau digidol, gan alluogi pobl ifanc i archwilio a rhannu eu barn ar faterion sy'n bwysig iddyn nhw. Mae'r dulliau hyn yn darparu dewisiadau amgen hygyrch i fforymau traddodiadol ac yn helpu i ymgysylltu â'r rhai sy'n llai tebygol o fod yn rhan o strwythurau ffurfiol. Trwy gysylltu allbynnau digidol â llunwyr penderfyniadau, mae'r dull gweithredu hwn yn dangos sut gall ymgysylltiad digidol gefnogi cyfranogiad cynhwysol, hyblyg.

## Meysydd i'w Gwella

Er gwaethaf cynnydd clir, nid yw cyfranogiad yn gyson ystyrlon na dylanwadol eto ar draws Cymru. Problem allweddol yw'r bwlch rhwng cyfle a dylanwad. Er bod cyfleoedd cyfranogiad ar gael yn eang, nid ydynt bob amser yn cael eu trosi'n ymwneud ystyrlon â phenderfyniadau, yn enwedig ar lefelau strategol neu gorfforaethol.

Dyma rai o'r heriau cyffredin:

- Cyfranogiad amser-gyfyngedig, adweithiol neu seiliedig ar ymgynghoriad, yn hytrach na bod wedi'i wreiddio ac yn rhagweithiol
- Cyfleoedd cyfyngedig i blant a phobl ifanc ymwneud â chamau cynnar penderfyniadau, lle mae'r dylanwad fwyaf
- Diffyg eglurder ynghylch sut mae cyfranogiad yn llywio datblygiad polisi, cynllunio a dyrannu adnoddau

Hefyd mae anghysondebau ar draws gwasanaethau ac awdurdodau lleol, sy'n creu amrywiadau o ran ansawdd ac effaith cyfranogiad.

Er bod ymgysylltu digidol yn cynnig cyfleoedd i estyn cwmpas, mae hefyd yn cyflwyno heriau:

- Eithrio digidol, gan gynnwys mynediad, cysylltedd a hyder
- Defnydd anghyson o offer digidol ar draws gwasanaethau
- Perygl defnyddio ymgysylltu digidol yn lle rhyngweithio ystyrlon, yn hytrach nag ochr yn ochr

Nid yw strwythurau cyfranogiad bob amser yn adlewyrchu anghenion esblygol plant a phobl ifanc. Yn arbennig:

- Efallai na fydd cyfleoedd yn parhau'n berthnasol i bobl ifanc hŷn, gan gynnwys y rhai sy'n gymwys i bleidleisio
- Efallai na fydd strwythurau'n cysylltu cyfranogiad yn llawn ag ymgysylltiad democrataidd a dinesig ehangach
- Nid yw dulliau ymgysylltu bob amser yn cael eu haddasu i wahanol lefelau hyder, diddordeb neu brofiad

Mae'r ffactorau hyn yn cyfyngu ar i ba raddau mae cyfranogiad yn cefnogi plant a phobl ifanc i weithredu fel cyfranogwyr gweithredol, gwybodus mewn penderfyniadau lleol a bywyd democrataidd.

## Mewnwelediad Allweddol

Mae cyfranogiad wedi'i sefydlu'n dda ledled Cymru ac mae'n rhan o gyd-destun diwygio democrataidd ehangach, gan gynnwys Pleidleisio yn 16, sy'n cydnabod pobl ifanc fel dinasyddion gweithredol. Fodd bynnag, nid yw cyfranogiad yn gyson ystyrlon na dylanwadol eto, ac mae bwlch eglur rhwng cyfleoedd i ymgysylltu a'r gallu i ddylanwadu ar benderfyniadau.

Y brif her yw symud oddi wrth gyfranogiad fel gweithgarwch ymgysylltu at gyfranogiad ar ffurf penderfyniadau cyson a rennir, gyda chefnogaeth dulliau gweithredu hyblyg, cynhwysol (gan gynnwys defnydd effeithiol o ymgysylltu digidol) sy'n adlewyrchu sut mae plant a phobl ifanc yn byw ac yn cyfranogi yn ein cymdeithas heddiw.

## Atebolrwydd

Mae atebolrwydd yn gofyn bod plant a phobl ifanc yn gallu gweld a deall sut mae eu barn yn dylanwadu ar benderfyniadau, a bod cyrff cyhoeddus yn gallu dangos yn glir sut mae hawliau plant yn cael eu hystyried a'u gwireddu'n ymarferol. Un o egwyddorion craidd Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant yw sicrhau bod cyfranogiad yn arwain at dryloywder, cyfrifoldeb a dysgu.

Nid yw atebolrwydd yn gyfyngedig i ddarparu adborth. Mae'n cynnwys meddu ar systemau, prosesau a diwylliannau sy'n galluogi plant a phobl ifanc i alw llunwyr penderfyniadau i gyfrif, a sicrhau bod modd creu cysylltiad amlwg rhwng penderfyniadau a barn plant a phobl ifanc. Mae hynny'n galw am gyfathrebu clir, gwybodaeth hygyrch, ac ymrwymiad i fod yn agored mewn sefydliadau.

Ledled Cymru, mae tystiolaeth bod awdurdodau lleol yn cydnabod pwysigrwydd atebolrwydd ac yn cymryd camau i gryfhau ymarfer. Fodd bynnag, mae amrywiadau'n parhau o ran i ba raddau mae atebolrwydd yn cael ei wreiddio a'i brofi'n gyson gan blant a phobl ifanc.

### Arolwg y Ffordd Gywir: Beth ddywedodd plant a phobl ifanc wrthyn ni

Mae canfyddiadau arolwg TRW yn amlygu cryn ansicrwydd ymhlith plant a phobl ifanc ynghylch sut defnyddir eu barn.

- Mae 48% o blant a phobl ifanc yn dweud eu bod yn teimlo bod pobl yn gwrando arnyn nhw
- Fodd bynnag, mae 38% yn dweud eu bod nhw "ddim yn gwybod" ydy pobl yn gwrando arnyn nhw
- Mae llawer o blant a phobl ifanc yn aneglur ynghylch beth sy'n digwydd ar ôl iddyn nhw rannu eu barn

Amlygodd plant a phobl ifanc y canlynol hefyd:

- Diffyg gwybodaeth glir ynghylch prosesau gwneud penderfyniadau a deilliannau
- Anhawster i ddeall sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud a phwy sy'n gyfrifol
- Rhwystredigaeth pan na fydd cyfranogiad yn arwain at newid gweladwy

Mae'r ansicrwydd hwn yn awgrymu nad yw atebolrwydd yn weladwy nac yn cael ei ddeall yn gyson. Hyd yn oed pan fydd cyfranogiad yn digwydd, nid oes gan blant a phobl ifanc bob amser ymdeimlad clir o sut mae eu barn yn dylanwadu ar benderfyniadau, ac mae hynny'n cyfyngu ar yr ymddiriedaeth a'r hyder mewn prosesau cyfranogol.

### Arfer Da

Ledled Cymru, mae enghreifftiau o awdurdodau lleol yn cymryd camau rhagweithiol i gryfhau atebolrwydd a sicrhau bod cyfranogiad yn arwain at ddeilliannau gweladwy.

Nodweddir arfer effeithiol gan y canlynol:

- Cyfathrebu clir a hygyrch ynghylch penderfyniadau a deilliannau
- Systemau sy'n dangos sut mae barn plant a phobl ifanc wedi cael ei hystyried

- Cyfleoedd i blant a phobl ifanc ymgysylltu'n uniongyrchol â llunwyr penderfyniadau
- Tryloywder ynghylch beth sy'n gallu cael ei newid neu beidio, a pham

Mae'r dulliau gweithredu hyn yn fwyaf effeithiol pan welir atebolrwydd fel proses barhaus, yn hytrach nag ymateb untro yn dilyn ymgynghori.

### Torfaen: Diwrnodau Rheoli

Mae Torfaen yn cynnal 'Take Over days', lle mae plant a phobl ifanc yn camu i mewn i rolau arwain a gwneud penderfyniadau ar draws y cyngor a sefydliadau partner. Mae pobl ifanc yn ymgeisio am y rolau hyn ac yn treulio amser yn gweithio ochr yn ochr ag uwch-arweinwyr, gan gyfrannu eu barn ar faterion allweddol a blaenoriaethau. Mae'r rhaglen yn darparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc herio llunwyr penderfyniadau a'u holi'n uniongyrchol; gan gryfhau atebolrwydd a sicrhau bod eu barn yn dylanwadu ar benderfyniadau.

### Pen-y-bont ar Ogwr: Dolenni Adborth

Mae Pen-y-bont wedi datblygu dull 'Fe Ddwedsoch Chi, Fe Wnaethon Ni' o weithredu i ddangos sut defnyddir adborth pobl ifanc i lunio a gwella ei Wasanaeth Cefnogi Pobl Ifanc. Caiff adborth a gesglir gan bobl ifanc ei adolygu a'i ddefnyddio i lywio datblygiad y gwasanaeth, gan ddarparu diweddariadau i ddangos y camau a gymerwyd mewn ymateb. Mae hynny'n creu dolen adborth glir, gan helpu pobl ifanc i weld sut mae eu barn wedi dylanwadu ar benderfyniadau, a darparu enghraifft gref o atebolrwydd ar waith.

**Fe Ddwedsoch Chi, Fe Wnaethon Ni – www.bridgend.gov.uk/residents/Plant-and-young-people/bridgend-youth-support/your-voice/**

## Meysydd i'w Gwella

Er gwaethaf enghreifftiau clir o arfer da, nid yw atebolrwydd wedi'i wreiddio'n gyson ledled Cymru eto. Her allweddol yw gwelededd penderfyniadau a deilliannau. Roedd awdurdodau lleol yn cydnabod, er bod gweithgarwch cyfranogiad yn digwydd, nad yw bob amser yn glir:

- sut mae barn plant a phobl ifanc yn cael ei hystyried
- sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud
- pa newidiadau sydd wedi deillio o gyfranogiad plant a phobl ifanc

Mae'r diffyg eglurder hwn yn cyfrannu at ansicrwydd ymhlith plant a phobl ifanc, a gall leihau ymddiriedaeth mewn prosesau cyfranogiad.

Mae heriau hefyd yng nghyswllt:

- Cysondeb dulliau gweithredu ar draws gwasanaethau, gan fod atebolrwydd wedi datblygu'n fwy mewn rhai meysydd nag eraill
- Defnydd cyfyngedig o ddulliau cyfathrebu clir, hygyrch, yn enwedig i blant iau neu'r rhai sydd ag anghenion ychwanegol
- Diffyg dulliau systematig o olrhain a darparu tystiolaeth o effaith cyfranogiad

Mae ffactorau sefydliadol hefyd yn cyfrannu at hyn, yn eu plith:

- Prosesau llywodraethu cymhleth sy'n anodd eu cyfleu
- Amser ac adnoddau cyfyngedig i ddarparu diweddariadau clir, amserol
- Cystadlu rhwng blaenoriaethau, fel bod y ffocws ar atebolrwydd yn gallu lleihau

Ar ben hynny, nododd awdurdodau lleol yr angen am gryfhau'r canlynol:

- Eglurder ynghylch beth gall cyfranogiad ddylanwadu arno, gan reoli disgwyliadau'n briodol
- Cyfleoedd i blant a phobl ifanc fod yn rhan o ddeialog barhaus, yn hytrach na rhyngweithio untro
- Mecanweithiau sy'n galluogi plant a phobl ifanc i herio a chwestiynu penderfyniadau mewn ffordd ystyrlon

Mae'r ffactorau hyn yn golygu, er gwaethaf bwriadau pendant, nad yw atebolrwydd yn cael ei brofi'n gyson eto gan blant a phobl ifanc fel rhan o gyfranogiad.

## Mewnwelediad Allweddol

Mae atebolrwydd yn hollbwysig i sicrhau bod cyfranogiad yn ystyrlon ac y gellir ymddiried ynddo. Er bod enghreifftiau cadarn o ymarfer, nid yw atebolrwydd eto yn cael ei weld na'i ddeall yn gyson, ac mae llawer o blant a phobl ifanc yn aneglur ynghylch sut mae eu barn yn dylanwadu ar benderfyniadau. Y brif her yw symud oddi wrth gyfranogiad sy'n casglu barn at gyfranogiad sy'n dangos effaith, gyda chefnogaeth dulliau gweithredu clir, hygyrch a chyson sy'n galluogi plant a phobl ifanc i ddeall, cwestiynu a dylanwadu ar benderfyniadau dros amser.

# 04 Argymhellion

## Gwreiddio Hawliau Plant

1. Dylai Llywodraeth Cymru ddiweddaru a chryfhau'r dyletswyddau cyfranogiad sydd ar awdurdodau lleol o ran atgyfnerthu cyfranogiad plant a phobl ifanc fel un o'r gofynion craidd wrth ddatblygu polisi lleol. Dylai hynny gynnwys dyletswydd statudol i awdurdodau lleol gyhoeddi Strategaethau Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc; cyflwyno trefniadau llywodraethu, llwybrau cyfranogi, dulliau cynnwys, a nodi sut mae barn plant a phobl ifanc yn dylanwadu ar benderfyniadau.
2. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y fframwaith gwaith ieuenctid newydd statudol wedi'i alinio'n llawn â dyletswyddau cyfranogiad ehangach, gan gynnwys disgwyliadau clir i awdurdodau lleol integreiddio strwythurau cyfranogiad, dulliau gweithredu seiliedig ar hawliau, a mecanweithiau adborth ar gyfer strategaethau gwaith ieuenctid lleol.
3. Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod cyfranogiad plant a phobl ifanc yn derbyn adnoddau digonol, cynaliadwy, fel bod modd rhoi Strategaethau Cyfranogiad ar waith. Dylai hynny gynnwys staffio, capasiti a seilwaith digonol i gefnogi ymgysylltu cyson ac ystyrlon ar draws pob gwasanaeth, gyda chefnogaeth buddsoddiad cyson a chynyddol gan Lywodraeth Cymru, fel bod modd cyflawni'n effeithiol yn ardal pob awdurdod lleol.
4. Dylai awdurdodau lleol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wreiddio'r Ffordd Gywir a sicrhau bod cyfranogiad plant a phobl ifanc yn dod yn gyfrifoldeb pendant i'r sefydliad cyfan, gydag arweinyddiaeth glir, atebolrwydd a disgwyliadau ar draws pob gwasanaeth a strwythur partneriaeth perthnasol.
5. Dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol sicrhau bod hyfforddiant cyson, o safon uchel ar hawliau plant a chyfranogiad ar gael ar draws pob gwasanaeth, gan gynnwys i staff ac aelodau etholedig, gyda chefnogaeth adnoddau cenedlaethol a disgwyliadau clir ynghylch y nifer fydd yn ei ddilyn.
6. Ochr yn ochr â chefnogaeth barhaus i Rwydwaith Gweithwyr Cyfranogiad Cymru Gyfan  (AWPWN), dylai Llywodraeth Cymru sefydlu a chefnogi rhwydweithiau rhanbarthol er mwyn cwrdd wyneb yn wyneb i gryfhau'r cydlynu, y cydweithio ac adeiladu capasiti.
7. Dylai Llywodraeth Cymru barhau i weithio gydag AWPWN i ddatblygu Hyb Ar-lein fydd yn cefnogi datblygu a rhannu adnoddau cyfranogiad (bydd hyn yn wahanol i Hwb, sy'n ymwneud ag addysg ffurfiol yn unig).

## Cydraddoldeb a Pheidio â Gwahaniaethun

8. Dylai awdurdodau lleol wneud gwaith wedi'i dargedu, gyda chefnogaeth cyllid penodedig, i sicrhau bod grwpiau ar y cyrion (yn enwedig plant a phobl ifanc anabl ac o leiafrifoedd ethnig Du) yn cael eu cynrychioli a'u cefnogi i ymwneud â strwythurau cyfranogiad.

## Grymuso

9. Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod cyfleoedd a strwythurau cyfranogiad yn amlwg weladwy ac yn hygyrch i bob plentyn a pherson ifanc, gan gynnwys trwy gyfathrebu cyson, ymgysylltiad digidol, a gwybodaeth oed-briodol ynghylch sut mae chwarae rhan a dylanwadu ar benderfyniadau.

## Cyfranogiad

10. Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod cysylltiad clir rhwng cyfranogiad a phrosesau gwneud penderfyniadau strategol a chorfforaethol, gan gynnwys llywodraethiant, comisiynu a chyllidebu, yn hytrach na'i gyfyngu i ymgysylltu ar lefel gwasanaeth.
11. Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod cyfleoedd cyfranogiad yn dal yn berthnasol ac yn hygyrch i blant a phobl ifanc o bob oed, yn enwedig pobl ifanc hŷn, gan gynnwys y rhai sy'n pontio i oedolaeth ac yn cymryd rhan mewn prosesau democrataidd ehangach.
12. Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod dulliau cyfranogiad digidol yn cael eu defnyddio ochr yn ochr ag ymgysylltu wyneb yn wyneb, mewn modd cynhwysol a gynlluniwyd, gan adlewyrchu sut mae plant a phobl ifanc yn cyfathrebu, ond gan roi sylw i eithrio digidol.

## Atebolrwydd

13. Dylai Llywodraeth Cymru ategu ei hymrwymiad i Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol Cymru a darparu adnoddau ar gyfer diweddaru'r broses Nod Barcud, sy'n arwain at adroddiad blynyddol ar arfer da ac effaith.
14. Dylai awdurdodau lleol wella'r atebolrwydd i blant a phobl ifanc trwy roi mecanweithiau adborth cyson, tryloyw a mesuradwy ar waith. Dylai'r rhain gynnwys cyfathrebu clir a hygyrch, a dangos sut mae barn plant a phobl ifanc wedi dylanwadu ar benderfyniadau.
15. Dylai Llywodraeth Cymru fynnu bod strategaethau cyfranogiad awdurdodau lleol yn cael eu cefnogi gan fframweithiau monitro a gwerthuso cadarn, gyda deilliannau mesuradwy sy'n dangos yn glir sut mae barn plant a phobl ifanc wedi dylanwadu ar benderfyniadau. Ar ben hynny, dylid trefnu craffu blynyddol gan blant a phobl ifanc ac aelodau etholedig er mwyn atgyfnerthu atebolrwydd, a sbarduno gwelliant.

# 05 Casgliad

Mae gan Gymru sylfaen gadarn, sefydledig ar gyfer cyfranogiad plant a phobl ifanc, wedi'i seilio ar fframwaith polisi a chyfreithiol cynhwysfawr ac ymrwymiad hirdymor i hawliau plant. Ar draws pob awdurdod lleol, mae tystiolaeth glir o strwythurau, systemau a dulliau gweithredu a luniwyd i gefnogi plant a phobl ifanc i gael llais mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.

Mae'r adroddiad hwn yn dangos bod cyfranogiad yn cael ei gydnabod yn eang, ei wreiddio'n gynyddol, a'i gefnogi gan ymrwymiad proffesiynol sylweddol ledled Cymru. Mae yna enghreifftiau cadarn o arloesi ac arwain, sy'n dangos beth sy'n bosibl os bydd cyfranogiad yn derbyn digon o adnoddau, arweiniad strategol, ac yn cael ei wneud yn rhan annatod o brosesau llunio penderfyniadau. Yn y cyd-destunau hynny, mae plant a phobl ifanc yn ffurfio gwasanaethau'n weithredol, gan ddylanwadu ar flaenoriaethau a chyfrannu at fywyd dinesig a democrataidd ehangach.

Fodd bynnag, mae'r canfyddiadau hefyd yn amlygu her glir a chyson: y bwlch rhwng cyfranogiad mewn egwyddor a chyfranogiad ymarferol.

Er bod llawer o blant a phobl ifanc yn cael cyfleoedd i rannu eu barn, mae llai ohonynt yn profi'r cyfleoedd hynny fel rhai ystyrlon, cyson neu ddylanwadol. Ledled Cymru, mae cyfranogiad yn amrywio'n sylweddol o ran ansawdd, cwmpas ac effaith; gan greu'r hyn mae rhanddeiliaid wedi'i alw'n 'loteri côd post', lle mae i ba raddau gall plant a phobl ifanc ddylanwadu ar benderfyniadau yn dibynnu ar ble maen nhw'n byw a sut caiff cyfranogiad ei gyflwyno'n lleol.

Mae'r bwlch hwn yn cael ei adlewyrchu ar draws pob un o bum egwyddor Fframwaith y Ffordd Gywir:

- Mae'r **Gwreiddio** yn dal yn anwastad, ac nid yw cyfranogiad eto'n cael ei ddeall na'i gyflwyno'n gyson fel cyfrifoldeb i'r sefydliad cyfan
- Nid yw **Cydraddoldeb a pheidio â gwahaniaethu** yn cael eu gwireddu'n llawn, ac mae bylchau cyson wrth gyrraedd a chynrychioli grwpiau a dangynrychiolir
- Mae **Grymuso** yn dangos ymwybyddiaeth gref o hawliau, ond mae angen hyder a dealltwriaeth mwy cyfyngedig i'w rhoi ar waith yn ymarferol
- Mae **Cyfranogiad** wedi ymsefydlu'n dda, ond nid yw bob amser yn ystyrlon nac yn gysylltiedig â phenderfyniadau
- Nid yw **Atebolrwydd** bob amser yn weladwy, ac mae llawer o blant a phobl ifanc yn aneglur ynghylch sut mae eu barn yn dylanwadu ar ganlyniadau

Gyda'i gilydd, mae'r canfyddiadau hyn yn dangos system sy'n effeithiol o ran creu cyfleoedd i gael llais, ond yn llai cyson o ran galluogi dylanwad a dangos effaith.

Mae'r dystiolaeth hefyd yn amlygu cyfres o rwystrau systemig a strwythurol sy'n parhau i gyfyngu ar gynnydd. Mae'r rhain yn cynnwys cyfyngiadau o ran adnoddau, cyllid tymor byr, blaenoriaethau sefydliadol sy'n cystadlu â'i gilydd, a phrosesau nad ydynt yn darparu'n hwylus ar gyfer cyfranogiad ystyrlon. Bydd rhoi sylw i'r heriau hyn yn galw am ddull gweithredu mwy cydlynus a chyson, gyda chefnogaeth disgwyliadau cryfach ar lefel genedlaethol a lleol.

Mae'r argymhellion a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn darparu llwybr clir ymlaen. Elfen ganolog o hynny yw'r angen am gryfhau canllawiau ac alinio dyletswyddau statudol, gan gynnwys disgwyliadau cliriach ar awdurdodau lleol i gynllunio, cyflwyno a darparu tystiolaeth o gyfranogiad trwy strategaethau cyfranogiad a gyhoeddwyd a chraffu priodol. Mae angen clir hefyd am fuddsoddi cyson, ag adnoddau a neilltuwyd, er mwyn sicrhau nad yw cyfranogiad yn dibynnu ar gyllid tymor byr na seiliedig ar brosiectau.

Bydd gwella ymarfer hefyd yn galw am weithredu i sicrhau bod cyfranogiad yn gyson gynhwysol, gan gynnwys dulliau targedig o ymgysylltu â grwpiau a dangynrychiolir a disgwyliadau cryfach ynghylch safonau cyfranogiad gofynnol. Ochr yn ochr â hynny, mae angen meithrin capasiti a gallu ar draws y gweithlu, gan sicrhau bod yr holl staff yn deall eu rôl o ran cefnogi cyfranogiad, ac yn meddu ar y sgiliau a'r hyder i gyflawni hynny'n effeithiol.

Mae'n hollbwysig bod cyfranogiad yn cael ei gryfhau fel proses o ddylanwad parhaus, yn hytrach nag ymgysylltiad untro. Mae hynny'n cynnwys sicrhau bod cyfranogiad yn digwydd yn ddigon cynnar wrth wneud penderfyniadau i ddylanwadu ar y canlyniadau, a bod systemau clir, hygyrch yn eu lle i ddangos effaith. Bydd cryfhau mecanweithiau atebolrwydd, gan gynnwys cyfathrebu tryloyw a dulliau cyson o ddarparu tystiolaeth ynghylch sut defnyddir barn plant a phobl ifanc, yn hanfodol er mwyn meithrin ymddiriedaeth a chynnal ymgysylltiad.

Yng nghyd-destun newid democrataidd ehangach, gan gynnwys Pleidleisio'n 16, mae cyfle sylweddol i gryfhau cyfranogiad fel rhan o weledigaeth ehangach o blant a phobl ifanc fel dinasyddion gweithredol. Bydd gwireddu'r weledigaeth hon yn galw am sicrhau bod cyfranogiad ar draws gwasanaethau cyhoeddus yn creu cysylltiad ystyrlon â bywydau dinesig a democrataidd ehangach plant a phobl ifanc, fel bod gan leisiau plant a phobl ifanc bwysau a dylanwad.

Yn y pen draw, mae cyflawni Erthygl 12 o CCUHP yn golygu sicrhau bod plant a phobl ifanc nid yn unig yn cael eu clywed, ond hefyd yn gallu dylanwadu ar y penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.

Mae'r dasg o'n blaenau yn glir: symud o gyfranogiad sy'n bresennol i gyfranogiad sy'n ystyrlon, yn gynhwysol ac yn cael effaith yn gyson; gyda chefnogaeth systemau cryfach, disgwyliadau cliriach, a buddsoddiad parhaus, fel bod pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru yn gallu gweld y gwahaniaeth mae ei llais nhw yn ei greu.

# 06 ATODIAD – Proffiliau Cyfranogiad y 22 Awdurdod Lleol

## 1. Blaenau Gwent

Awdurdod bach yn yr hen Gymoedd diwydiannol yw Blaenau Gwent â thirwedd cymoedd serth; mae anheddau dwys eu poblogaeth yng Nglyn Ebwy, Tredegar a Brynmawr.

- **Poblogaeth**: tua **67,356** (ganol 2024, pob oed)
- **Plant 0–15**: tua **8,324**
- **Amddifadedd:** Y gyfran uchaf yng Nghymru o ardaloedd yn y 10% mwyaf difreintiedig (20% / 9 ardal gynnyrch ehangach haen is).

### Trosolwg

Bellach, mae cyfranogiad yn rhan o'r Gyfarwyddiaeth Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd (PPIaTh). Cyn hynny, roedd yn rhan o'r tîm polisi a phartneriaethau yng nghyfarwyddiaeth y Gwasanaethau Corfforaethol. Symudodd i'r adran Addysg yn y gyfarwyddiaeth PPIaTh ym mis Hydref 2024 er mwyn adeiladu ar arfer da a oedd eisoes yn bodoli, gan alluogi'r gwasanaeth i gyrraedd mwy o bobl ifanc. Mae gan y gwasanaeth gysylltiadau cryf â phob cyfarwyddiaeth, yn enwedig y gwasanaethau cyfathrebu corfforaethol a'r gwasanaethau democrataidd.

Er mwyn ehangu mynediad at gyfranogiad, mae'r Swyddog Ymgysylltu (Cyfranogiad a Gwobr Dug Caeredin) bellach yn aelod o'r gyfarwyddiaeth PPIaTh sy'n caniatáu ymgysylltiad ehangach a mwy o waith gyda phobl ifanc ar y cyrion.

### Strwythurau Cyfranogiad

Mae gan awdurdod Blaenau Gwent Swyddog Cyfranogiad penodedig sy'n arwain ymgysylltiad eang â phlant a chymunedau. Mae polisïau a sofraniaethau ar wahân yn parhau ar draws yr awdurdod lleol, ond mae ymgais bendant i wreiddio cydraddoldeb a chyfranogiad fel ymarfer parhaus yn hytrach nag ymdrechion unwaith yn unig.  Mae hyn yn cynnwys rhywfaint o gydweithio ar ddulliau a mentrau ymgysylltu ag awdurdod Torfaen trwy'r strwythur ffederal.

Mae sawl ffordd i blant a phobl ifanc gyfranogi yn ardal Blaenau Gwent.  Fforymau Ieuenctid yw'r prif fecanwaith ar gyfer llais ieuenctid.  Mae'r rhain yn agored i bawb, ar gael ar-lein ac wyneb yn wyneb, heb orfod ymaelodi. Etholir maer ieuenctid a dirprwy faer ieuenctid, sy'n gwasanaethu am dymor penodedig. Cynhaliwyd Arolwg Ieuenctid er mwyn pennu blaenoriaethau, a daeth mwy na 350 o ymatebion i law trwy'r wefan/ cyfryngau cymdeithasol.  Mae swyddogion ieuenctid yn yr ysgolion yn gwreiddio cyfranogiad yno.

Ymgynghorir â phlant a phobl ifanc mewn sawl ffordd, megis trwy ymgyngoriadau ar draws y Fwrdeistref, ymgyngoriadau ysgol, y Comisiynydd Plant (Mater y Mis), sesiynau'r Uwch-gyngor Plant, a'r Fforwm Ieuenctid.

**Gwreiddio Cyfranogiad a Hawliau Plant**

Mae dull y Ffordd Gywir yn rhan annatod o'r broses Asesu Effaith Integredig yn y sefydliad. Cafodd ei gynnwys er mwyn sicrhau ystyriaeth o blant a phobl ifanc a deall effaith bosib unrhyw benderfyniadau ar eu bywydau.

Lluniwyd Padlet o Adnoddau Cyfranogi sy'n cynnwys adnoddau, pecynnau cymorth, dolenni i ddogfennau allweddol, cyflwyniadau a fideos er mwyn cefnogi staff yn eu harferion gwaith. Mae'r "Ffordd Gywir" wedi'i chynnwys yn y Padlet hwn.

Cytunwyd bod modiwl Llywodraeth Cymru ar Hawliau Plant CCUHP/CCUHPA yn y Cwricwlwm yn faes hyfforddiant allweddol ar draws y cyngor. Mae'n orfodol i staff y Gwasanaeth Ieuenctid gwblhau'r modiwlau yn y lle cyntaf, ac mae'r hyfforddiant hwn ar waith ar hyn o bryd. Caiff ei gyflwyno'n ehangach ar draws y gweithlu unwaith y bydd wedi'i lanlwytho i'r platfform hyfforddiant corfforaethol.

Lledaenir adnoddau yn rheolaidd ar draws y sefydliad, i gefnogi cyflwyno CCUHP yn yr ysgolion, yn y Gwasanaeth Ieuenctid, ac yn y Gwasanaethau Cymdeithasol, er mwyn helpu i ymgorffori dull gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant.

**Uchafbwyntiau Arfer Da**

- Allgymorth Creadigol: Defnyddio marchnata digidol, y cyfryngau cymdeithasol, a ffilmiau arobryn a arweinir gan ieuenctid (e.e. ffilm wrthfwlio) i gyrraedd grwpiau amrywiol.
- Ar lefel ranbarthol, mae pobl ifanc wedi gweithio i sefydlu Siarter Plant gyda Chomisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent, gan wneud hawliau plant yn rhan annatod o wasanaethau plismona a gwasanaethau cyhoeddus. Bu 58 o bobl ifanc o sesiwn yr Uwch-gyngor Plant ac 8 o bobl ifanc o sesiwn y Fforwm Ieuenctid Rhanbarthol yn bwydo i mewn i'r datblygiad hwn.
- Mae pobl ifanc yn chwarae rhan weithredol ym mhroses recriwtio y Gwasanaeth Ieuenctid trwy gymryd rhan mewn cyfweliadau staff. Mae eu cyfranogiad yn sicrhau bod ymgeiswyr yn cael eu hasesu nid yn unig ar sail eu cymwyseddau proffesiynol ond hefyd ar eu gallu i ymgysylltu'n ystyrlon â phobl ifanc. Mae'r dull cynhwysol hwn yn grymuso pobl ifanc, yn hybu penderfyniadau ar y cyd, ac yn helpu i benodi staff sy'n cydweddu'n well â gwerthoedd, anghenion, a disgwyliadau'r bobl ifanc a gefnogir.
- Rhaglen ar gyfer Blwyddyn 6 yw'r Uwch-gyngor Plant, sy'n dod â disgyblion o wahanol ysgolion cynradd at ei gilydd i gymryd rhan mewn cyfres o sesiynau strwythuredig sy'n canolbwyntio ar hawliau plant, eu llais a chymorth pontio. Mae pob ysgol yn dewis 2-4 disgybl i ddod i dair sesiwn wyneb yn wyneb bob blwyddyn, gan ddechrau gyda chwis ynghylch CCUHP a chyflwyniad i'r Comisiynydd Plant, sy'n gosod sylfaen ar gyfer dysgu seiliedig ar hawliau. Mae'r rhaglen wedi cael effaith ystyrlon trwy rymuso pobl ifanc i ddeall a mynegi eu hawliau, meithrin perthynas â ffrindiau newydd a chysylltiadau â chymheiriaid mewn ysgolion eraill, cefnogi pontio mwy esmwyth i addysg uwchradd, ac annog cyfranogiad gweithredol a hyder mewn amgylcheddau newydd. Mae'r fenter hon nid yn unig yn cryfhau gwybodaeth pobl ifanc am eu hawliau ond hefyd yn eu paratoi ar gyfer y cam nesaf yn eu taith addysg. Rhwng Tachwedd 2024 a Gorffennaf 2025, cyflwynwyd pum sesiwn – pedair wyneb yn wyneb ac un sesiwn ddiweddaru ar-lein–gan gysylltu â chyfanswm o 277 o bobl ifanc.

**Heriau/Rhwystrau**

Er gwaetha'r arfer cadarn, nododd awdurdod Blaenau Gwent nifer o heriau sy'n effeithio ar gynaliadwyedd cyfranogiad a'i gyrhaeddiad.

- Cynaliadwyedd y trefniadau ariannu – clustnodwyd arian ar gyfer un swydd Gyfranogi ran-amser (0.5CALl) yn unig. Mae gweddill yr arian yn ddibynnol ar ffynonellau grant allanol amser-gyfyngedig sydd ag amodau.
- Yr amser sydd ei angen i roi cyfle i bobl ifanc ymgysylltu;
- Gwella ffyrdd o gynnwys pobl ifanc mewn gwaith craffu, fel ei fod yn llai ffurfiol ac yn fwy hygyrch.
- Cael pobl ifanc i gymryd rhan, gan eu bod yn aml yn brysur gyda phethau eraill, neu weithiau'n ddifater oherwydd eu bod yn teimlo nad oes modd iddyn nhw wneud gwahaniaeth neu oherwydd eu bod wedi cyfrannu yn y gorffennol ond heb dderbyn adborth a'u bod yn amharod i ymgysylltu o ganlyniad i hynny.
- Gall sicrhau cyllid cynaliadwy fod yn broblem – hebddo mae perygl y bydd staff yn symud i swyddi eraill neu y gallai dulliau cyfranogi hyd yn oed ddod i ben neu gael eu newid er mwyn bodloni meini prawf ariannu.
- Mae daearyddiaeth a thrafnidiaeth yn heriau sylweddol hefyd – gan fod yr awdurdod lleol yn cwmpasu tri chwm lle mae trafnidiaeth gyhoeddus yn fylchog.
- Tlodi – mae'r awdurdod lleol yn y chwartel uchaf o ran amddifadedd ac mae hynny'n atal rhai plant a phobl ifanc rhag cyfranogi.
- Strwythurau Digyswllt: Mae partneriaethau lleol (y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Bwrdd Gwasanaethau Rhanbarthol) yn ddarniog, heb fecanweithiau clir ar gyfer darparu adborth.
- Dyblygu gwaith a strwythurau aneglur oherwydd bod gormod o gyrff â nodau sy'n gorgyffwrdd.

**Cyswllt:** Lissa Friel – Lissa.Friel@blaenau-gwent.gov.uk

## 2. Pen-y-bont ar Ogwr

Mae awdurdod Pen-y-bont ar Ogwr yn cwmpasu'r arfordir a'r cymoedd bob ochr i goridor yr M4 a dyffrynnoedd Llynfi, Garw ac Ogwr; mae cymysgedd trefol-wledig gyda threfi allweddol ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Maesteg, Caerau a Phorthcawl.

- **Poblogaeth**: tua **146,743** (ganol 2024, pob oed)
- **Plant 0–15**: tua **18,611**
- **Amddifadedd:** Mae'n cynnwys ardaloedd yn y 10% mwyaf difreintiedig (fel y mae bron pob ALl); mae amddifadedd wedi'i grynhoi mewn rhannau o drefi/cymoedd De Cymru.

**Trosolwg**

Mae'r gwaith cyfranogi yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn seiliedig ar draddodiad cryf o waith ieuenctid seiliedig ar hawliau, a gwelir bod y cyfrifoldeb dros hyrwyddo a gwreiddio cyfranogiad yn ddyletswydd a rennir ar draws yr awdurdod. Mae disgwyl i bob

gwasanaeth gefnogi cyfranogiad plant a phobl ifanc, ond mae arbenigedd penodedig yn y Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid, sy'n cynnwys Gweithwyr Cyfranogiad a Hawliau Pobl Ifanc, sydd â rôl allweddol wrth gefnogi timau ehangach i roi hawliau a chyfranogiad plant ar waith yn eu hymarfer.

Yn y Cyngor, mae'r Gwasanaethau Plant hefyd yn darparu Swyddog Cyfranogiad a Rhianta Corfforaethol sy'n hyrwyddo hawliau plant sydd â phrofiad o ofal, yn sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed, ac yn goruchwylio'r Gwasanaeth Cyfranogiad Annibynnol Arbenigol a gomisiynwyd a ddarperir gan TGP Cymru ar hyn o bryd. Mae'r gwasanaeth hwn yn cefnogi Fforwm Llais Ieuenctid Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer pobl ifanc 11 i 25 oed sydd â phrofiad o ofal. Mae'r grŵp yn cyfarfod yn rheolaidd i lywio dyluniad, cyflwyniad a gwerthusiad gwasanaethau a hefyd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cyfranogiad rhanbarthol a chenedlaethol, recriwtio staff gofal cymdeithasol, a'r broses o gomisiynu gwasanaethau i blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal.

Cefnogir  gwaith cyfranogiad trwy gydweithrediad agos â sefydliadau ieuenctid y trydydd sector trwy Faterion Ieuenctid Pen-y-bont, ochr yn ochr â chysylltiadau â swyddogaethau addysg, iechyd, a rhianta corfforaethol. Mae'r amgylchedd amlasiantaeth hwn yn fodd i ymestyn cyfranogiad y tu hwnt i fforymau ffurfiol a chwmpasu prosesau dylunio, gwerthuso, craffu ac arolygu gwasanaethau.

**Strwythurau cyfranogiad a dulliau gweithredu**

Strwythur cyfranogiad sylfaenol Pen-y-bont ar Ogwr yw Cyngor Ieuenctid Pen-y-bont ar Ogwr, sy'n adlewyrchu model y Cabinet gyda Maer Ieuenctid, Dirprwy Faer Ieuenctid ac aelodau cabinet ieuenctid yn cael eu hethol i wasanaethu am ddwy flynedd er mwyn cefnogi dilyniant ac effaith ystyrlon. Mae'r cyfarfodydd misol yn cyfuno gwneud penderfyniadau â gweithdai, ymgyngoriadau a siaradwyr gwadd, gydag elfen gyson o hyblygrwydd i adlewyrchu ymrwymiadau newidiol y bobl ifanc.

Er mwyn rhoi sylw i rwystrau megis trafnidiaeth, daearyddiaeth a ffurfioldeb adeiladau dinesig, mae'r awdurdod wedi troi mwy a mwy at ddulliau gweithredu cymunedol a hybrid. Mae cyfarfodydd yn cylchdroi rhwng mannau cynnal dinesig a lleoliadau ieuenctid, gydag allgymorth trwy'r bws ieuenctid, sy'n helpu pobl ifanc i ymgysylltu yn eu cymunedau lleol. Mae gwaith recriwtio yn digwydd trwy ysgolion, clybiau ieuenctid, gweithdai seiliedig ar hawliau a phartneriaid trydydd sector, gyda phwyslais cynyddol ar gyflwyno'r Cyngor Ieuenctid fel fforwm agored yn hytrach na strwythur digyfnewid neu elitaidd.

Ehangir cyfranogiad ymhellach trwy fforwm digidol Dy Lais, ymgynghoriad blynyddol a ddylunnir gan ieuenctid, sy'n gyfle i niferoedd mawr o blant a phobl ifanc lywio blaenoriaethau. Derbyniodd yr arolwg diweddaraf tua 800 o ymatebion, gan helaethu cyrhaeddiad ac amrywiaeth yr arolwg yn sylweddol. Rhennir y canfyddiadau trwy ddull clir, "Fe Ddwedsoch Chi, Fe Wnaethon Ni", sy'n helpu pobl ifanc i weld sut mae eu safbwyntiau'n dylanwadu ar benderfyniadau.

Mae llwybrau cyfranogi ychwanegol yn cynnwys cyfleoedd i bobl ifanc werthuso'r gwasanaethau ieuenctid trwy'r cynllun Arolygwyr Ifanc, cyfrannu at gyfarfodydd craffu, cymryd rhan mewn paneli recriwtio, ac arwain prosiectau a ddylunnir gan ieuenctid megis Urddas Mislif, gêm fwrdd ynghylch democratiaeth yn seiliedig ar hawliau. Yn ogystal, mae fforymau penodedig yn cefnogi cyfranogiad plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal.

**Gwreiddio Cyfranogiad a Hawliau Plant**

Caiff hawliau a chyfranogiad plant eu gwreiddio trwy hyfforddiant rheolaidd i'r staff, gweithdai ymarferol a thrwy gymhwyso safonau cyfranogiad mewn ymarfer gwaith ieuenctid. Ym Mhen-y-bont defnyddir adnoddau Comisiynydd Plant Cymru a phartneriaid i gryfhau dealltwriaeth o CCUHP ac egwyddorion cyfranogiad ar draws y gwasanaethau statudol a gwasanaethau'r trydydd sector.

Mae cyfranogiad yn rhan annatod o gamau cynllunio, cyflwyno ac adolygu:

- Mae pobl ifanc yn dylanwadu ar gynlluniau strategol (e.e. cynlluniau Cyfarwyddiaeth)
- Mae llais ieuenctid yn llywio gwaith gwerthuso a chomisiynu gwasanaethau
- Mae dolenni adborth yn sicrhau bod modd i bobl ifanc weld sut cafodd canlyniadau eu llywio gan eu sylwadau

Mae'r awdurdod yn cydnabod bod gwreiddio cyfranogiad yn waith parhaus sy'n galw am fyfyrio, addasu a darparu adnoddau yn gyson.

**Uchafbwyntiau Arfer Da**

- Mae cwmpas ac ansawdd arolwg Dy Lais yn enghraifft o arfer cadarn i ehangu cyfranogiad. Mae adborth clir trwy'r dull "Fe Ddwedsoch chi, Fe Wnaethon Ni" yn helpu i gynnal ymddiriedaeth ac atebolrwydd.
- Mae'r model Arolygwyr Ifanc yn rhoi pŵer ystyrlon i bobl ifanc, ac yn dylanwadu'n uniongyrchol ar wella'r gwasanaeth ieuenctid a phenderfyniadau ariannu.
- Mae Pen-y-bont wedi croesawu ymgysylltiad digidol o dan arweiniad ieuenctid (gan gynnwys TikTok), cyfarfodydd hybrid, adborth seiliedig ar fideo, ac offer creadigol, megis y gêm Votopia sy'n gwneud cyfranogiad yn hygyrch a difyr.
- Mae cynnwys pobl ifanc mewn cyfarfodydd craffu a phaneli recriwtio yn arwydd o'r newid o ymgynghori i wneud penderfyniadau ar y cyd.

**Rhwystrau a heriau**

Er gwaetha'r arfer cadarn, nodwyd nifer o heriau:

- Rhwystrau i ymgysylltiad digidol, gan gynnwys cadw i fyny â dulliau cyfathrebu pobl ifanc ochr yn ochr â rheoli camau diogelu a pheryglon camwybodaeth
- Trafnidiaeth a hygyrchedd, yn enwedig yn achos cyfarfodydd mewn adeiladau dinesig
- Cyfyngiadau ariannol, pan nad oes cyllidebau penodedig i gyd-fynd â'r disgwyliadau cyfranogiad bob amser
- Amrywiaeth mewn cyfranogiad o fewn addysg, gyda dulliau gweithredu anghyson ar draws ysgolion
- Ymgysylltu â charfanau iau a mwy amrywiol, yn enwedig plant a phobl ifanc sy'n llai hyderus neu'n llai tebygol o ymgysylltu trwy fforymau traddodiadol

**Cyswllt:** Owen Shepherd – Owen.Shepherd@bridgend.gov.uk

## 3. Caerffili

Awdurdod mawr yn y cymoedd i'r gogledd o Gaerdydd yw Caerffili, gydag aneddiadau sy'n ymestyn mewn llinell ar hyd llawr y dyffryn (e.e. Caerffili, Ystrad Mynach, y Coed Duon); mae yma ucheldir cymysg trefol-gwledig.

- **Poblogaeth**: tua **176,437** (ganol 2024, pob oed)
- **Plant 0–15**: tua **23,376**
- **Amddifadedd:** Mae'n cynnwys nifer o ardaloedd yn y 10% mwyaf difreintiedig (patrwm sy'n nodweddiadol o Gymoedd De Cymru).

### Trosolwg

Mae Fforwm Ieuenctid Caerffili yn rhan o'r Gwasanaeth Ieuenctid, yng nghyfarwyddiaeth Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol yr Awdurdod Lleol.  Mae holl staff a phobl ifanc y gwasanaeth ieuenctid yn gweithredu o dan y polisi Cyfranogiad Pobl Ifanc a'u Cyfraniad Gweithredol mewn Penderfyniadau, sy'n sicrhau bod holl leoliadau'r gwasanaeth ieuenctid yn gwreiddio dulliau ac ymarfer cyfranogol yn yr holl wasanaethau a ddarperir, gan gynnwys cynllunio a chyflwyno ar draws y gwasanaeth cyfan. Rhoddir hyfforddiant ynghylch Cyfranogiad a hawliau i'r gwasanaethau ieuenctid, yr awdurdod lleol a'r byrddau iechyd.

### Strwythurau Cyfranogiad

Mae'r Fforwm Ieuenctid, sy'n rhan annatod a chadarnhaol o'r strwythurau gwneud penderfyniadau, wedi bod ar waith ers 25 mlynedd, gan weithredu ar draws y sir er mwyn sicrhau cyfranogiad pobl ifanc ym mhenderfyniadau'r awdurdod lleol. Gwahoddir pobl ifanc o ysgolion a grwpiau ieuenctid i gymryd rhan yn y fforwm a blaenoriaethu materion i'w dwyn ymlaen gan gynrychiolwyr etholedig y fforwm ieuenctid sy'n rhan o'r Cabinet Ieuenctid, gan ddarparu rolau arweiniol i bobl ifanc gynrychioli safbwyntiau eu cymheiriaid yn y fforwm ieuenctid ehangach a'r tu hwnt.

Mae ymarfer cyfranogol y Gwasanaeth Ieuenctid yn cynnig cyfleoedd i blant a phobl ifanc 8 -25 oed. Mae'r Fforwm Ieuenctid yn cynnig cyfleoedd i bobl ifanc 11-25 oed.

### Gwreiddio cyfranogiad a hawliau plant

Mae'r Aelod Cabinet dros Addysg, sydd hefyd yn Bencampwr Ieuenctid etholedig a dirprwy arweinydd yr Awdurdod Lleol, yn dod i holl gyfarfodydd y fforwm ieuenctid ar draws y fwrdeistref, ac yn cynnal cyswllt agos â chadeirydd a thîm y cabinet Ieuenctid, gan sicrhau bod barn pobl ifanc yn llywio gwaith yr Awdurdod Lleol.

Mae'r Cabinet Ieuenctid a Grŵp (Gweithredu) Prosiect y Fforwm Ieuenctid yn gweithio ar ran pobl ifanc i lywio'r gwaith o gynllunio gwasanaethau a datblygu polisïau'r ALl trwy amrywiaeth o weithgareddau ymgynghori. Mae'n mynd ati'n flynyddol i gydgysylltu a chlustnodi materion sy'n ymwneud â phobl ifanc, sy'n cael eu cyflwyno a'u trafod yng nghyfarfodydd Pwyllgorau Craffu a Chabinet yr ALl.

**Uchafbwyntiau Arfer Da**

- Mae fforwm ieuenctid Caerffili yn ymgysylltu â phobl ifanc trwy gynghorau ysgol a gwasanaethau ieuenctid ac mae'n cydweithio'n wych â'r gwasanaethau plant. Mae'r strwythur hwn yn rhan annatod o'r awdurdod a lleolir tîm bach o staff yn y gwasanaeth ieuenctid i gefnogi'r Fforwm Ieuenctid. Mae yna Bencampwr Ieuenctid hefyd, sef y Dirprwy Arweinydd ar hyn o bryd.
- Mae strwythur cyfranogiad clir lle mae pobl ifanc yn codi materion mewn ysgolion/ grwpiau bob blwyddyn, wedyn cyflwynir y rheiny i gynhadledd flynyddol y fforwm sy'n cael ei harwain gan bobl ifanc, lle cânt eu trafod a'u blaenoriaethu cyn cynnal pleidlais ar-lein ymhlith y fforwm cyfan (bu 2472 o bobl ifanc yn cymryd rhan y llynedd) ac mae'r blaenoriaethau y pleidleisiodd y bobl ifanc drostyn nhw yn dod yn rhan o waith y Fforwm Ieuenctid am y flwyddyn sy'n dod.
- Mae'r fforwm yn canolbwyntio ar fater blaenoriaeth a amlygwyd yn y gynhadledd flynyddol ac yn llunio camau gweithredu a chynlluniau i roi sylw i'r mater yn ystod y flwyddyn nesaf. Ymhlith y materion hyn roedd Fepio (2024-2025) lle cyflawnwyd gwaith gwych gyda'r fenter Ysgolion Iach, Safonau Masnach a Iechyd Cyhoeddus Cymru i lunio adnoddau a gweithdai er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o'r mater ymhlith plant ar draws y fwrdeistref. Ar gael yma
- Eleni, yn 2025 – 2026, buon nhw'n canolbwyntio ar doiledau ysgol a rhoddwyd cyflwyniad i arweinwyr addysg er mwyn cynnig atebion a syniadau ynghylch gwella toiledau ysgol (roedd y materion a drafodwyd yn cynnwys fepio, preifatrwydd a blocio toiledau).
- Mae gwahoddiad i gynrychiolydd Senedd Ieuenctid Cymru ymuno â'r Fforwm Ieuenctid ac mae cyfle i aelodau'r fforwm gymryd rhan mewn cyfleoedd ehangach sy'n cynnwys: Senedd Ieuenctid y Deyrnas Unedig, Cymru Ifanc, digwyddiadau'r Comisiynydd Plant, fforwm rhanbarthol Gwent, gwaith gyda swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, llysgenhadon ifanc Iechyd Cyhoeddus Cymru, a phrosiectau eraill gyda Phrifysgol Caerdydd.
- Mae'r fforwm wedi cydweithio i ddatblygu fideo gwych a luniwyd gyda phobl ifanc i esbonio beth yw'r fforwm a sut mae bod yn rhan ohono – https://youtu.be/FhS3Sg0ZpQA

**Mae'r heriau'n cynnwys:**

- Cyllid cyfyngedig – mae'r fforwm ieuenctid yn dibynnu ar gyfuniad o gyllid grant a chyllid craidd ac mae cyfleoedd i ddatblygu y tu hwnt i'r strwythurau/ gweithgareddau presennol yn gyfyngedig.
- Yn aml mae cynrychiolaeth ac ymgysylltiad yn dibynnu ar weithwyr proffesiynol mewn nifer o leoliadau; ar staff yr ALl i estyn allan at bobl ifanc. Gall hyn effeithio ar eu gallu i gyrraedd pob person ifanc.
- Mae llawer o bobl ifanc heb yr hyder, yr hunan-barch na'r wybodaeth ofynnol i gyfranogi'n llawn. Mae staff y Fforwm Ieuenctid yn cynnig llawer o gefnogaeth er mwyn galluogi pobl ifanc i ddatblygu'r sgiliau a'r hyder angenrheidiol i gyfranogi. Mae hyn yn cymryd amser ac adnoddau, ac mae cyfranogiad ystyrlon yn gallu bod yn broses hirfaith.

- Heriau daearyddol – mae cyswllt wyneb yn wyneb yn ffordd fwy effeithiol o ddatblygu cyfranogiad a strwythurau cyfranogol ond mae'n anodd i bobl ifanc deithio ar draws y fwrdeistref felly mae'n rhaid i staff y fforwm gludo pobl ifanc i fannau cynnal cyfarfodydd cyn y gall unrhyw waith ddigwydd, ac mae hynny'n galw am arian ac adnoddau, sy'n aml yn cyfyngu ar yr hyn y gellir ei gyflawni.

**Cyswllt:** Lee Kabza – kabzal@caerphilly.gov.uk

## 4. Caerdydd

Caerdydd yw'r brifddinas; mae'n ganolfan drefol sylweddol â llain arfordirol/aberol (Bae Caerdydd) a chyrion maestrefol/gwledig i'r gogledd.

- **Poblogaeth**: tua **383,536** (ganol 2024, pob oed)
- **Plant 0–15**: tua **48,131**
- **Amddifadedd:** Mae'n cynnwys ardaloedd difreintiedig iawn ochr yn ochr ag ardaloedd cymharol gefnog; mae'n batrwm nodweddiadol o ddinasoedd mawr. (Mae gan y rhan fwyaf o ALlau o leiaf un ardal yn y 10% mwyaf difreintiedig.)

### Trosolwg

Yng Nghaerdydd, y Gyfarwyddiaeth Addysg sy'n bennaf gyfrifol am gyfranogiad, o dan arweiniad tîm Caerdydd yn Ddinas sy'n Dda i Blant (CFC). Mae'r tîm yn goruchwylio cyfranogiad ar lefel strategol ac yn gweithio i wreiddio ymgysylltiad ystyrlon â phlant a phobl ifanc ar draws holl wasanaethau'r cyngor, yn unol â'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol ac ymrwymiad Caerdydd fel un o Ddinasoedd UNICEF sy'n Dda i Blant..

### Strwythurau Cyfranogiad

Mae Cyngor Ieuenctid Caerdydd yn derbyn cefnogaeth uniongyrchol gan dîm CFC sy'n darparu staff penodedig, hyfforddiant a chyfleoedd strwythuredig i bobl ifanc lywio polisi, gwasanaethau, a blaenoriaethau strategol. Ochr yn ochr â hynny, mae adrannau unigol yn arwain cyfranogiad yn eu meysydd gwaith eu hunain. Er enghraifft: mae'r Gwasanaethau Ieuenctid yn ymgysylltu â phobl ifanc trwy waith ieuenctid a rhaglenni estyn allan. Mae'r hybiau a'r llyfrgelloedd yn cynnwys plant a phobl ifanc yn rheolaidd yn y gwaith o lywio gwasanaethau a digwyddiadau lleol. Mae'r adran Gynllunio wedi gwreiddio dulliau ymgysylltu addas i blant ym mhroses y Cynllun Datblygu Lleol, gyda chymorth CFC. Mae'r adran Drafnidiaeth yn cynnwys pobl ifanc mewn ymgyngoriadau ynghylch symudedd, teithio llesol ac argymhellion ynghylch y Taliad Defnyddwyr Ffyrdd. Mae'r Gwasanaethau Chwarae yn sicrhau eu bod yn ymgynghori â phlant ynghylch digonolrwydd cyfleoedd chwarae a chyfleoedd lleol. Mae'r model gwasgaredig hwn yn fodd i adrannau arwain ymgysylltiad pan fyddant yn arbenigwyr yn y maes, tra bod tîm CFC yn sicrhau cysondeb, yn meithrin gallu, ac yn sicrhau bod y gwaith yn cyd-fynd â hawliau plant.

### Gwreiddio Cyfranogiad a Hawliau Plant

Mae tîm CFC hefyd yn hwyluso cydweithrediad trawsadrannol ac yn darparu offer, hyfforddiant a chefnogaeth i gryfhau ymarfer cyfranogol ar draws Gwasanaethau Plant yr awdurdod gan gwmpasu plant a phobl ifanc 0-25 oed.

Arweiniodd CFC Adolygiad Dinas Caerdydd o Gyfranogiad - er mwyn dangos effaith a sicrhau ansawdd y gwaith a ddatblygwyd dan fantell y ddinas sy'n dda i blant, anfonwyd hunanasesiad o gyfranogiad at bob gwasanaeth a chyfarwyddiaeth gyda chwestiynau megis: Oes gennych chi bolisi cyfranogiad ffurfiol? Sut rydych chi'n rhoi adborth? Pa rwystrau rydych chi'n eu hwynebu? Sut rydych chi'n sicrhau ymgysylltiad â grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol? Ydych chi'n defnyddio'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol? Dangoswch enghreifftiau o sut mae pobl ifanc wedi dylanwadu ar newidiadau a wnaed i'ch gwasanaethau.

**Uchafbwyntiau Arfer Da**

Oherwydd gwaith CFC, mae ehangder a dyfnder cyfranogiad wedi ennill eu plwyf ar draws y sir a gwelir hynny'n amlwg yn yr amrywiaeth o waith a gyflawnwyd ar draws yr Awdurdod Lleol, sy'n cynnwys cynorthwyo ystod o wasanaethau i gefnogi cyfranogiad ac ystod o gymorth i bobl ifanc allu dylanwadu ar newid, gan gynnwys:

- Ymgynghoriad pwyllgor craffu'r Economi a Diwylliant ynghylch dyfodol parciau a mannau agored Caerdydd
- Y pwyllgor craffu amgylcheddol a pholisi; dylanwadu ar Gaerdydd iachach, gwyrddach a mwy diogel
- Wedi dylanwadu ar gyfleoedd chwarae a'r strategaeth gynllunio er mwyn llywio canllawiau cynllunio ar gyfer cyfleoedd chwarae yng Nghaerdydd
- Wedi cymryd rhan mewn gweithdai ynghylch y CDLl er mwyn pennu blaenoriaethau ar gyfer eu hardaloedd a llywio cam nesaf y CDLl a'r fersiwn ohono sy'n addas i blant
- Cymryd rhan mewn prosesau recriwtio; sesiynau craffu a digwyddiadau dinesig amlwg
- Cydgynhyrchu peth gwaith ymchwil ar deithio llesol gydag academyddion prifysgol
- Mae modd i feysydd gwasanaeth gomisiynu tîm ymchwil Cyngor Caerdydd i ddatblygu offer ymgynghori a chyflawni gwaith uniongyrchol pan fydd gofyn. Mae'r bartneriaeth hon gyda meysydd gwasanaeth wedi arwain at waith ymgynghori â phlant a phobl ifanc er mwyn llywio datblygiad asesiadau uchel eu hansawdd o'r Effaith ar Hawliau Plant (CRIA), weithiau gyda chefnogaeth Tîm CFC neu'r tîm ymchwil mewn ymateb i geisiadau gan dimau a meysydd gwasanaeth
- Mae CFC yn cefnogi pob ysgol yng Nghaerdydd i weithio tuag at y Wobr Ysgol sy'n Parchu Hawliau (RRSA) ac mae'n darparu cymorth a hyfforddiant i wneud hynny. Datblygwyd pecyn offer cymdeithasol ar gyfer plant dan 11 oed trwy addasu pecyn offer UNICEF ar gyfer ysgolion, a defnyddio dull gweithredu lleol er mwyn sicrhau bod y pecyn offer eiriolaeth yn berthnasol i Gaerdydd. Cafodd ei lansio trwy rwydwaith RRSA.

**Rhwystrau a heriau:**

Er gwaethaf strwythurau cyfranogiad cryf, nododd Caerdydd nifer o heriau parhaus:

- Hyrwyddo a hwyluso cyfranogiad ystyrlon ar draws y gweithlu: nid oes gan lawer o staff ddigon o amser, hyfforddiant na hyder i ymgysylltu'n ystyrlon â phlant a phobl ifanc. Weithiau mae cyfranogiad yn cael ei weld fel elfen 'ychwanegol' yn hytrach na chyfrifoldeb craidd, a gall hynny arwain at arfer anghyson ar draws adrannau gyda rhai â dulliau gweithredu sydd wedi'u gwreiddio'n dda, tra bod eraill yn dal i ddatblygu hynny.

- Cyrhaeddiad a chynrychiolaeth cyfyngedig: Yn aml, mae ymgysylltu'n digwydd â phobl ifanc hŷn a mwy hyderus. Mae rhwystrau o hyd o ran cynnwys plant ifancach, plant anabl, a phlant o grwpiau sydd ar y cyrion neu heb gynrychiolaeth ddigonol.
- Adborth gwan heb effaith weladwy: Nid yw plant a phobl ifanc bob amser yn cael gwybod pa ddylanwad gafodd eu barn ar benderfyniadau, mae diffyg adroddiadau effaith clir a chyson yn gwanhau ymddiriedaeth ac yn cyfyngu ar ymgysylltiad i'r dyfodol.
- Heriau strwythurol a diwylliannol: Nid yw cyfranogiad bob amser yn rhan annatod o amserlenni gwasanaethau neu eu prosesau ar gyfer gwneud penderfyniadau. Gall systemau mewnol a blaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd gyfyngu ar y gallu i ymateb i safbwyntiau plant.
- Cyfyngiadau o ran adnoddau ac arian: Tîm canolog CFC sy'n darparu arweinyddiaeth, ond yn aml ni fydd gan adrannau eraill amser nac arian penodedig ar gyfer gwaith cyfranogiad. Mae hynny'n cyfyngu ar raddfa a manylder y gweithgareddau ymgysylltu.
- Mae adrodd yn ôl i Lywodraeth Cymru yn golygu cwblhau llawer o waith papur ar gyfer gwahanol ffrydiau gwaith/cyllid. Byddai'n haws petai modd edrych ar y cynllun cyffredinol heb orfod dadansoddi popeth.
- Mae Caerdydd yn lle amrywiol dros ben sy'n newid trwy'r amser, e.e. ceiswyr lloches sy'n dod i mewn i ysgol ac yna'n symud i ardal arall, ac mae angen sicrhau nad ydym yn colli cyfle i ymgysylltu â'r cymunedau newydd hyn – mae symudedd ar draws y ddinas yn newid yn barhaus.
- Mae'r argyfwng digartrefedd yn effeithio ar blant a phobl ifanc a gwelir llai o sefydlogrwydd o ran yr ysgol y bydd plant yn ei mynychu – ein gobaith yw y bydd datblygu hybiau cymorth cynnar ar draws y ddinas yn ddefnyddiol yn y sefyllfaoedd hyn.

**Cyswllt:** Lee Patterson – LeePatterson@cardiff.gov.uk

## 5. Sir Gaerfyrddin

Sir fawr, wledig yn bennaf yw Sir Gâr gyda threfi allweddol (Llanelli, Caerfyrddin, Rhydaman) ac ardaloedd amaethyddol/arfordirol helaeth.

- **Poblogaeth**: tua **190,083** (ganol 2024, pob oed)
- **Plant 0–15**: tua **23,662**
- **Amddifadedd:** Mae'n cynnwys rhai ardaloedd yn y 10% mwyaf difreintiedig, er nad yw ymhlith yr ALlau sydd â'r cyfrannau uchaf.

### Trosolwg

Mae cyfranogiad yng Nghyngor Sir Gâr yn cael ei gydlynu i raddau helaeth trwy'r gwasanaethau ieuenctid, gydag ymrwymiad clir i gynnwys plant a phobl ifanc yn y prosesau gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau. Gwelir y gweithgareddau cyfranogiad cryfaf mewn lleoliadau gwaith ieuenctid ac yn strwythurau'r cyngor ieuenctid, gyda chefnogaeth swyddogion penodedig. Fodd bynnag, mae'r awdurdod yn cydnabod nad yw cyfranogiad wedi'i wreiddio'n gyson eto ar draws holl wasanaethau'r cyngor a bod angen newid diwylliant ymhellach i gefnogi cyd-berchnogaeth ar gyfranogiad.

### Strwythurau cyfranogiad a dulliau gweithredu

Strwythur cyfranogiad craidd awdurdod Sir Gâr yw ei Gyngor Ieuenctid, sy'n cynnig fforwm lle gall plant a phobl ifanc godi materion, dylanwadu ar flaenoriaethau, a dod i gysylltiad â llunwyr penderfyniadau. Cyflawnir gweithgareddau cyfranogiad hefyd trwy grwpiau ieuenctid, gwaith ymgysylltu a dargedir, a gweithgarwch partneriaeth gyda sefydliadau trydydd sector.

Mae gan swyddogion cyfranogiad rôl allweddol wrth gefnogi gweithgareddau ymgysylltu a chynghori gwasanaethau ar sut mae cynnwys plant a phobl ifanc mewn modd ystyrlon. Fodd bynnag, cydnabuwyd bod cyfranogiad yn cael ei weld fel swyddogaeth arbenigol weithiau, yn hytrach na chyfrifoldeb a rennir ar draws yr holl wasanaethau sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc.

Gwnaed ymdrech i gefnogi cyfranogiad cynhwysol, ond mae ymgysylltiad wyneb yn wyneb yn gallu bod yn gyfyngedig oherwydd daearyddiaeth, diffyg trafnidiaeth a chapasiti'r staff, yn enwedig mewn ardaloedd mwy gwledig.

### Gwreiddio cyfranogiad a hawliau plant

Mae'r awdurdod yn cydnabod bod camau i wreiddio cyfranogiad yn gyson ar draws gwasanaethau yn dal i ddatblygu. Er bod arfer cadarn, seiliedig ar hawliau i'w weld yn y gwasanaethau ieuenctid, mae angen cynyddu ymwybyddiaeth ar draws timau ehangach y cyngor rhag i gyfranogiad gael ei ystyried yn gyfrifoldeb swyddogion cyfranogiad yn unig.

Un o'r heriau allweddol a amlygwyd oedd ymwybyddiaeth gyfyngedig y plant a'r bobl ifanc eu hunain. Nid yw llawer ohonynt yn gwbl ymwybodol o'u hawliau na'r cyfleoedd sydd ganddynt i fod yn rhan o wneud penderfyniadau. Mae hyn yn amlygu pwysigrwydd cryfhau cyfathrebu, addysg a gwelededd cyfleoedd cyfranogi ar draws y sir.

Hefyd, mae capasiti gwasanaethau allweddol eraill yn effeithio ar i ba raddau y gellir gwreiddio cyfranogiad yn gyson, yn enwedig pan fydd timau yn wynebu blaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd neu pan fydd pwysau o ran adnoddau.

### Uchafbwyntiau Arfer Da

Mae awdurdod Sir Gâr yn dangos ymrwymiad i gyfranogiad trwy ei gyngor ieuenctid a'i ddarpariaeth gwaith ieuenctid, gyda chydnabyddiaeth glir o bwysigrwydd lleisiau pobl ifanc wrth lywio gwasanaethau.

Mae'r awdurdod wedi dangos parodrwydd i ymgysylltu ar lefelau rhanbarthol a chenedlaethol, gydag arweinwyr ieuenctid yn chwilio am gynrychiolwyr ar fyrddau ieuenctid a byrddau cyfranogi ar draws Cymru. Mae tystiolaeth o ymarfer adfyfyriol hefyd, gyda swyddogion yn amlygu bylchau a meysydd lle gellid cryfhau cyfranogiad.

### Rhwystrau a heriau

Nodwyd nifer o heriau sy'n gysylltiedig â'i gilydd:

- Capasiti cyfyngedig o ran staff, yn enwedig yn y gwasanaethau ieuenctid, sy'n effeithio ar y gallu i ehangu gwaith cyfranogiad
- Trafnidiaeth a daearyddiaeth, sy'n creu rhwystrau o ran ymgysylltu wyneb yn wyneb ar draws y sir fawr wledig hon
- Canfyddiadau diwylliannol, lle mae cyfranogiad weithiau yn cael ei weld fel tasg arbenigol yn hytrach na chyfrifoldeb a rennir ar draws gwasanaethau

- Ymwybyddiaeth isel ymhlith plant a phobl ifanc o'u hawliau a'u cyfleoedd i gyfranogi
- Cynrychiolaeth ranbarthol anghyson, pan nad yw arweinwyr y bartneriaeth ieuenctid yn cael eu cynnwys yn gyson mewn byrddau rhanbarthol neu fyrddau cyhoeddus
- Mae cyfyngiadau capasiti yng ngwasanaethau eraill y cyngor yn effeithio ymhellach ar y gallu i wreiddio cyfranogiad yn ehangach.

**Cyswllt:** Sarah Jones – sjjones@carmarthenshire.gov.uk

## 6. Ceredigion

Mae Ceredigion yn awdurdod gwledig ac arfordirol (Bae Ceredigion) llai poblog. Mae prifysgolion yno yn Aberystwyth a Llanbedr Pont Steffan, ac aneddiadau gwasgaredig.

- **Poblogaeth**: tua **73,050** (ganol 2024, pob oed)
- **Plant 0–15**: tua **7,415**
- **Amddifadedd:** Un ardal yn unig sydd yn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru (sy'n nifer isel yn ôl safonau Cymru).

### Strwythurau cyfranogiad a dulliau gweithredu

Mae Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc wedi'i wreiddio mewn ymarfer ar draws yr Awdurdod Lleol.

Mae Gwasanaeth Ieuenctid Ceredigion yn cyflogi Uwch-swyddog Cyfranogiad (0.8) â chylch gorchwyl sy'n canolbwyntio ar gyfranogiad pobl ifanc. Mae'r uwch-swyddog yn aelod o Wasanaeth Ieuenctid Ceredigion yn y Porth Cymorth Cynnar. Arweinir cyfranogiad mewn gweithgareddau corfforol a chyfleoedd chwarae gan y Gwasanaeth Canolfannau Llesiant sydd hefyd yn rhan o'r Porth Cymorth Cynnar. Mae'r cyfrifoldeb dros gyfranogiad yn ymestyn i'r Gwasanaethau Ysgolion er mwyn hyrwyddo a sefydlu llais y disgybl yn yr Ysgolion Cynradd ac Uwchradd a'r Unedau Cyfeirio Disgyblion.

Ar ben hynny, hwylusir cyfranogiad plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal gan y Porth Cynnal (Gofal Cymdeithasol) sy'n cynnwys comisiynu partner trydydd sector (TGP) sy'n gweithio ar ein rhan i ddarparu eiriolaeth unigol a gwaith ymgynghori ac ymgysylltu ar sail grŵp. Cynigir cyfle i bob person ifanc gael cymorth eiriolwr i gynrychioli eu barn mewn Cynadleddau Amddiffyn Plant, Adolygiadau Plant sy'n Derbyn Gofal ac unrhyw faterion sy'n achosi pryder.

### Gwreiddio cyfranogiad a hawliau plant

Mae'r modd y caiff cyfranogiad plant ei wreiddio wrth gynllunio, cyflwyno ac adolygu gwasanaethau yn amrywio ar draws y sefydliad, gyda thystiolaeth gadarn o arfer da, y nodir rhai enghreifftiau ohono yma:

Yn 2017, cytunodd Aelodau Etholedig Cyngor Sir Ceredigion i gymryd CCUHP 'i ystyriaeth' a mabwysiadu'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol. Mae Cyfranogiad a Hawliau Plant a Phobl Ifanc yn rhan gadarn o Bolisi Ymgysylltiad a Chyfranogiad Ceredigion ac yn cael eu hadolygu yn rhan o hynny.

Mae Offeryn Asesu Effaith Integredig Ceredigion yn ymgorffori egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf Cydraddoldeb 2010, Mesur y Gymraeg 2011, a Rheoli Risgiau er mwyn llywio penderfyniadau effeithiol a sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth berthnasol. Cymerir effaith penderfyniadau ar blant a phobl ifanc i ystyriaeth yn rhan o'r gofyniad statudol hwn.

Derbyniodd Gwasanaeth Ieuenctid Ceredigion Nod Barcud (y Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol) yn 2019.

Caiff rhaglenni a gweithgareddau'r Gwasanaeth Ieuenctid eu cynllunio a'u sbarduno gan ganlyniadau Arolygon Bodlonrwydd Ieuenctid, grwpiau ffocws a gwahanol offer gwerthuso.

Mae gan Gyngor Ieuenctid Ceredigion, a sefydlwyd yn 2015, rôl hanfodol wrth gefnogi ymgysylltiad a chyfranogiad pobl ifanc ar draws yr Awdurdod Lleol a chyrff cyhoeddus ehangach. Mae'r Cyngor Ieuenctid wedi'i wreiddio'n gadarn yn strwythur democrataidd ehangach Cyngor Ceredigion, gan gynnwys ei gyfansoddiad. Cyflwynir cofnodion holl gyfarfodydd y Cyngor Ieuenctid i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau Dysgu ac i'r Cabinet. Mae'r Aelod Cabinet dros y Gwasanaeth Ysgolion, Sgiliau a Dysgu Gydol Oes yn eiriol yn gryf dros leisiau plant a phobl ifanc ac yn eistedd ar y Cyngor Ieuenctid bob blwyddyn. Ar ben hynny, mae cynrychiolwyr y Cyngor Ieuenctid yn rhoi cyflwyniad ar eu gwaith a'u blaenoriaethau i'r holl Gynghorwyr bob blwyddyn.

Ers ei sefydlu yn 2015, mae Cyngor Ieuenctid Ceredigion wedi cael cefnogaeth gan Uwch-reolwyr a Chynghorwyr. Mae gan y Cyngor Ieuenctid rôl hanfodol mewn llunio, adolygu, ac ymgynghori ar wahanol feysydd polisi a gwasanaethau megis y Gwasanaeth Nyrsio mewn Ysgolion, llwyfan Gyrfaoedd 360, ac adolygiad addysg ôl-16.

Mae digwyddiadau megis Ymgyrch Rhoi dy Farn a thrafodaeth Pawb a'i Farn yn enghreifftiau o sut mae barn pobl ifanc yn llywio gwasanaethau a blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol. Ar ben hynny, mae canlyniadau ymgyrch flynyddol Rhoi dy Farn yn sylfaen ar gyfer cynllunio grantiau a gwaith comisiynu, fel y gwelir yn y diwygiadau diweddar i Fframwaith Comisiynu Gwaith Ieuenctid Ceredigion.

Sbardunir cynlluniau strategol rhaglenni Gweithgarwch Corfforol gan ganlyniadau Arolwg Chwaraeon Ysgol Chwaraeon Cymru, a sicrhaodd 2,762 o ymatebion o Geredigion yn 2022. Mae llais y disgybl yn dylanwadu ar weithgareddau trwy'r rhaglen Llysgenhadon Ifanc a thrwy werthuso rhaglenni cyfredol.

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn cydnabod ac yn cefnogi hawl pob plentyn i chwarae, yn unol â deddfwriaeth Llywodraeth Cymru. Nod Cyngor Sir Ceredigion yw annog a chefnogi cymunedau i greu a datblygu amgylcheddau lle bydd plant a phobl ifanc yn gallu chwarae a lle bydd oedolion yn deall gwerth chwarae ac yn ei hyrwyddo. Mae ymrwymiad y sir yn parhau yn Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae 2025, sy'n adeiladu ar y gwaith a gyflawnwyd yn 2022. Mae'r adroddiad hwn yn cynnig trosolwg cynhwysfawr o gyfleoedd chwarae ar draws y sir ac yn disgrifio'r camau a gymerir i wreiddio cyfleoedd chwarae ymhellach yn niwylliant a chymunedau'r sir.

Mae cyfranogiad yn rhan annatod o'r gwasanaethau ysgol trwy gyfleoedd Llais y Dysgwr, e.e. y Llysgenhadon Llesiant sy'n cyfarfod unwaith y tymor â'r Gwasanaethau Ysgolion i drafod a chynllunio gweithgareddau er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth ysgolion o ddiwrnodau/wythnosau cenedlaethol, megis Wythnos Iechyd Meddwl Plant, Wythnos Gwrthfwlio, Gŵyl Empathi ac ati.

Mae pob ysgol uwchradd a nifer cynyddol o ysgolion cynradd yn ateb arolwg y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion. Dadansoddir y data hwn er mwyn sicrhau bod cymorth perthnasol ar gael. Mae'r gwasanaethau ysgol yn ymgorffori sesiynau llais y dysgwr mewn ymweliadau ysgol, lle mae cyfle i ddisgyblion ddarparu adborth a chynnig cipolwg ar eu cymuned ysgol.

Mae awdurdod Ceredigion yn comisiynu TGP (Sêr Diogel) i weithio gyda phlant sy'n derbyn gofal. Maen nhw'n trefnu sesiynau grŵp bedair gwaith y flwyddyn er mwyn casglu barn plant sydd â phrofiad o ofal, ac yn rhoi adborth annibynnol i'w gweithiwr cymdeithasol am eu profiadau a'u barn am dderbyn gofal.

Mae staff Uned Gofal Plant Ceredigion yn bresennol yng nghyfarfodydd y Rhwydwaith Hawliau Plant yn y Blynyddoedd Cynnar (CREYN) ac yn lledaenu gwybodaeth i'r sector Gofal Plant. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth am yr Adduned i Fabanod yng Nghymru a ddatblygwyd gan CREYN, sy'n amlygu safbwynt y baban, gan ganolbwyntio ar ei hawliau yn ystod y 1000 diwrnod cyntaf.

**Uchafbwyntiau Arfer Da**

- Mae gwaith Cyngor Ieuenctid Ceredigion i ddarparu llwyfan gwerthfawr, sydd wedi ennill ei blwyf ar draws y Sir, ar gyfer gwneud penderfyniadau allweddol a dylanwadu ar feysydd blaenoriaeth, yn enghraifft o arfer da. Gwelwyd hynny yn adroddiad Estyn ar Wasanaethau Addysg Cyngor Sir Ceredigion yn 2024.
- Mae Is-grŵp Urddas Mislif Ceredigion yn llwyfan lle mae pobl ifanc wedi llywio'r ddarpariaeth leol yn llwyr, gan gynnwys proffilio grantiau a chreu arweiniad a ddefnyddir ar draws y rhanbarth bellach.
- Mae Fforwm Ieuenctid Ceredigion (panel dewis) yn gyfrifol am ddylanwadu ar gyflwyno gwasanaethau, ac am ddyfarnu a gwerthuso nifer o gynlluniau grantiau bach.
- Cefnogir Grŵp Llysgenhadon Cymunedol Aberystwyth i drefnu a chyflwyno amrywiol brosiectau yn y gymuned, gweithgareddau cynyddu ymwybyddiaeth a digwyddiadau lleol, i gyd er mwyn cefnogi'r gymuned leol. Mae hyn yn cynnwys prosiectau ymwybyddiaeth diweddar ynghylch digartrefedd ymysg pobl ifanc, gofalwyr ifanc, a galar a phrofedigaeth.
- Mae rhaglen Chwarae i Bawb yng Ngheredigion yn enghraifft amlwg o ymarfer cynhwysol ac effeithiol ym maes arweinyddiaeth ieuenctid a hyrwyddo gweithgarwch corfforol. Tra bod pob ysgol yn y sir yn manteisio ar gymorth Llysgenhadon Ifanc, sy'n mynd ati i hyrwyddo a chyflwyno cyfleoedd i annog eu cymheiriaid i fod yn gorfforol egnïol, mae Chwarae i Bawb yn darparu llwybr llysgenhadon arweiniol ar gyfer pobl ifanc ag anableddau dysgu.
- Cynhaliwyd sesiynau cyfranogiad ar-lein yn 2022 er mwyn darparu mewnbwn i Gynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2023-2028.
- Mae Ceredigion wedi datblygu cwrs pwrpasol sy'n agored i holl staff yr ALl i gynyddu ymwybyddiaeth o CCUHP a Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol, a fydd ar waith o fis Medi ymlaen.
- "Porth Cymorth Cynnar yw Gwasanaeth Cymorth Cynnar ac Ataliaeth Ceredigion ar gyfer plant, teuluoedd ac oedolion, sy'n cynnig cymorth hanfodol i deuluoedd agored i niwed".
- Mae'r ysgolion yn defnyddio dull gweithredu parth diogel mewn ysgolion, sef y system sy'n cael y clod ganddynt am y ffaith na fu unrhyw waharddiadau parhaol mewn unrhyw ysgol yn ystod y 10 mlynedd diwethaf. Defnyddir system o'r enw Hafan, sy'n lle diogel i blant a phobl ifanc, ac mae yna Weithwyr Ieuenctid yn yr ysgolion sy'n canolbwyntio'n bennaf ar adnabod y plant a'r bobl ifanc sy'n fwyaf agored i niwed.

**Rhwystrau a heriau**

Mae Ceredigion wedi nodi nifer o heriau sy'n effeithio ar gynaliadwyedd cyfranogiad a'i gyrhaeddiad:

- Gwybodaeth hawdd ei deall ar gyfer pobl ifanc.
- Natur wledig y sir a thrafnidiaeth.
- Tlodi gwledig

- Iaith, nid yw siaradwyr neu adnoddau Cymraeg a gael bob amser.
- Ymgysylltu ag unigolion/grwpiau o gefndiroedd lleiafrifol.
- Gofal Cymdeithasol, mae rhai plant yn cael eu lleoli y tu allan i Geredigion
- Darpariaeth Blynyddoedd Cynnar / Gofal plant annigonol mewn rhai ardaloedd o'r Sir, a all rwystro mynediad ystyrlon plant iau at gyfranogiad

**Cyswllt:** Gwion Bowen – gwion.bowen@ceredigion.gov.uk

## 7. Conwy

Awdurdod lleol â chymysgedd o ardaloedd arfordirol a threfol yw Conwy, sy'n cwmpasu ardaloedd megis Llandudno a Bae Colwyn, ac ucheldir gwledig yn bennaf o'i amgylch, gan gynnwys Dyffryn Conwy a godreon Eryri.

- **Poblogaeth**: tua **114,410** (ganol 2024, pob oed)
- **Plant 0–15**: tua **13,269**
- **Amddifadedd:** Mae sir Conwy yn cynnwys rhai ardaloedd yn y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yn genedlaethol, er nad oes ganddi un o'r cyfrannau cyffredinol uchaf o amddifadedd ymhlith awdurdodau lleol Cymru.

### Trosolwg

Gwasanaeth Ieuenctid, Ymgysylltiad a Pherthyn Conwy sy'n gyfrifol am gyfranogiad yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Ar hyn o bryd, mae'r gwaith hwn yn cael ei gefnogi gan un Swyddog Cyfranogiad rhan-amser a'i arwain gan Reolwr Strategol y Gwasanaeth. Mae'r agenda cyfranogiad yn elwa o gael cefnogaeth glir gan uwch-reolwyr a'r aelodau etholedig.

Mae cyfranogiad plant yn y broses o wneud penderfyniadau yn rhan allweddol o ddull llywodraethu cyngor Conwy. Mae cynrychiolaeth y Cyngor Ieuenctid wedi'i gwreiddio ar draws y pwyllgorau craffu er mwyn sicrhau bod lleisiau plant a phobl ifanc yn cael eu clywed yn gyson a'u hystyried mewn prosesau democrataidd.

### Strwythurau Cyfranogiad

O ran cyfranogiad, mae gan gyngor Conwy dair ffrwd waith graidd sy'n cefnogi lleisiau plant a phobl ifanc:

1. Y Cyngor Ieuenctid – ar gyfer pobl ifanc 11–25 oed
2. Lleisiau Pwerus/Power Voices – grŵp ar gyfer plant oed uwchradd sy'n derbyn gofal
3. Lleisiau Cryf/Loud Voices – grŵp ar gyfer plant oed cynradd sy'n derbyn gofal

Yr adran Gofal Cymdeithasol sy'n arwain grwpiau Lleisiau Pwerus a Lleisiau Cryf. Mae'r awdurdod lleol wedi cydnabod pwysigrwydd cysoni'r grwpiau hyn yn well, ochr yn ochr â sicrhau bod anghenion a phrofiadau unigol plant a phobl ifanc yn ganolog o hyd.

Mae'r Cyngor Ieuenctid yn cynnig llwyfan strwythuredig i bobl ifanc 11–25 oed allu dylanwadu ar benderfyniadau a llywio gwasanaethau.

Ar yr un pryd, mae cyngor Conwy wedi cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r modd y mae gwasanaethau yn cofnodi lleisiau plant o dan 11 oed ar hyn o bryd. Nododd y gwaith hwn gryfderau, bylchau a chyfleoedd i wella, gan sicrhau bod cyfle i blant ifanc ymgysylltu mewn modd ystyrlon er mwyn llywio'r gefnogaeth maen nhw'n ei derbyn. Bydd canfyddiadau'r adolygiad hwn yn llywio ymarfer yn y dyfodol ac yn helpu i wreiddio cyfranogiad cynhwysol ar draws pob grŵp oedran. Mae'r awdurdod lleol eisoes wedi cefnogi ysgolion i wreiddio llais y disgybl ac maen nhw bellach yn ceisio cryfhau cysylltiadau rhwng cynghorau ysgol gynradd a Chyngor Ieuenctid yr Awdurdod Lleol. Bydd y dull gweithredu hwn yn adlewyrchu strwythur y Cyngor Ieuenctid ond fe fydd, yn allweddol, yn cynnwys plant oed cynradd, gan sicrhau bod eu safbwyntiau hwythau yn cael eu cofnodi mewn prosesau gwneud penderfyniadau.

### Gwreiddio cyfranogiad a hawliau plant

Mae cyfranogiad plant yn rhan annatod o drefniadau llywodraethu cyngor Conwy. Cafodd cynrychiolaeth y Cyngor Ieuenctid ar bwyllgorau craffu ei threialu ym maes Gofal Cymdeithasol ac Addysg i ddechrau. Yn dilyn canlyniadau cadarnhaol, mae'r model hwn yn awr yn cael ei wreiddio ar draws yr holl bwyllgorau craffu er mwyn sicrhau bod lleisiau plant a phobl ifanc yn cael eu clywed yn gyson.

Ochr yn ochr â hynny, amlygwyd meysydd arfer da lle mae barn plant yn cael ei chofnodi'n llwyddiannus yn ystod prosesau cynllunio, cyflwyno ac adolygu. Er mwyn adeiladu ar y sylfaen hon, mae'r gwasanaethau perthnasol yn gweithio i gryfhau ymgysylltiad â phlant dan 11 oed, er mwyn sicrhau bod eu persbectif nhw yn llywio datblygiad a gwerthusiad gwasanaethau mewn modd ystyrlon.

### Uchafbwyntiau Arfer Da

- **Partneriaeth â Senedd Ieuenctid Cymru:** Mae Gwasanaeth Ieuenctid Conwy yn un o bartneriaid ffurfiol Senedd Ieuenctid Cymru, gan roi cyfle i bobl ifanc ddylanwadu ar bolisi ar lefel genedlaethol. Etholwyd un person ifanc i gynrychioli Gwasanaeth Ieuenctid Conwy yn uniongyrchol, gyda dau berson ifanc ychwanegol yn cael eu hethol trwy ymgyrchoedd etholaethol. Mae hyn yn adlewyrchu cryfder arweinyddiaeth ieuenctid lleol, ymgysylltiad democrataidd, ac effeithiolrwydd dull awdurdod Conwy o ddatblygu arweinyddiaeth a chyfranogiad ieuenctid.
- **Dylanwadu ar Bolisi Gwaith Ieuenctid Cenedlaethol:** Bu aelodau o'r Cyngor Ieuenctid yn ymgysylltu'n uniongyrchol â Rheolwr Strategol y Gwasanaeth Ieuenctid, Ymgysylltiad a Pherthyn i drafod y Fframwaith Gwaith Ieuenctid Arfaethedig i Gymru. Bu hyn yn fodd i bobl ifanc ddylanwadu ar bolisi cenedlaethol yn gynnar.
- **Profiad Cyfranogiad Cadarnhaol:** Teimlai aelodau o'r Cyngor Ieuenctid eu bod wedi cael eu clywed a'u gwerthfawrogi trwy'r ymgysylltiad hwn. Roedd trafodaeth agored ac esboniadau clir yn cryfhau ymddiriedaeth a thryloywder, gan helpu'r bobl ifanc i ddeall sut bydd penderfyniadau polisi yn effeithio arnyn nhw yn awr ac yn y dyfodol.
- **Dull Gweithredu Adduned Gorfforaethol:** Mae cyngor Conwy yn defnyddio Adduned Gorfforaethol sy'n gofyn bod pob gwasanaeth yn cyflwyno adroddiad blynyddol ar eu hymrwymiadau diogelu ac yn nodi rhwystrau i ymarfer effeithiol. Yna, mae'r gwasanaethau'n gofyn i'r Cyngor Ieuenctid ddarparu adborth am y camau gweithredu arfaethedig er mwyn sicrhau bod lleisiau pobl ifanc yn llywio'r penderfyniadau. I adeiladu ar hynny, mae cyngor Conwy yn edrych ar ddatblygu adduned cyfranogiad corfforaethol ehangach ar draws yr holl wasanaethau.

- **Adolygiad Strategol o Gyfranogiad:** Cwblhawyd adolygiad ffurfiol o arferion cyfranogiad, gan nodi meysydd blaenoriaeth er mwyn cryfhau a gwreiddio cyfranogiad ar draws y gwasanaethau. Un flaenoriaeth allweddol yw cynyddu capasiti'r Tîm Cyfranogiad Ieuenctid er mwyn bodloni'r galw cynyddol a sicrhau ymgysylltiad cyson.
- **Cynyddu Ymwybyddiaeth mewn Addysg:** Mae cynrychiolwyr y Cyngor Ieuenctid wedi datblygu cynlluniau i gyflwyno cynhadledd ar gyfer penaethiaid ysgol a llywodraethwyr er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o rôl y Cyngor Ieuenctid. Ar ben hynny, mae'r awdurdod lleol wedi buddsoddi mewn fideo i hyrwyddo'r Cyngor Ieuenctid er mwyn gwella'i welededd ac annog ymgysylltiad ehangach.

**Heriau a Rhwystrau**

- **Cyfyngiadau ar Adnoddau:** Mae ymrwymiad cryf i gyfranogiad ieuenctid; ond mae'r pwysau ar y gyllideb a demograffeg hŷn y sir yn cyfyngu ar yr hyn y gellir ei gyflawni.
- **Ymgysylltu â Chymunedau Ethnig:** Cydweithiwyd ag EYST o'r blaen ond nid oes darpariaeth wirfoddol strwythuredig ar hyn o bryd ar gyfer cymunedau ethnig leiafrifol. Nodwyd bod datblygu'r maes hwn yn flaenoriaeth.
- **Nifer Cyfyngedig o Staff:** Ar hyn o bryd, mae un Swyddog Cyfranogiad rhan-amser yn gweithio 12 awr yr wythnos i gefnogi cyfranogiad. Mae hynny yn cyfyngu'r gallu i gydgysylltu a hwyluso. Mae'r awdurdod yn edrych ar ddewisiadau er mwyn cryfhau capasiti.
- **Rhwystrau Strwythurol ac Ymarferol:** Mae angen cryfhau mecanweithiau ffurfiol er mwyn sicrhau bod lleisiau plant yn cael eu clywed yn gyson ac yn destun gweithredu. Mae amser a lleoliad cyfarfodydd, fel rhai'r pwyllgorau craffu, yn gallu cau plant allan yn anfwriadol oherwydd bod ymrwymiadau ysgol, trafnidiaeth neu gostau yn rhwystr.
- **Mecanweithiau Cefnogi:** Mae pwysau ariannol yn golygu nad yw mecanweithiau cefnogi pobl ifanc yn gyson nac yn hawdd eu cyrchu bob amser. Mae cryfhau'r maes hwn yn hanfodol er mwyn gwella mynediad a chanlyniadau.
- **Rhwystrau Seicolegol a Chymdeithasol:** Mae rhai pobl ifanc yn profi diffyg hyder neu orbryder wrth gymryd rhan mewn sefyllfaoedd ffurfiol. Gall ofn beirniadaeth, diffyg ymddiriedaeth, a iaith gymhleth neu anaddas i oedran y bobl ifanc, eu gwneud yn amharod i ymgysylltu. Heb fuddsoddiad pellach, mae'r  rhwystrau hyn yn debygol o barhau.
- Amlygwyd **diffyg dolenni adborth clir** hefyd. Caiff hyder ac ymddiriedaeth yn y broses eu tanseilio pan fydd pobl ifanc yn methu gweld bod eu mewnbwn yn dylanwadu ar benderfyniadau. Mae cynrychiolwyr y Cyngor Ieuenctid wedi amlygu bod cyfranogiad yn gallu teimlo'n docenistaidd yn sgîl hynny.

**Cyswllt:** Rachel Simmonds – rachel.simmonds@conwy.gov.uk

## 8. Sir Ddinbych

Mae Sir Ddinbych yn cynnwys trefi arfordirol (Y Rhyl, Prestatyn) ac ardaloedd gwledig; mae economi'r sir yn cynnwys cymysgedd o dwristiaeth, gwasanaethau ac amaethyddiaeth.

- **Poblogaeth:** tua **97,156** (ganol 2024, pob oed)
- **Plant 0–15:** tua 12,334
- Canran y disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol **(ADY)** neu anghenion addysgol arbennig **(AAA)** mewn ysgolion prif ffrwd, (Ionawr 2025): **6.0%**
- O leiaf un ardal gynnyrch ehangach haen is (LSOA) ddifreintiedig iawn.

### Trosolwg

Yng Nghyngor Sir Ddinbych mae cyfranogiad, sy'n cael ei arwain gan y Gwasanaeth Ieuenctid, yn rhan annatod o fodel Ieuenctid a Gwydnwch Cymunedol ehangach. Yn dilyn ailstrwythuro gwasanaethau ym mis Ebrill 2025, mae gwaith ieuenctid bellach yn eistedd ochr yn ochr â swyddogaethau tai, gwydnwch a datblygu cymunedol, gan adlewyrchu athroniaeth fwriadol lle mae pobl ifanc yn cael eu gweld fel dinasyddion gweithredol yn eu cymunedau.

Mae'r Tîm Ieuenctid a Gwydnwch Cymunedol yn gweithredu yn yr adran Tai a Chymunedau, gyda phwyslais pendant ar bartneriaeth, gwaith atal a dulliau seiliedig ar gryfderau. Mae cyfranogiad yn rhan o ddarpariaeth gwasanaethau prif ffrwd yn hytrach nag yn swyddogaeth ar ei phen ei hun. Fe'i cefnogir gan uwch-reolwr arweiniol ar gyfranogiad a swydd benodedig Rheoli Cyfranogiad, a'r bwriad yw tyfu'r maes gwasanaeth hwn er mwyn sicrhau adlewyrchiad mwy cymesur o golofn 'cyfranogiad' gwaith ieuenctid a chefnogi hawliau cyfreithiol pobl ifanc. Mae'r gwasanaeth yn cwmpasu pobl ifanc 11-25 oed, gyda chysylltiadau cynyddol â chynllunio corfforaethol, prosesau craffu a mentrau yn y gymuned.

### Strwythurau cyfranogiad a dulliau gweithredu

Yn ddiweddar, mae cyngor Sir Ddinbych wedi ail-lansio'i raglen Llais Ieuenctid, sy'n datblygu'n gyflym ar draws y sir. Mae'r Cyngor Ieuenctid yn rhan o'r Tîm Ieuenctid a Gwydnwch Cymunedol ac yn cysylltu mwy a mwy â phrosesau craffu a chynllunio corfforaethol.

Mae cyfarfodydd hybrid wedi gwella hygyrchedd yn sylweddol yn yr awdurdod gwledig mawr hwn. Gynt, roedd cyfranogiad yn ddibynnol iawn ar deithio o le i le, gyda gweithwyr ieuenctid yn cludo pobl ifanc ar draws y sir. Mae ailgyflwyno gweithio hybrid wedi lleihau rhwystrau daearyddol a chynyddu ymgysylltiad.

Mae'r Cyngor hefyd wedi mabwysiadu dulliau digidol creadigol o ymdrin â chyfranogiad. Mae podlediad am yr hyn sy'n gryf, nid yr hyn sy'n anghywir ("What's Strong, Not Wrong"), yn gyfle i bobl ifanc drafod materion megis llesiant, delwedd corff a hunaniaeth gymunedol. Mae'r fformat hwn wedi bod yn arbennig o effeithiol o ran ymgysylltu â phobl ifanc sydd efallai heb ddigon o hyder i siarad mewn cyfarfodydd ffurfiol, a hefyd wedi datblygu sgiliau digidol ac arweinyddiaeth.

Mae pobl ifanc yn ymwneud mwyfwy â llywio ceisiadau ariannol a phrosiectau cymunedol. Er enghraifft, mae pobl ifanc wedi dylunio a datblygu cynnig ar gyfer trac pwmpio yn Ninbych Uchaf, gan gynnal ymgynghoriad a mapio asedau cymunedol cyn chwilio am gyllid. Mae cyfranogiad hefyd yn bwydo i mewn i offer llywodraethu strwythuredig, gan gynnwys Asesiadau Effaith ar Lesiant a Iechyd, ac yn sicrhau bod llais pobl ifanc yn llywio penderfyniadau strategol allweddol.

### Gwreiddio cyfranogiad a hawliau plant

Mae cyfranogiad yn rhan annatod o'r ddarpariaeth ieuenctid mynediad agored, a dywedir bod cydgynhyrchu yn ganolog wrth gyflwyno'r gwasanaeth. Mae'r ad-drefnu wedi cryfhau atebolrwydd a goruchwyliaeth strategol, gan sicrhau cyfatebiaeth rhwng cyfranogiad ac adduned gorfforaethol y Cyngor i ddod â'r awdurdod "yn nes at gymunedau". Prif Reolwr y Gwasanaeth Ieuenctid hefyd sy'n arwain ffrwd waith Agosach at Gymunedau ar ran yr Awdurdod.

Nod y Gwasanaeth Ieuenctid yw creu cysylltiadau cadarn â phrosesau craffu, ac mae'r cynllun corfforaethol (ac yn fwy penodol y gwaith dan y thema Cyngor Wedi'i Reoli'n Dda sy'n Perfformio'n Dda yn y cynllun hwnnw) yn cynnwys camau gweithredu i ehangu cyfraniad ieuenctid i'r broses o wneud penderfyniadau. Gwelir felly fod cyfranogiad yn symud y tu hwnt i ymgynghori ac yn integreiddio'n fwy â strwythurau llywodraethu.

Mae'r Cyngor hefyd yn rhan o rwydwaith cyfranogiad sy'n tyfu yng Ngogledd Cymru ac mae'n cydweithio ag awdurdodau cyfagos i gryfhau arweinyddiaeth ieuenctid ranbarthol a dysgu ar y cyd. Er bod pobl ifanc yn cyfrannu at lywio gwasanaethau a phrosiectau, mae'r awdurdod yn cydnabod y gellid cryfhau mecanweithiau adborth ffurfiol wrth i'r llinyn llais ieuenctid barhau i ddatblygu.

### Arfer Da

Mae'r modd y mae Sir Ddinbych yn integreiddio gwaith ieuenctid mewn model Gwydnwch Cymunedol yn ddull unigryw o wreiddio cyfranogiad mewn systemau cymunedol ehangach.

Mae'r defnydd o offer digidol creadigol, gan gynnwys podlediadau a arweinir gan ieuenctid, yn ffyrdd arloesol o ymgysylltu â phobl ifanc na fyddent yn ymateb o bosib i arolygon neu gyfarfodydd traddodiadol. Mae dulliau cyflwyno hybrid wedi lleihau'r rhwystrau o ran trafnidiaeth wledig yn sylweddol, gan wella hygyrchedd ar draws y sir.

Mae cyfraniad pobl ifanc at ddylunio prosiectau seilwaith cymunedol, a'u cyfraniad at Asesiadau Effaith ar Lesiant aclechyd, yn adlewyrchu dylanwad ystyrlon ar ganlyniadau lleol gweladwy. Hefyd, mae'r cydweithio rhanbarthol ar faterion cyfranogiad sy'n dod i'r amlwg yng Ngogledd Cymru yn sylfaen gref ar gyfer dysgu a gwella ar y cyd.

### Rhwystrau a heriau

Nododd cyngor Sir Ddinbych nifer o heriau parhaus:

- Anghydbwysedd pŵer rhwng pobl ifanc ac oedolion, sy'n gallu cyfyngu ar ddylanwad ystyrlon wrth wneud penderfyniadau
- Rhwystrau o ran daearyddiaeth a thrafnidiaeth, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig
- Capasiti a phwysau o ran amser, sy'n effeithio ar y gallu i gyfranogi ar raddfa fwy
- Dealltwriaeth anghyson o fframweithiau cyfranogiad cenedlaethol ar draws awdurdodau lleol
- Cyflymder a chysondeb arweiniad Llywodraeth Cymru, sy'n gallu effeithio ar amserlenni gweithredu lleol
- Nododd y Cyngor fod angen newid diwylliant yn ogystal â mecanweithiau strwythurol er mwyn mynd i'r afael ag anghydbwysedd pŵer a bod agweddau ac ymddygiad oedolion yn gallu dylanwadu ar ansawdd y cyfranogiad.

**Cyswllt:** Andrew Williams – andrew.williams@denbighshire.gov.uk

## 9. Cyngor Sir y Fflint

Awdurdod yng Ngogledd-ddwyrain Cymru sydd â chysylltiadau trawsffiniol cryf â Swydd Gaer a Glannau Mersi yw Sir y Fflint. Mae yno gymysgedd o drefi diwydiannol (e.e. Glannau Dyfrdrwy) ac ardaloedd gwledig.

- **Poblogaeth:** tua **155,812** (ganol 2024, pob oed)
- **Plant 0-15:** tua **19,745**
- **Amddifadedd:** Mae'n cynnwys rhai ardaloedd yn y 10% mwyaf difreintiedig, sy'n cyd-fynd â'r patrwm cenedlaethol

### Trosolwg

Mae cyfranogiad yng Nghyngor Sir y Fflint yn cael ei arwain gan y Gwasanaeth Ieuenctid a'i wreiddio ar draws y portffolio Addysg a Ieuenctid a'r Gwasanaethau Plant. Gwelir bod cyfranogiad yn gyfrifoldeb a rennir, gyda gwahanol dimau yn arwain ymgysylltiad â grwpiau oedran a charfannau gwahanol, gan gynnwys cyfleoedd chwarae, plant oedran ysgol, pobl ifanc sy'n ymwneud â'r gwasanaethau cyfiawnder, a phlant sydd â phrofiad o ofal.

Mae awdurdod Sir y Fflint wedi datblygu dull cydlynus o ymdrin â chyfranogiad sy'n tynnu ynghyd y gwasanaethau statudol, ysgolion a lleoliadau cymunedol. Cefnogir hynny gan waith partneriaeth clir ac ymrwymiad amlwg i sicrhau bod lleisiau plant a phobl ifanc yn llywio datblygiadau polisi, dyluniad gwasanaethau a phenderfyniadau lleol.

### Strwythurau Cyfranogiad

Mae fframwaith cyfranogiad Sir y Fflint yn cwmpasu plant a phobl ifanc 0-25 oed, gyda dulliau gweithredu penodol ar gyfer gwahanol gyfnodau plentyndod a llencyndod. Ymhlith y strwythurau craidd mae'r Cyngor Ieuenctid a'r Cynghorau Ysgol, ochr yn ochr â llwybrau cyfranogiad arbenigol trwy'r Gwasanaeth Ieuenctid, Datblygu Chwarae, Ysgolion sy'n Hybu Iechyd, y Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid, a fforymau'r Gwasanaethau Plant.

Un o nodweddion allweddol dull gweithredu Sir y Fflint yw model "Sir y Fflint Ifanc", sy'n dwyn ynghyd gynrychiolwyr y Cyngor Ieuenctid, Cynghorau Ysgol, Disgyblion-lywodraethwyr Cyswllt, ysgolion arbennig, unedau cyfeirio disgyblion, ac ysgolion uwchradd prif ffrwd. Mae'r fforwm integredig hwn yn gyfle i bobl ifanc gydweithio ar draws lleoliadau addysg a ieuenctid ac ymgysylltu, gyda'i gilydd, ag uwch-lunwyr penderfyniadau.

Yn ogystal, cefnogir cyfranogiad trwy ymgyngoriadau blynyddol a arweinir gan ieuenctid, yn enwedig yr "Ymgynghoriad 3 Mater" sy'n gwahodd pob person ifanc 11-18 oed i amlygu'r materion pwysicaf iddyn nhw, i'w teuluoedd ac i'w cymunedau. Mae'r canfyddiadau'n darparu sylfaen o dystiolaeth ar gyfer blaenoriaethau ieuenctid Sir y Fflint ac yn llywio gwaith cynllunio a chyflwyno gwasanaethau gan y cyngor.

Mae awdurdod Sir y Fflint hefyd yn paratoi i lansio Strategaeth Perthyn drosfwaol (sydd ar y gweill ar gyfer Hydref 2026), gyda'r nod o gryfhau cysondeb a disgwyliadau o ran cyfranogiad ar draws prosesau cynllunio, cyflwyno ac adolygu yn y portffolio Addysg a Ieuenctid.

### Gwreiddio cyfranogiad a hawliau plant

Gwreiddir cyfranogiad plant trwy gyfuniad o fframweithiau strategol, mecanweithiau ymgynghori, ac ymgysylltiad seiliedig ar ymarfer. Mae cyfranogiad yn llywio gwaith y cyngor o ran cynllunio, blaenoriaethau ariannu, mentrau creu lleoedd, a phrosiectau adfywio, gyda phobl ifanc yn cymryd rhan wyneb yn wyneb ac ar-lein.

Mae plant a phobl ifanc wedi cyfrannu'n weithredol at lywio polisïau a strategaethau allweddol, gan gynnwys y Siarter Rhianta Corfforaethol: Addewid i Gymru, y Strategaeth Newid Hinsawdd, y Ddarpariaeth Bwyd a Diod yn yr Ysgol, a'r Strategaeth Perthyn sydd i ddod.

Cefnogir adborth ac atebolrwydd trwy ddiweddariadau rheolaidd yng nghyfarfodydd y Cyngor Ieuenctid a Sir y Fflint Ifanc, trwy negeseuon e-bost, a thrwy sianeli ysgol. Wrth i'r mecanweithiau adborth ffurfiol barhau i ddatblygu, mae llawer o wasanaethau hefyd yn dibynnu ar newidiadau ymarferol, gweladwy i ddangos sut mae barn plant wedi llywio'r ddarpariaeth, yn enwedig yn y gwasanaeth chwarae a'r gwasanaeth ieuenctid.

**Uchafbwyntiau Arfer Da**

Gwelir arfer da o ran cydweithio ar draws y system yn Sir y Fflint, ac mae cyfranogiad yn rhan annatod o waith addysg, ieuenctid, gofal cymdeithasol, cyfiawnder a gwasanaethau cymunedol.

Mae model Sir y Fflint Ifanc yn amlwg yn ffordd effeithiol o gydgysylltu llais pobl ifanc ar draws ysgolion a'r gwasanaethau ieuenctid, ac yn fodd i ddisgybl-gynrychiolwyr etholedig ac aelodau'r cynghorau ieuenctid gydweithio.

Mae'r Ymgynghoriad 3 Mater yn fecanwaith clir a arweinir gan ieuenctid sy'n casglu barn ar raddfa eang ac yn troi hynny'n flaenoriaethau i'r cyngor. Mae Sir y Fflint hefyd wedi dangos arfer cadarn wrth gynnwys pobl ifanc sy'n ymwneud â'r system gyfiawnder, gan sicrhau'r gyfradd uchaf o ymatebion gan ieuenctid ar draws y rhanbarth o dan y Ddyletswydd Trais Difrifol, a sicrhau bod eu safbwyntiau yn llywio strategaeth Gogledd Cymru.

Dyma rai enghreifftiau ychwanegol o gyfranogiad effeithiol:

- Cynnwys ieuenctid wrth gyd-ddatblygu'r Siarter Rhianta Corfforaethol
- Pobl ifanc yn llywio'r Strategaeth Perthyn, y Strategaeth Newid Hinsawdd, a'r ddarpariaeth fwyd mewn ysgolion
- Dathliad Pride blynyddol mewn ysgolion a darddodd o drafodaethau a arweiniwyd gan ddysgwyr
- Ymarfer a arweinir gan blant yn y gwasanaethau Datblygu Chwarae, lle mae adborth yn llywio'r ddarpariaeth mewn modd uniongyrchol
- Mae prosiect mawr ar waith gennym yn yr holl ysgolion cynradd ar hyn o bryd. Mae'r tîm Datblygu Chwarae yn arwain ymgysylltiad â phlant iau; cydnabyddir bod cyfranogiad plant 5-11 oed yn faes i ganolbwyntio arno er mwyn sicrhau cynhwysiad ar draws pob grŵp oedran.

**Rhwystrau a heriau**

Er gwaethaf strwythurau cyfranogiad cryf, nododd awdurdod Sir y Fflint nifer o heriau parhaus:

- Ymwybyddiaeth a hyder: Nid yw rhai pobl ifanc yn ymwybodol o'u hawl i gyfranogi nac yn sylweddoli pa mor werthfawr yw eu llais. Yn ogystal, gall gorbryder a diffyg hyder gyfyngu ar ymgysylltiad.
- Hygyrchedd: Mae trafnidiaeth, cost, lleoliad ac amser cyfarfodydd yn dal i effeithio ar fynediad at gyfleoedd cyfranogi ffurfiol.
- Plant sy'n ymwneud â'r system gyfiawnder: Mae ymgysylltiad yn y system Cyfiawnder Ieuenctid yn gallu cymryd llawer o amser, ac mae adborth yn anodd ei sicrhau, yn dibynnu ar amseriad, perthnasoedd ac ystyriaethau diogelu.

**Cyswllt:** Emma McIntyre – emma.mcintyre@flintshire.gov.uk;
Ali Thomas – alison.jane.thomas@flintshire.gov.uk

## 10. Gwynedd

Awdurdod mawr gwledig ac arfordirol yw Gwynedd, sy'n cwmpasu Eryri a Phenrhyn Llŷn; mae nifer sylweddol o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg ac mae prifysgol yno.

- **Poblogaeth:** tua **119,173** (ganol 2024, pob oed)
- **Plant 0–15:** tua **13,877**
- **Amddifadedd:** Mae'n cynnwys ardaloedd difreintiedig ynysig, ond nid yw ymhlith yr ALlau sydd â'r cyfrannau uchaf.

### Trosolwg

Mae Cyngor Gwynedd wedi penodi Cydlynydd Cyfathrebu ac Ymgysylltu i arwain model newydd o gyfranogiad. Ar hyn o bryd, mae'r swydd yn gweithio gyda phobl ifanc rhwng 11 ac 25 oed.

### Strwythurau Cyfranogiad

Mae Llais Ni, Fforwm Ieuenctid y Gwasanaeth Ieuenctid, yn cwrdd â'r Rheolwr Gwasanaeth bob chwarter, ac yn cydweithio ar y tair prif flaenoriaeth.

Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid wedi gweithio gyda sawl ysgol a phartner i gynnal holiaduron, ac mae'r data'n cael ei rannu gyda'r fforwm. Dewiswyd y blaenoriaethau gan y bobl ifanc eu hunain – ac un ohonynt yw bwlio. Mae Llais Ni hefyd yn cydweithio â'r Rheolwr Gwasanaeth i ddatblygu strategaeth newydd ar gyfer y tair blynedd nesaf.

Mae Fforymau Ieuenctid Ysgolion Llais Ni newydd orffen etholiadau ar draws y sir, ac wedi cwrdd â'r Pennaeth Addysg, a fydd yn cwrdd â'r fforwm ysgolion bob chwarter. Mae'r fforwm hon yn gweithio ar gynllun ymgynghori ar hyn o bryd.

Er mwyn cryfhau cynhwysiant, mae Fforwm Gwasanaethau yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, fel bod yr holl wasanaethau neu sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl ifanc yn cael yr un cyfleoedd i gyfranogi a mynegi barn.

O'r tair fforwm a nodir uchod, bydd un Fforwm Cyngor Gwynedd yn cael ei ffurfio, gyda chynrychiolaeth o wahanol grwpiau ar draws y sir: Cyfranogiad ar waith. Bydd y fforwm ieuenctid yn cwrdd bob chwarter a byddant yn rhannu eu syniadau a'u hadborth ag uwch-arweinwyr..

### Gwreiddio Cyfranogiad a Hawliau Plant

Mae Gwynedd yn datblygu cyrsiau hyfforddi ar hawliau plant. Maent hefyd wedi derbyn hyfforddiant gan Swyddfa Comisiynydd y Plant i archwilio hawliau ac ymgorffori dull sy'n seiliedig ar hawliau.

Cynhaliwyd nifer o sesiynau hyrwyddo a chynyddu ymwybyddiaeth ar gyfer model cyfranogiad newydd Gwynedd, gan gynnwys, er enghraifft, y grŵp cydraddoldeb craidd. Mae uwch-reolwyr Cyngor Gwynedd, yn ogystal â'r ymgynghorwyr, yn cefnogi'r model hwn.

Mae gwasanaethau megis ysgolion, gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau ieuenctid yn gweithredu'n unol ag egwyddorion ymarfer Gwaith Ieuenctid, sy'n cynnwys cyfranogiad ac yn cefnogi modelau megis cynghorau ysgol, fforymau ieuenctid a sicrhau ein bod yn gwrando ar lais y person ifanc.

Mae gwybodaeth yn cael ei rhannu â phobl ifanc mor eang â phosibl; mae'r fforymau yn cael eu harwain gan bobl ifanc ac maent yn dal swyddi ffurfiol – gan gynnwys Swyddog Cyfathrebu – drwy brosesau ethol y grwpiau. Darperir diweddariadau misol drwy sianeli cyfryngau cymdeithasol y Gwasanaeth Ieuenctid, a bwriedir gwneud gwybodaeth ar gael ar y wefan hefyd. Pobl ifanc eu hunain sy'n arwain ac yn llunio'r gwaith, gan adlewyrchu ethos o "fe ddwedsoch chi, ac fe

wnaethon ni gydweithio"; nod hyn yw sicrhau bod pobl ifanc yn gallu gweld sut mae eu barn a'u cyfraniadau yn dylanwadu ar flaenoriaethau, gweithgareddau a'r broses o wneud penderfyniadau.

### Uchafbwyntiau Arfer Da

- Mae gwaith wedi'i wneud gyda disgyblion mewn ysgolion i lywio datblygiad y fforwm newydd, gan gynnwys ymgysylltu â dysgwyr ym Mlynyddoedd 10 ac 11 i ddeall yn well eu profiadau o'r ysgol. Mae darparu cyfleoedd i bobl ifanc rannu eu barn yn uniongyrchol wedi bod yn werthfawr wrth lunio'r ddarpariaeth a'r broses o wneud penderfyniadau. Mae pobl ifanc hefyd wedi cymryd rhan mewn prosesau recriwtio, gan gynnwys cyfweliadau ar gyfer swyddi uwch-reoli, rhywbeth a ystyrir yn ffactor sy'n cyfrannu at benderfyniadau mwy gwybodus.
- Mae barn pobl ifanc yn cael ei chasglu drwy'r Gwasanaeth Ieuenctid ac amrywiaeth o weithgareddau ymgysylltu ehangach. Mae hyn yn cynnwys gwaith gyda phlant a phobl ifanc sy'n sâl neu ag anableddau, yn ogystal â'r sawl sy'n profi digartrefedd, ar draws gwahanol ardaloedd daearyddol.
- Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, bu datblygiad sylweddol o fewn gwasanaethau awtistiaeth, gyda phlant a phobl ifanc yn chwarae rhan ganolog wrth greu ap 'Niwro'.
- Mae gwaith partneriaeth hefyd wedi digwydd gyda Action for Children, gofalwyr a gofalwyr ifanc i ddatblygu ap AIDI. Roedd hyn yn cynnwys archwilio'r ffactorau sy'n gwneud gwahaniaeth cadarnhaol ym mywydau gofalwyr ifanc, yn ogystal â'r heriau sy'n gysylltiedig â chyfrifoldebau gofalu. Fel rhan o'r gwaith hwn, cyflwynwyd a hyrwyddwyd Cerdyn Adnabod Gofalwyr Ifanc, sy'n galluogi gofalwyr ifanc i gyfleu anghenion cymorth ychwanegol mewn lleoliadau addysgol.
- Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn mabwysiadu dull ymatebol sy'n cael ei arwain gan farn a blaenoriaethau pobl ifanc. Er enghraifft, lle mae pobl ifanc wedi nodi iechyd meddwl fel blaenoriaeth, mae fforymau sy'n canolbwyntio ar les wedi'u datblygu i ymateb i hynny. Mae adborth gan bobl ifanc hefyd wedi tynnu sylw at bwysigrwydd cyfleoedd anffurfiol i gwrdd, cymdeithasu a threulio amser mewn amgylchedd diogel, gan arwain gwasanaethau i addasu eu cynnig yn unol â hynny.
- Bydd gwaith yn y dyfodol yn cael ei arwain gan Fodel Cyfranogiad Lundy, gyda gwaith adolygu a gwerthuso parhaus yn rhan annatod o'r dull gweithredu. Bydd hyn yn cynnwys adborth uniongyrchol gan bobl ifanc ar wasanaethau a darpariaeth. Er na ellir gweithredu pob cais o reidrwydd, ystyrir bod darparu esboniadau clir a dangos sut y mae barn wedi'i hystyried yn agwedd bwysig ar gyfranogiad ystyrlon.
- Mae'r gwasanaeth yn aelod gweithredol o Rwydwaith Gweithwyr Cyfranogiad Cymru Gyfan ac yn cydweithio â swyddogion cyfranogiad ar draws Gogledd Cymru, yn enwedig drwy rwydweithiau rhanbarthol. Mae hefyd yn cymryd rhan mewn mentrau cyfranogiad cenedlaethol, gan gynnwys ymgysylltu â phrosiect Taith a chymryd rhan arfaethedig mewn ymweliad â Chroatia fel rhan o'r rhaglen hon.

### Heriau/Rhwystrau

- Mae gwaith wedi'i fapio ar draws amrywiaeth o weithgareddau ac mae nifer o rwystrau wedi'u nodi. Mewn ymateb, mae model cyfranogiad newydd yn cael ei roi ar waith, sydd wedi'i gynllunio i ddarparu dull cynaliadwy a chynhwysol o ymgysylltu â phlant a phobl ifanc.
- Mae heriau wedi cynnwys cyfyngiadau o ran capasiti a chyllid. Fodd bynnag, mae ymdrechion wedi'u gwneud i nodi atebion a datblygu model cyfranogiad sy'n gynaliadwy ac yn gallu cefnogi ymgysylltiad ystyrlon yn y tymor hir.

- Un o'r prif heriau fu sicrhau bod lleisiau cynifer o grwpiau o blant a phobl ifanc â phosibl yn cael eu clywed. Mae ystod eang o sefydliadau a grwpiau eisoes yn gwneud gwaith ymgysylltu gwerthfawr, gan gynnwys sefydliadau sefydledig yn y trydydd sector fel Gisda. Nid diffyg gweithgaredd sy'n bennaf gyfrifol am yr her, ond yn hytrach yr angen i gydlynu'r ymdrechion hyn yn effeithiol, dwyn gwybodaeth ynghyd, ac osgoi dulliau gweithio ar wahân (neu mewn 'seilos').
- Nodwyd y gallai rôl y Panel Corfforaethol o fewn y strwythur cyfranogiad cyffredinol fod angen ystyriaeth bellach wrth i'r trefniadau barhau i ddatblygu.
- Mae ymgysylltu â phobl ifanc rhwng 11 ac 25 oed yn cyflwyno heriau unigryw. Er bod cyfranogiad gan grwpiau oedran iau, yn enwedig y rhai rhwng 11 ac 16 oed, yn gryf ar y cyfan, bu llai o ymgysylltu gan bobl ifanc hŷn.
- Gall natur ddaearyddol Gwynedd hefyd greu rhwystrau i gyfranogiad. Gall fod yn anodd dod â phobl ifanc o bob rhan o'r sir at ei gilydd, ac er bod technoleg ddigidol yn cynnig cyfleoedd i ymgysylltu, nid yw bob amser yn cael ei hystyried yn ddewis arall cyflawn yn lle rhyngweithio wyneb yn wyneb.
- Nodwyd y gall cael gwybodaeth gyson gan ysgolion fod yn heriol weithiau, rhywbeth a allai effeithio ar gyflawnrwydd y darlun cyffredinol sydd ar gael ar lefel yr awdurdod lleol. Gall amrywiaeth o ffactorau ddylanwadu ar ddulliau ysgolion o gasglu a rhannu gwybodaeth, gan gynnwys blaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd ac ystyriaethau ynghylch trin data a gofynion adrodd. Er bod llawer o ysgolion yn ymgysylltu'n gadarnhaol, gall amrywiadau mewn cyfranogiad ei gwneud yn anoddach nodi tueddiadau, deall profiadau'n gyson ar draws lleoliadau, a thargedu cymorth lle gallai fod ei angen.

**Cyswllt:** Nia Owen – niaowen@gwynedd.llyw.cymru;
Steffan Williams – steffanllyrwilliams@gwynedd.llyw.cymru

## 11. Ynys Môn

Mae gan awdurdod Ynys Môn broffil arfordirol a gwledig; mae'r prif drefi yn cynnwys Caergybi a Llangefni.

- **Poblogaeth:** tua **69,291** (ganol 2024, pob oed)
- **Plant 0–15:** tua **8,712**
- **Amddifadedd:** Mae'n cynnwys nifer bach o ardaloedd yn y 10% mwyaf difreintiedig, sy'n cyd-fynd â'r dosbarthiad cenedlaethol (mae gan bob ALl ond un o leiaf un o'r rhain).

### Trosolwg

Mae gan yr awdurdod cyfan rôl i'w chwarae yn y maes hwn, ond ar hyn o bryd Rheolwr Uwch Iechyd, Llesiant a Diogelu yn y Gwasanaeth Dysgu sy'n arwain y gwaith hwn.

Rheolwr y Gwasanaeth Diogelu a Sicrhau Ansawdd sy'n gyfrifol am sicrhau bod plant mewn gofal a phlant ar y gofrestr amddiffyn plant yn cael cynnig eiriolaeth fel rhan o'r gwasanaeth, er mwyn sicrhau bod eu llais a'u barn yn cael eu cynnwys mewn cynlluniau diogelu plant/gofal etc. Mae llais ein plant mewn gofal hefyd yn cael ei gynnwys yn ein trefniadau panel rhieni corfforaethol. Mae hyn yn cynnwys plant ag anableddau.

O fewn y Gwasanaeth Ieuenctid – Cyfranogiad yw un o'r meysydd gwaith sy'n rhan o fframwaith y Gwasanaeth Ieuenctid, ac er bod llais a barn pobl ifanc yn cael eu cynnwys, yn dilyn archwiliad mewnol/ailstrwythuro mae'n faes sy'n cael ei ddatblygu, gan gynnwys edrych ar gyflogi pobl ifanc yng nghyd-destun prentisiaethau.

### Strwythurau Cyfranogiad

Mae llawer o waith wedi digwydd i geisio gwreiddio cyfranogiad plant yn ein gwaith, ond ar hyn o bryd mae Ynys Môn ar daith i gryfhau'r gwaith hwn. Mae enghreifftiau pendant ers y Pandemig megis ailsefydlu Fforwm Plant a Phobl Ifanc Môn (sy'n cwmpasu rhai 8-18 oed), a gweithio gydag e.e. Medrwn Môn ar brosiectau sy'n annog plant a phobl ifanc i wneud cais am grantiau yn y gymuned leol.

Bob blwyddyn yn y tymor newydd mae ysgolion yn ethol Cyngor Ysgol, sydd wedyn yn arwain at sefydlu Cyngor Ardal Ddalgylch, ac ar sail hynny sefydlir Fforwm Plant a Phobl Ifanc Môn, sy'n cefnogi plant a phobl ifanc 6-18 oed.

Mae llawer o gyfleoedd i gyfranogi ar yr ynys, megis Ffermwyr Ifanc, yr Urdd, Môn Actif, y Gwasanaeth Ieuenctid, Medrwn Môn etc.

Mae'r ddarpariaeth gwaith ieuenctid bellach yn ddarpariaeth 52 wythnos. Pan oedd yn rhan o'r gwasanaeth addysg, roedd ar gael yn ystod y tymor yn unig. Pan symudodd i'r gwasanaethau plant fe'i newidiwyd yn ddarpariaeth 52 wythnos, ac mae gweithiwr ieuenctid ym mhob ysgol uwchradd.

O bersbectif y Gwasanaeth Ieuenctid mae eu safbwyntiau'n cael eu casglu fel rhan o unrhyw ymgynghoriad / newid.

Bwriad y gwasanaeth plant a theuluoedd yw bod plant sydd mewn gofal yn rhan o banel recriwtio ar gyfer gweithwyr cymdeithasol yn y dyfodol agos.

### Gwreiddio Cyfranogiad a Hawliau Plant

Mae Barnardos yn cyflwyno hyfforddiant ar hawliau a chyfranogiad, ac mae staff yn cael eu hannog i'w fynychu. Oddi mewn i ofal cymdeithasol mae'r tîm ar gyfer plant a theuluoedd yn bwriadu cynnal sesiynau hyfforddi i'n plant mewn gofal er mwyn creu panel cyfranogiad, ac mae staff gwasanaethau cymdeithasol wedi derbyn hyfforddiant Gwybodus am Drawma, sy'n sicrhau ein bod yn gwrando ar lais y plant a'r bobl ifanc.

Mae'r disgyblion sy'n rhan o Fforwm Plant a Phobl Ifanc Môn wedi bod yn rhan o'r trafodaethau yn ystod y blynyddoedd diwethaf ynghylch y canlynol; ymgynghori ar gyllideb y cyngor, ymgynghori ar chwarae, ymgynghori ar y strategaeth gydraddoldeb.

Mae cynghorau ysgol yn creu cyfleoedd i gasglu barn a phrofiadau plant a phobl ifanc, a bu rhai ohonynt yn rhan o'r cyfweliad i benodi Pennaeth newydd.

Gweithwyr ieuenctid ym mhob ysgol uwchradd.

Oddi mewn i'r clybiau ieuenctid mae pobl ifanc yn llywio rhaglen dymhorol y clwb, ac yn cael mewnbwn pwysig – fel arall ni fydd y clybiau'n llwyddo.

Hefyd o ran y prosiectau haf mae'r adran yn eu cynnig mae mewnbwn gan bobl ifanc, gyda staff yn gofyn beth hoffen nhw fod yn rhan ohono / pa sgiliau newydd hoffen nhw ddatblygu, er mwyn creu rhaglen ar gyfer yr haf gyda'r bobl ifanc.

Mae cyfleoedd i gasglu barn a phrofiadau plant a phobl ifanc yn cael eu rhannu ag ysgolion wrth iddynt godi. Anogir ysgolion hefyd i gymryd rhan mewn gweithgareddau ymchwil ac ymgynghori ehangach, gan gynnwys mentrau fel holiaduron chwaraeon ysgol ac arolwg y School Health Research Network (SHRN), er mwyn cryfhau'r ddealltwriaeth o safbwyntiau a phrofiadau pobl ifanc.

**Uchafbwyntiau Arfer Da**

- Mae'r Fforwm Plant a Phobl Ifanc wedi bod yn rhan o ymgynghoriad ar y gyllideb, yn ogystal â bod yn rhan o Bolisïau drafft etc.
- Sefydlwyd BPRh Plant 3 blynedd yn ôl
- Mae rheolwr y Gwasanaeth Ieuenctid yn rheolwr prosiect Meddwl Ymlaen / Thinking Forward mewn partneriaeth â Barnardos, CAMHS a Gwasanaeth Ieuenctid Gwynedd. Mae'r prosiect yn cynnwys arweinwyr ifanc ar draws y ddwy sir sy'n cydweithio â phobl ifanc eraill i gasglu eu llais a'u barn ar wahanol eitemau. Un enghraifft yw prosiect yn Ysgol Uwchradd David Hughes – arweinwyr ifanc yn datblygu polisi gwrthfwlio gyda phobl ifanc yn yr Ysgol a datblygir y polisi hwn o fewn yr Ysgol ym mis Medi 2025.
- Mae Cynghorau Ysgol wedi bod yn rhan o'r broses recriwtio ar gyfer Pennaeth Newydd.
- Mae gwaith da wedi digwydd i fynd i'r afael â sefyllfa bryderus "fêps" mewn Ysgolion Uwchradd. Trefnwyd a sefydlwyd sesiwn holi ac ateb yn yr Ysgolion Uwchradd, yn ogystal â holiadur ar linell bêl-droed, y bu bron 1000 o ddisgyblion yn rhan ohono.
- Disgrifiwyd Menter Môn fel sefydliad sy'n gwneud gwaith rhagorol yn y maes hwn. Mae'r strwythur cyfranogiad wedi'i ailgynllunio'n ddiweddar, gyda Chynghorau Ysgol yn cael eu trefnu drwy bedwar ardal ddal yr Ynys, a phob un â'i gyngor ei hun. Mae'r rhain yn bwydo i mewn i Fforwm Plant a Phobl Ifanc ehangach, sy'n cyfarfod pedair gwaith y flwyddyn.
- Mae gan y gwasanaethau ieuenctid lawer o staff profiadol gydag 800 o blant yn rhan o hynny ar unrhyw adeg benodol; gallwn ni fanteisio ar hynny ar unrhyw adeg, maen nhw'n ymgysylltu'n wych â'r Ysgolion Bro a'r ysgolion iach.
- Caffi coffi – gweithiwyd gyda busnes lleol i'w agor yn hwyrach fel canolfan ieuenctid, mewn ymateb i bobl ifanc yng Nghaergybi'n dweud bod ganddyn nhw ddim i'w wneud. Mae'r Caffi yn cynnig Wifi am ddim. Roedd modd i ni lunio rhywbeth penodol ar eu cyfer trwy waith gwybodus am drawma. Defnyddio'r Gronfa Ffyniant Gyffredin i helpu.
- Fel rhieni corfforaethol mae panel rhianta corfforaethol sy'n gwahodd pobl ifanc i rannu eu profiadau gyda phanel yn hytrach na'u bod yn eistedd ar banel sydd allan o'u cyrraedd. Cynigir lleoliad chwe wythnos i bobl ifanc sydd â phrofiad o leoliadau gofal. Daeth saith person ifanc eleni, ac mae pump bellach mewn cyflogaeth.
- Sefydlwyd grŵp ieuenctid i ddileu stigma i LHDTC+ ar ôl Covid – lle diogel iddyn nhw. Mannau poblogaidd iawn mewn ysgolion.
- Lluniwyd model gweithredu ein hun i gefnogi'r gymuned teithwyr sy'n ymweld â'r ynys, fel arfer yn ystod yr haf.

**Heriau/Rhwystrau**

- Oherwydd bod cynrychiolwyr cynghorau ysgol yn cael eu hailethol bob blwyddyn, mae hon yn her flynyddol, ac mae angen amser i ymsefydlu.
- Gall diffyg capasiti fod yn her, gan nad yw'r gwaith hwn yn ffocws penodol i waith unrhyw unigolyn.
- Er bod llawer o gyfleoedd i gyfranogi ar yr ynys gyda'r Ffermwyr Ifanc, yr Urdd, Môn Actif, y Gwasanaeth Ieuenctid, Medrwn Môn etc. yn creu cyfleoedd, does dim digon o adnoddau i gydweithio ar brydiau.

- Addysg gartref – codwyd pryderon ynghylch trefniadau addysg gartref, a mynegwyd y farn nad yw'r prosesau statudol presennol yn addas at y diben. Awgrymwyd y dylid ystyried dull mwy cadarn, gan gynnwys ymgysylltu'n uniongyrchol â phob plentyn drwy ymweliadau sy'n cynnwys gweithwyr proffesiynol ym meysydd addysg a gofal cymdeithasol.

**Cyswllt:** Gerallt Roberts – GeralltRoberts@ynysmon.llyw.cymru

## 12. Merthyr Tydfil

Dyma un o'r ALlau lleiaf yng Nghymru; mae'n awdurdod yn y Cymoedd a nodweddir yn ddaearyddol gan ddyffrynnoedd serth ac anheddiad trefol wedi'i ganoli ym Merthyr.

- **Poblogaeth:** tua **58,593** (ganol 2024, pob oed)
- **Plant 0–15:** tua **7,982**
- **Amddifadedd:** Un o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru; mae sawl ardal gynnyrch ehangach haen is (LSOA) ymhlith y 10% mwyaf difreintiedig. (patrwm sy'n nodweddu Cymoedd De Cymru.)

### Trosolwg

Mae'r Awdurdod Lleol yn darparu cyllid ar gyfer cyfranogiad y grŵp oedran 11-25 oed i'r Gwasanaeth Ieuenctid sy'n comisiynu sefydliad trydydd sector lleol o'r enw Merthyr Tydfil Mwy Diogel. Drwy'r dull gweithredu hwn, mae'r awdurdod lleol yn rhoi cyfle i leisiau annibynnol pobl ifanc gael gwrandawiad trwy'r Fforwm Ieuenctid ar gyfer Bwrdeistref Gyfan Merthyr Tydfil (MTBWYF), ochr yn ochr â swyddi'r Maer Ieuenctid a'r Dirprwy Faer Ieuenctid a'r Cabinet Ieuenctid. Bu'r dull hwn yn fodd i bobl ifanc ymgysylltu â'r broses gwneud penderfyniadau ar eu telerau eu hunain, siarad yn annibynnol a herio'r awdurdod lleol lle gwelir bod hynny'n briodol. Hefyd, mae'n grymuso pobl ifanc i lunio eu hagenda eu hunain bob blwyddyn wrth ddatblygu eu rhaglen waith.

### Strwythurau Cyfranogiad

Anogir adrannau'r Cyngor a phartneriaid allanol i weithio gyda'r Fforwm Ieuenctid ar gyfer Bwrdeistref Gyfan Merthyr Tydfil. Ond nid yw hynny'n dileu cyfrifoldeb pob maes gwasanaeth dros sicrhau bod cyfranogiad a chydgynhyrchu yn cael eu hyrwyddo ym mlaenoriaethau eu gwasanaeth eu hunain yn unol â Strategaeth Cyfranogiad y cyngor.

Cysylltir yn uniongyrchol â phlant a phobl ifanc trwy brosiectau dan arweiniad pobl ifanc, holiaduron ar-lein, grwpiau ffocws yn yr ysgolion, mewn clybiau ieuenctid ac yn y gymuned. Hefyd, cesglir barn uniongyrchol y Cabinet Ieuenctid/MTBWYF, a'r cynghorau ysgol. Cynhelir ymgyngoriadau cyhoeddus yng nghanol trefi ar faterion allweddol y cyngor, megis pennu'r gyllideb.

Mae gan y Fforwm Ieuenctid ar gyfer Bwrdeistref Gyfan Merthyr Tydfil (MTBWYF) aelodaeth gynhwysol a chofnodir proffil demograffig ei aelodau fel bod modd i'r bobl ifanc ystyried safbwyntiau grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol. Ymgorfforwyd hynny hefyd mewn dulliau casglu data sy'n gysylltiedig â dulliau cyfranogi ac ymgysylltu, e.e. grwpiau ffocws, arolygon barn ac ati.

Fel y soniwyd eisoes, mae hyfforddiant ac ymarfer y staff yn sicrhau bod anghenion plant a phobl ifanc yn cael eu cymryd i ystyriaeth.

## Gwreiddio Cyfranogiad a Hawliau Plant

Rhaid i unrhyw adran yn y cyngor sy'n argymell newid gwasanaethau gyflwyno asesiad effaith integredig i'r aelodau etholedig er mwyn llywio eu penderfyniad. Mae hynny'n golygu bod angen cadarnhau canlyniadau ymgyngoriadau â'r aelodau o'r gymuned yr effeithir arnyn nhw, yn enwedig y rheiny sy'n perthyn i grwpiau dan anfantais – gan gynnwys plant a phobl ifanc.

Mae gofyn i bob cyfarwyddiaeth ar draws yr awdurdod lleol gynnal hunanwerthusiad a dangos, fel rhan allweddol o hynny, sut buon nhw'n sicrhau bod y gymuned yn rhan o ymgyngoriadau perthnasol yn unol â strategaeth cyfranogiad y cyngor, sy'n cryfhau cyfrifoldeb ac atebolrwydd unigol dros gyfranogiad ar draws y cyngor.

Cynigir hyfforddiant Yr Hyn sydd gan Bobl Ifanc i'w Ddweud/Young People Say i staff adrannau mewnol a phartneriaid allanol. Mae hyn yn digwydd trwy'r contract cyfranogiad a gomisiynwyd gyda Merthyr Tydfil Mwy Diogel.  Datblygir a chyflwynir yr hyfforddiant hwn, sy'n seiliedig ar Erthygl 12 o CCUHP, gan yr aelodau o'r Cabinet Ieuenctid. Ym mis Ebrill 2025 cyflwynwyd yr hyfforddiant hwn i staff o 5 sefydliad gwahanol.

Ar ben hynny, mae rhai adrannau wedi defnyddio'r hyfforddiant rhanbarthol ar gydgynhyrchu i wella sut maen nhw'n cofnodi barn eu cynulleidfa darged, beth bynnag yw eu hoed, ac yn datblygu gwasanaethau mewn partneriaeth â defnyddwyr gwasanaeth a phartïon sydd â diddordeb.

Darparwyd hyfforddiant hawliau plant ar gyfer sector y blynyddoedd cynnar ar draws Merthyr Tydfil, gydag arsylwi lleisiau plant yn rhan o arolygiadau Arolygiaeth Gofal Cymru.

Caiff lleisiau plant a hawliau plant eu gwreiddio yng nghwricwlwm newydd y blynyddoedd cynnar. Cynhelir sesiwn flynyddol ar ymarfer adfyfyriol gyda phob darparwr blynyddoedd cynnar, lle treulir amser yn myfyrio ar berfformiad lleoliadau o gymharu â chanllawiau Estyn/Arolygiaeth Gofal Cymru ar hawliau plant.

## Uchafbwyntiau Arfer Da

Dyma rai enghreifftiau o gyfranogiad effeithiol:

- Ymgynghorwyd â phobl ifanc yn ystod cyfnod datblygu (1 flwyddyn) y prosiect Nadroedd ac Ysgolion a ariannwyd gan y Gronfa Loteri Fawr.  O ganlyniad i hynny, sefydlwyd paneli cynghori ieuenctid a datblygwyd themâu prosiect ar gyfer y cyfnod gweithredu. Y Maer Ieuenctid yw Cadeirydd Bwrdd Strategol Nadroedd ac Ysgolion.
- Bu pobl ifanc yn rhan o broses recriwtio a dethol yr awdurdod lleol ar gyfer gwasanaethau llinell flaen a'r lefel strategol, e.e. swydd y Prif Weithredwr, gwasanaethau plant ac ati. Yn ogystal, mae pobl ifanc yn cael eu cyfethol i rai o Bwyllgorau Craffu y cyngor fel y disgrifiwyd yn Strategaeth Cyfranogiad 2023-28 y cyngor.
- Ar lefel ranbarthol, bu Tîm Iechyd y Cyhoedd Cwm Taf Morgannwg yn ymgynghori yn ddiweddar â'r Fforwm Ieuenctid ynghylch y Gwasanaeth Nyrsio mewn Ysgolion. O ganlyniad mae dwy ysgol uwchradd leol yn derbyn cefnogaeth Nyrs Ysgol unwaith eto ac mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud gwaith pellach er mwyn recriwtio i'r ysgolion eraill.
- Gan weithio gyda'r Adran Addysg a Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg, mae pobl ifanc o MTBWYF a phrosiect Nadroedd ac Ysgolion wedi cydgynhyrchu fideo addas i ieuenctid ynghylch diogelu, sy'n canolbwyntio ar sut i wneud atgyfeiriad diogelu. Dangoswyd y fideo yn ystod yr Wythnos Ddiogelu ym mis Tachwedd 2023. Mae'r gwaith yn parhau gan fod pobl ifanc yn ymwneud â datblygu adnoddau i gyd-fynd â'r fideo.

- Er mwyn datblygu ymgysylltiad pobl ifanc â democratiaeth, cynhelir hystingau blynyddol a phleidlais ar gyfer swydd y Maer Ieuenctid, gydag oddeutu 2600 -2800 o bobl ifanc yn cymryd rhan bob blwyddyn. Cefnogir y broses hon gan gydweithwyr o'r Gwasanaethau Democrataidd.
- Treialwyd cyfleoedd i bobl ifanc gadeirio eu Hadolygiadau Derbyn Gofal eu hunain ac mae'r gwaith hwn yn cael ei ddatblygu ymhellach er mwyn ei gyflwyno ar raddfa ehangach.

**Heriau/Rhwystrau**

- Y prif rwystr yw diffyg cyllid a diffyg cydnabyddiaeth o bwysigrwydd cyfranogiad gan Lywodraeth Cymru.
- Mae rhaglen Nadroedd ac Ysgolion yn enghraifft dda o sut gall partneriaeth strategol â phobl ifanc sicrhau adnoddau ychwanegol er mwyn gwrando ar bobl ifanc a datblygu a chyflawni ystod o brosiectau sy'n bwysig iddyn nhw. Heb gyllid y loteri genedlaethol i gefnogi'r rhaglen hon, ni fuasai'r gwaith hwn yn bosib.
- Y tu hwnt i strwythur ffurfiol cyfranogiad pobl ifanc, mae llawer o sefydliadau allanol yn gofyn i'r Gwasanaeth Ieuenctid hwyluso grwpiau o bobl ifanc i ymgynghori â nhw. Nid yw'r gwasanaeth yn gallu cefnogi hynny bob amser oherwydd capasiti staff y gwasanaeth ac mae pobl ifanc wedi dechrau sôn eu bod nhw'n blino ar ymgyngoriadau.
- Mae'r aelod o Senedd Ieuenctid y Deyrnas Unedig yn cael cymorth gan swyddog cyfranogiad Merthyr Tydfil Mwy Diogel. Fodd bynnag, mae'r costau uchel sy'n gysylltiedig â'r rôl hon bellach (teithio, aros dros nos, cynadleddau etc.) yn golygu bod pryderon ynghylch ei chynaliadwyedd.
- Mae presenoldeb yn y Fforwm Ieuenctid wedi bod yn anghyson ers y pandemig; ac mae'n fwy cymhleth oherwydd costau a logisteg cludo pobl ifanc i'r gweithgareddau hyn.

**Cyswllt:** Samantha Morgan – Samantha.morgan@merthyr.gov.uk

## 13. Sir Fynwy

Sir fawr wledig ar y ffin yw Sir Fynwy gyda threfi marchnad (y Fenni, Cas-gwent, Trefynwy); mae ganddi lefel golud uwch na'r cyfartaledd a phroffil oedran hŷn.

- **Poblogaeth:** tua **94,572** (ganol 2024, pob oed)
- **Plant 0–17:** tua **17,083**
- **Amddifadedd:** Yr **unig ALl yng Nghymru heb unrhyw ardaloedd yn y 10% mwyaf difreintiedig**, yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2025.

**Trosolwg**

Mae cyfranogiad yng Nghyngor Sir Fynwy wedi'i wreiddio'n gadarn mewn ymarfer gwaith ieuenctid, gyda'r Gwasanaeth Ieuenctid yn cyflawni rôl ganolog wrth alluogi plant a phobl ifanc i ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau. Deellir bod cyfranogiad a'r cyfrifoldeb drosto yn ymdrech ar y cyd, â chefnogaeth arweinyddiaeth strategol ym maes plant a phobl ifanc a chyflawniad gweithredol trwy'r gwasanaethau ieuenctid, ochr yn ochr â swyddogaethau cyfathrebu ac ymgysylltu.

Mae cyfranogiad yn rhan annatod o'r ddarpariaeth gyffredinol a'r ddarpariaeth benodol ar gyfer ieuenctid, gyda phrosesau ymgynghori blynyddol, megis Gwnewch Eich Marc a'r Gynhadledd Ieuenctid, yn fecanweithiau clir ar gyfer nodi blaenoriaethau a darparu gwybodaeth er mwyn cynllunio gwasanaethau. Gwelir hefyd fod yr awdurdod wedi ymrwymo i ddefnyddio tystiolaeth

o'r cyfranogiad i lywio polisi ac ymarfer ehangach, gan gynnwys addysg, llesiant, diogelwch cymunedol, a gwasanaethau cysylltiedig â thai.

## Strwythurau cyfranogiad a dulliau gweithredu

Arweinir seilwaith cyfranogiad craidd awdurdod Sir Fynwy trwy'r Gwasanaeth Ieuenctid, lle mae cyfranogiad yn llywio dyluniad, cyflwyniad ac adolygiadau o'r ddarpariaeth. Mae ymgynghoriad blynyddol Gwnewch Eich Marc, a'r Gynhadledd Ieuenctid ddilynol, sy'n rhan o gylch ymgysylltiad canolog Sir Fynwy, yn fodd i niferoedd mawr o bobl ifanc nodi blaenoriaethau a datblygu argymhellion ar gyfer gwasanaethau. Bu mwy na 3,500 o bobl ifanc yn cymryd rhan yn 2025, a ffocws y blaenoriaethau oedd costau byw, iechyd meddwl a thrafnidiaeth.

Ymgorfforir cyfranogiad hefyd trwy ystod o ddulliau gweithredu thematig a dulliau sy'n berthnasol i wasanaethau penodol. Mae hyn yn cynnwys defnyddio llais ieuenctid i lywio gwaith diogelwch cymunedol, ymgyngoriadau blynyddol ynghylch y gyllideb, asesiadau llesiant o dan fframwaith Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a gwerthusiadau gwasanaeth. Ym maes addysg, cofnodir llais y dysgwr trwy fecanweithiau yn yr ysgolion ac mewn gwaith clwstwr, gyda'r data o arolygon yn cael ei ddefnyddio ar y cyd i lywio cynlluniau cwricwlwm a phontio.

Mae cyfranogiad a dargedir yn amlwg mewn gwasanaethau arbenigol, megis Cwmpawd/Compass, y prosiect atal digartrefedd ymysg ieuenctid, lle mae pobl ifanc yn cyfrannu'n weithredol er mwyn llywio cynlluniau cymorth pwrpasol, adolygu'r ddarpariaeth, a chyfrannu at drafodaethau amlasiantaeth lle bo hynny'n briodol. Mae cyfranogiad hefyd yn rhan annatod o gynhwysiad, ADY a fforymau plant sydd â phrofiad o ofal, gan sicrhau bod lleisiau unigol a thorfol yn llywio arferion.

## Gwreiddio cyfranogiad a hawliau plant

Mae cyfranogiad plant yn un o egwyddorion craidd gwaith ieuenctid yn Sir Fynwy, ac mae'n cael ei gryfhau fwyfwy ar draws swyddogaethau ehangach y cyngor. Aed ati i gynyddu ymwybyddiaeth o gyfranogiad a'i bwysigrwydd gyda gweithwyr proffesiynol a'r aelodau etholedig trwy gyfarfodydd rheolwyr, fforymau, a digwyddiadau, ochr yn ochr ag ymgysylltiad ysgolion a staff addysg.

Mae'r awdurdod yn defnyddio adnoddau cyfranogiad a setiau data cenedlaethol, gan gynnwys y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion a Gwnewch Eich Marc, i lywio'i waith cynllunio ac adolygu. Mae pwyslais clir ar ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ym maes ADY a chynhwysiad, gyda llais y dysgwr yn dod yn rhan annatod o Gynlluniau Datblygu Unigol, y proffiliau un dudalen, a'r hyfforddiant ar gyfer ysgolion a gweithwyr cymdeithasol.

Mae awdurdod Sir Fynwy wedi nodi bod angen cryfhau cyfranogiad ymhellach yn ei fframwaith polisi ac mae'n archwilio sut gall egwyddorion cyfranogiad lywio ymarfer mewn modd mwy cyson yn y dyfodol ar draws gwasanaethau.

## Uchafbwyntiau Arfer Da

Mae'r model Gwnewch Eich Marc a'r Gynhadledd Ieuenctid yn Sir Fynwy yn enghreifftiau o ymarfer cadarn o ran cyfranogiad ystyrlon ar raddfa eang, gyda chysylltiadau clir rhwng ymgynghori, pennu blaenoriaethau ac ymateb gwasanaethau. Mae'r awdurdod yn rhoi adborth i'r bobl ifanc am flaenoriaethau a chamau gweithredu blaenorol, sydd o gymorth i atgyfnerthu ymddiriedaeth ac atebolrwydd.

Mae integreiddio cyfranogiad mewn gwasanaethau arbenigol, megis Cwmpawd/Compass, yn enghraifft o arfer da sy'n sicrhau bod lleisiau pobl ifanc yn llywio cymorth unigol ac yn dylanwadu ar ymateb y system ehangach. Mae cyfranogiad mewn asesiadau llesiant a gwaith diogelwch cymunedol yn amlygu sut defnyddir llais ieuenctid y tu hwnt i fforymau traddodiadol.

Gwelir cysylltiadau cryf ac amlwg rhwng cyfranogiad, cynhwysiad ac arfer seiliedig ar hawliau, yn enwedig ym maes ADY ac mewn gwaith sy'n canolbwyntio ar awtistiaeth, lle mae pobl ifanc yn cyfrannu at ddeunyddiau hyfforddi, ffilmiau a datblygu gwasanaethau.

**Rhwystrau a heriau**

Nododd awdurdod Sir Fynwy nifer o heriau strwythurol a chyd-destunol yng nghyswllt cyfranogiad:

- Daearyddiaeth y sir a'i natur wledig, sy'n ei gwneud yn anodd dod â phobl ifanc at ei gilydd yn gyson
- Cyfyngiadau o ran trafnidiaeth a chysylltedd digidol anghyson, yn enwedig mewn ardaloedd mwy anghysbell
- Anghydraddoldeb rhwng cymunedau cefnog a chymunedau difreintiedig, gydag ardaloedd bychain difreintiedig sy'n dwysáu rhwystrau i gyfranogiad
- Cyfyngiadau capasiti, yn enwedig mewn prosiectau arbenigol, megis Cwmpawd/ Compass, sy'n cyfyngu ar y gallu i ymestyn cyfranogiad y tu hwnt i weithgareddau'r llwyth achosion craidd
- Dolenni adborth, lle mae'r awdurdod yn cydnabod bod angen cryfhau dulliau o rannu canlyniadau'r cyfranogiad â phobl ifanc mewn modd cyson a hygyrch
- Gwelir bod yr heriau hyn yn rhai systemig ac nad ydynt yn adlewyrchu diffyg ymrwymiad i gyfranogiad.

**Cyswllt:** Josh Klein – joshklein@monmouthshire.gov.uk

## 14. Castell-nedd Port Talbot

Awdurdod arfordirol, diwydiannol yw Castell-nedd Port Talbot â threftadaeth bwysig o ran y diwydiant dur; mae'n cynnwys Cwm Afan a Chwm Nedd ac ucheldir gwledig sylweddol.

- **Poblogaeth:** tua **142,898** (ganol 2024, pob oed)
- **Plant 0–15:** tua **18,066**
- **Amddifadedd:** Mae nifer o ardaloedd yn y 10% mwyaf difreintiedig, sy'n gyson ag awdurdodau'r Cymoedd ôl-ddiwydiannol.

**Trosolwg**

Mae swyddogion cyfranogiad yn gweithio ar draws amrywiol gyfarwyddiaethau'r awdurdod lleol, megis Addysg, y Gwasanaethau Cymdeithasol, a'r Gwasanaethau Corfforaethol. Cyfarwyddwr Strategaeth a Gwasanaethau Corfforaethol y Cyngor sy'n goruchwylio ymgysylltiad corfforaethol ac yn cyd-gadeirio Grŵp Blaenoriaeth 4 Cynllun y Blynyddoedd Cynnar, Plant a Phobl Ifanc (CyBCPaPh).

Cynllun partneriaeth yw hwn, sy'n rhoi adroddiadau i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, lle mae'r adran Addysg yn bartner arweiniol sy'n cydgysylltu ac yn hwyluso'r pum ffrwd waith allweddol. Mae'r cynllun, a gafodd ei ddatblygu a'i lywio trwy ymgysylltiad helaeth â phlant a phobl ifanc a'u teuluoedd, yn pennu amcanion ar gyfer y Cyngor a'i bartneriaid i wella canlyniadau i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Mae Canlyniad Blaenoriaeth 4 yn canolbwyntio ar sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael gwrandawiad a chyfleoedd i gymryd rhan yn y gwaith o wneud penderfyniadau –

bydd hefyd yn hwyluso ymgysylltiad plant a phobl ifanc ar draws y pedair blaenoriaeth arall yn y cynllun. Ar hyd oes y Cynllun (2024-2029), Grŵp Blaenoriaeth 4 fydd y grŵp arweiniol ar gyfer cyfranogiad ar ran y Cyngor a'i bartneriaid.

Mae ffocws a phroffil cyfranogiad wedi cynyddu yn sgîl cynnwys Blaenoriaeth 4 yng Nghynllun y Blynyddoedd Cynnar, Plant a Phobl Ifanc, ac mae unrhyw gynnydd yn ffurfio rhan o'r adroddiadau i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae'n ddyddiau cynnar ar y cynllun pum mlynedd ond gwelwyd twf sylweddol eisoes. Mae awdurdod Castell-nedd Port Talbot yn gyd-gadeirydd â chyrff eraill megis Bwrdd Iechyd Bae Abertawe a Grŵp Coleg Castell-nedd Port Talbot, er mwyn rhannu gwybodaeth ac osgoi dyblygu gwaith.

**Strwythurau Cyfranogiad**

Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn cefnogi Cyngor Ieuenctid sy'n cynnwys 40 o bobl ifanc – 4 sedd i bob ysgol, gan gynnwys plant y lluoedd arfog, aelodau o'r gymuned LHDTC, pobl ifanc ag ADY, mamau ifanc, gofalwyr ifanc, pobl ifanc o leiafrifoedd ethnig a chynrychiolwyr o'r gwasanaeth dysgwyr agored i niwed. Mae'r bobl ifanc yn perthyn i'r Cyngor Ieuenctid am ddwy flynedd ond bydd rhai yn cadw eu seddi er mwyn helpu'r aelodau newydd i ddysgu sut mae'r Cyngor yn gweithio.

Mae gan y Cyngor Ieuenctid hefyd gynrychiolydd ar Senedd Ieuenctid Prydain, dwy sedd ar gyfer aelodau Senedd Ieuenctid Cymru, Maer Ieuenctid a Dirprwy Faer Ieuenctid ynghyd â rôl Llysgennad y Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig a Llysgennad yr Amgylchedd.

Mae gan y Gwasanaethau Cymdeithasol Plant strwythur i sicrhau cyfranogiad plant sydd wedi hen ennill ei blwyf, er enghraifft darpariaeth YoVo (Mae dy Lais yn Bwysig) i bobl ifanc â phrofiad o ofal a Grŵp Hawliau Merched HOPE, sydd wedi cefnogi eu cyfraniad at waith cynllunio ac adolygu gwasanaethau. Hefyd, bu'r grwpiau hyn yn rhan o waith i gynyddu ymwybyddiaeth ar lefel genedlaethol ac i sicrhau bod lleisiau pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yn cael eu clywed.

Yn ogystal, mae rhaglen waith yn cael ei datblygu gydag ysgolion cynradd er mwyn ymgysylltu â'r garfan hon.

**Gwreiddio Hawliau Plant**

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r awdurdod wedi hwyluso hyfforddiant ar gyfer aelodau'r Cyngor Ieuenctid sy'n canolbwyntio ar rôl y Cyngor Ieuenctid a CCUHP. Datblygwyd hyfforddiant i gefnogi cyflwyno Strategaeth y Cyngor ar gyfer Cyfranogiad ac Ymgysylltiad Plant a Phobl Ifanc, o dan arweiniad yr adran Addysg. Cyflwynir y Strategaeth yn rhan o gynllun gweithredu Grŵp Blaenoriaeth 4 a rhagwelir cynnydd ar y mater hwn yn y misoedd sydd i ddod.

Mae Cynllun y Blynyddoedd Cynnar, Plant a Phobl Ifanc hefyd yn cydnabod pwysigrwydd meithrin gallu plant a phobl ifanc i gyfranogi, ynghyd â meithrin capasiti'r gweithlu, gan sicrhau bod y sgiliau angenrheidiol ganddynt i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc. Mae sefydliadau allanol, megis Plant yng Nghymru a'r Uned Hawliau Plant, wedi cyflwyno hyfforddiant cyfranogi ar ran yr awdurdod yn y gorffennol.

Cynllun y Blynyddoedd Cynnar, Plant a Phobl Ifanc a Strategaeth Cyfranogiad ac Ymgysylltiad Plant a Phobl Ifanc fydd y mecanwaith i gyflawni'r gwaith hwn ac i gydgysylltu ymhellach y gwaith sydd eisoes yn digwydd yn y maes hwn. Mae'r Cynllun yn darparu strwythur llywodraethu a fydd yn sicrhau bod heriau ymgorffori cyfranogiad plant yn gallu derbyn sylw.

**Uchafbwyntiau Arfer Da**

- Cynhelir ymgynghoriad ar draws y sir ddwywaith y flwyddyn trwy'r Cyngor Ieuenctid, sef arolwg Newid yn Cychwyn Gyda Chi. Mae'r broses hon, a ddatblygwyd gan bobl ifanc, yn cael ei hyrwyddo ym mhob ysgol uwchradd a'r clybiau ieuenctid yn y gymuned. Yn ogystal, targedir grwpiau penodol o bobl ifanc er mwyn sicrhau bod yr arolwg mor gynhwysol â phosib. Mae hyn yn cynnwys gofalwyr ifanc, pobl ifanc LHDTC+, pobl ifanc ag anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu, rhieni ifanc, pobl ifanc sy'n derbyn addysg yn y cartref, pobl ifanc 16+ nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, a phobl ifanc a gyfeiriwyd at y gwasanaeth ieuenctid am fod angen cymorth gwaith ieuenctid arnyn nhw.
- Mae'r awdurdod lleol wedi ymrwymo i gyfranogiad pobl ifanc ar bob lefel. Yn ogystal â chymorth swyddog i hwyluso ystod o weithgareddau cyfranogi, mae'r Cyngor Ieuenctid yn cyfarfod bob chwarter â Chabinet y Cyngor ac yn cyfarfod yn rheolaidd ag Aelodau'r Cabinet a'r Uwch-dîm Arwain.
- Cynhelir ystod o weithgareddau ymgysylltu wyneb yn wyneb yn ôl y gofyn er mwyn llywio penderfyniadau penodol, megis datblygu meysydd chwarae a datblygu canolfan alwedigaethol newydd.  Yn aml, cânt eu datblygu gyda chymorth ysgolion lleol, a'u teilwra i fodloni anghenion y bobl ifanc dan sylw.
- Mae'r grwpiau Gwasanaethau Cymdeithasol Plant, yn cynnwys Grŵp Hawliau Merched HOPE, wedi cefnogi cyfraniad plant a phobl ifanc wrth gynllunio ac adolygu gwasanaethau. Buon nhw hefyd yn cynyddu ymwybyddiaeth ar lefel genedlaethol ac yn sicrhau bod lleisiau pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yn cael eu clywed – gweler yma. Caiff gweithwyr cymdeithasol eu recriwtio gyda grŵp HOPE yn helpu i'w hyfforddi a'u haddysgu.
- Mae mecanwaith ymgysylltu digidol o'r enw 'Dweud eich Dweud' a gyflwynir trwy Microsoft Teams, yn dechrau cael ei gyflwyno er mwyn caniatáu i ni estyn allan i grwpiau o ddisgyblion ysgol gynradd er mwyn deall eu barn am gyflwyno a chynllunio gwasanaethau. Mae cwestiynau'n cael eu postio ar Teams bob mis ac mae modd i blant recordio fideos i rannu eu meddyliau a'u barn ar y mater.

**Heriau/Rhwystrau**

- Mae amserlenni llunio penderfyniadau yn gallu golygu bod cyfranogi ac ymgysylltu'n ystyrlon ar rai materion yn anodd.  Hefyd, gall gymryd amser hir i roi camau gweithredu ar waith a chyflwyno newidiadau ac mae'n bosib na fydd y bobl ifanc a fu'n rhan o'r gweithgareddau cyfranogi yn gweld y canlyniadau hynny
- Mae ymgysylltu yn dod yn fwy heriol gan fod pobl ifanc yn llai awyddus i eistedd mewn cyfarfodydd, ac yn amharod i ymuno â'r cyngor. Gwelwyd diffyg diddordeb a dyhead ymhlith pobl ifanc.
- Mae'n anoddach cael hyd i bobl sy'n fodlon siarad yn agored, mae defnyddio grwpiau sydd eisoes wedi'u sefydlu yn dod yn ddewis haws.
- Mae mwy o rwystrau i bobl ifanc sydd â phrofiad o ofal – Nid oes gan bobl ifanc mewn gofal fawr o gynrychiolaeth – mae'n gallu mynd yn drech na nhw. Nid oes gan blant mewn gofal y sgiliau bywyd angenrheidiol, dechreuwyd darparu hyfforddiant i helpu â hynny.

- Mae'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol wedi colli eu ffordd; mae angen mwy o gyfeiriad a chefnogaeth er mwyn sicrhau bod y gwaith yn cyd-fynd â'r fframwaith ehangach.
- Mae'n cymryd amser i feithrin perthnasoedd effeithiol a chynaliadwy gydag ysgolion. Mae cydgysylltu'r gwaith hwn yn gallu bod yn heriol oherwydd mae angen creu amser a'r gallu i gyflawni hynny. Mae sgyrsiau yng nghyfarfodydd Grŵp Blaenoriaeth 4 wedi amlygu bod angen capasiti ychwanegol er mwyn cydgysylltu, datblygu a gwreiddio cyfranogiad a gwaith ymgysylltu ymhellach

**Cyswllt:** Jason Heany – j.heany@npt.gov.uk;
Daniel Griffin – d.griffin@npt.gov.uk

## 15. Casnewydd

Mae Casnewydd yn awdurdod trefol sy'n tyfu'n gyflym; mae'n hwb economaidd allweddol yn ne-ddwyrain Cymru â chysylltedd cryf â choridor yr M4.

- **Poblogaeth:** tua **163,628** (ganol 2024, pob oed)
- **Plant 0–15:** i'w gadarnhau
- **Amddifadedd:** Un o'r awdurdodau lleol â'r gyfran uchaf o ardaloedd yn y 10% mwyaf difreintiedig (**18%** o ardaloedd cynnyrch ehangach haen is - LSOAs).

### Trosolwg

Yng Nghyngor Dinas Casnewydd, mae cyfranogiad yn gyfrifoldeb a rennir sydd wedi'i wreiddio ar draws gwasanaethau yn hytrach na bod mewn un tîm. Er bod gan y Gwasanaethau Ieuenctid a Chwarae arbenigedd gweithredol sylweddol, Penaethiaid Gwasanaethau unigol sy'n atebol am gyfranogiad, gyda chymorth goruchwyliaeth gorfforaethol trwy'r Tîm Partneriaeth, Polisi a Chyfathrebu. Mae'r strwythur hwn yn fodd i gyfranogiad ddylanwadu ar waith cynllunio, cyflwyno ac adolygu ym meysydd addysg, gwasanaethau plant, cyfiawnder ieuenctid a rhianta corfforaethol.

Cryfheir gweithgareddau cyfranogi trwy waith mewn partneriaeth â sefydliadau trydydd sector a grwpiau cymunedol, er mwyn cefnogi dulliau gweithredu a chydgynhyrchu cynhwysol sy'n cyrraedd plant a phobl ifanc ar draws ystod eang o leoliadau a phrofiadau.

### Strwythurau cyfranogiad a dulliau gweithredu

Mae tirwedd cyfranogiad yn awdurdod Casnewydd yn cynnwys nifer o strwythurau sy'n ategu ei gilydd. Cyngor Ieuenctid Casnewydd yw'r fforwm canolog i bobl ifanc 11-25 oed ymwneud â llunio penderfyniadau, ymgyngoriadau a phrosesau dinesig. Mae'r Cyngor Ieuenctid, sydd wedi bod ar waith ers sawl blwyddyn, wedi dod yn ddarpariaeth fewnol eto yn ddiweddar, gan gefnogi cysylltiadau cryfach â phrosesau atebolrwydd a chynllunio corfforaethol.

Ym maes addysg, mae'r Uwch-gyngor Mawr Plant a Phobl Ifanc yn cynnig llwybr cyfranogiad cynnar i blant oed cynradd, gan helpu i feithrin hyder, llais a dealltwriaeth o brosesau democrataidd o oedran ieuengach. Cefnogir y strwythurau hyn gan ystod ehangach o fforymau a grwpiau cydgynhyrchu, gan gynnwys byrddau cynghori ym maes Cyfiawnder Ieuenctid, y Gwasanaethau Plant Anabl, fforymau plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal a gyflwynir gyda Barnardo's, a grwpiau cydgynhyrchu gyda gofalwyr ifanc.

Mae cyfranogiad yn rhan annatod o gamau cynllunio, cyflwyno ac adolygu, gyda phlant a phobl ifanc yn cyfrannu at ddylunio gwasanaethau, paneli recriwtio, cyllidebu cyfranogol, datblygu polisi a gwerthuso gwasanaethau. Mae mecanweithiau darparu adborth yn rhan annatod o waith y Cyngor Ieuenctid a'r fforymau, fel bod modd i blant a phobl ifanc weld sut mae eu mewnbwn wedi dylanwadu ar ganlyniadau.

### Gwreiddio cyfranogiad a hawliau plant

Yn sail i gyfranogiad yn awdurdod Casnewydd mae pwyslais cryf ar gydgynhyrchu a chydraddoldeb. Caiff hawliau plant ac egwyddorion cyfranogiad eu hadlewyrchu mewn cynlluniau gwasanaeth a'u hatgyfnerthu trwy hyfforddiant, adborth gan arolygwyr, a phrosesau sicrhau ansawdd corfforaethol. Mae'r Tîm Partneriaeth, Polisi a Chyfathrebu yn sicrhau bod adroddiadau ar gyfer y Cabinet ac uwch-lunwyr penderfyniadau yn rhoi sylw dyledus i ystyriaethau cydraddoldeb a chyfranogiad plant.

Mae gwasanaethau megis Ieuenctid a Chwarae, Gwasanaethau Plant Anabl a Gwasanaethau Plant wedi datblygu cynlluniau gweithredu cyfranogiad ac wedi adnabod hyrwyddwyr cyfranogiad i gefnogi cysondeb a dysgu gwersi. Mae'r arfer hwn wedi ennill ei blwyf mewn rhai timau ond mae'r awdurdod yn sylweddoli bod gwreiddio cyfranogiad ar draws yr holl wasanaethau yn broses barhaus sy'n gofyn am arweinyddiaeth, gallu a chydgysylltu cyson.

### Uchafbwyntiau Arfer Da

- Mae awdurdod Casnewydd yn dangos ymarfer cadarn o ran cydgynhyrchu a chyfranogiad cynhwysol. Ymhlith yr enghreifftiau nodedig mae cynnwys pobl ifanc ar baneli recriwtio i swyddi cyfranogiad, rhaglenni cyllidebu cyfranogol sy'n cynnwys plant a phobl ifanc fel cynigwyr a llunwyr penderfyniadau, a datblygu Cyfamod Gofalwyr Ifanc trwy gydgynhyrchu parhaus â gofalwyr ifanc.
- Defnyddir llwybrau cyfranogiad lluosog — yn cynnwys y Cyngor Ieuenctid, yr Uwch-gyngor, byrddau cynghori ac ymgysylltiad cymunedol — i helpu i sicrhau na chyfyngir cyfranogiad i fforwm sengl. Mae gwaith awdurdod Casnewydd gyda phlant anabl a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yn dangos ymrwymiad i addasu dulliau cyfranogi er mwyn darparu ar gyfer gwahanol anghenion cyfathrebu, mynediad a chefnogaeth.

### Rhwystrau a heriau

Er gwaethaf yr arferion cadarn, nododd awdurdod Casnewydd nifer o heriau sy'n effeithio ar gynaliadwyedd cyfranogiad a'i gyrhaeddiad:

- Cyfyngiadau digidol a chyfyngiadau polisi, yn cynnwys polisïau diogelu, diogelu data, a chyfathrebu corfforaethol, sy'n cyfyngu ar y platfformau a'r dulliau gweithredu y gall gwasanaethau eu defnyddio i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc ar-lein.
- Oedi o ran cyfathrebu a gwaith hyrwyddo, wedi'i achosi gan brosesau cymeradwyo mewnol, sy'n lleihau'r gallu i ymateb ar fyrder.
- Bylchau mewn cynrychiolaeth, yn enwedig ar gyfer plant anabl, plant sydd â phrofiad o ofal a phobl ifanc o gefndiroedd lleiafrifol, lle mae daearyddiaeth, trafnidiaeth, anghenion cyfathrebu a chapasiti teuluoedd yn effeithio ar ymgysylltiad.
- Heriau o ran hygyrchedd, sy'n cynnwys cael hyd i leoliadau sydd wir yn bodloni anghenion plant anabl sydd angen cyfleusterau a chefnogaeth arbenigol.

- Pwysau o ran cyllid a chapasiti'r staff, gyda chylchoedd cyllido byrdymor yn cyfyngu ar waith cynllunio hirdymor, cydgynhyrchu a chynaliadwyedd.
- Risg tocenistiaeth a bod pobl ifanc yn syrffedu ar gyfranogi, lle nad yw ymgysylltiad blaenorol wedi arwain at ganlyniadau gweladwy bob tro, mae gofyn sicrhau dolenni adborth cryfach ac effaith gliriach.

**Cyswllt:** Natalie Poyner – Natalie.Poyner@newport.gov.uk

## 16. Sir Benfro

Awdurdod mawr gwledig ac arfordirol ag economi a sbardunir gan dwristiaeth yw Sir Benfro; mae'n cynnwys Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a threfi megis Hwlffordd a Doc Penfro.

- **Poblogaeth:** tua **125,006** (ganol 2024, pob oed)
- **Plant 0–15:** tua **15,249**
- **Amddifadedd:** Mae'n cynnwys rhai ardaloedd yn y 10% mwyaf difreintiedig, sy'n nodweddiadol o siroedd dosbarthiad cymysg arfordirol a gwledig-trefol.

### Trosolwg

Lleolir y Swyddfa Hawliau Plant a Phobl Ifanc yng Ngwasanaethau Ieuenctid Sir Benfro, sy'n rhan o'r Gyfarwyddiaeth Addysg.  Mae'n Swyddfa Hawliau Plant a Phobl Ifanc bwrpasol, a gefnogir gan ddau aelod o staff, sydd â rôl ganolog i ymgorffori dull gweithredu seiliedig ar hawliau ar draws yr awdurdod.

Defnyddir ystod o ddulliau ymgysylltu i sicrhau bod plant a phobl ifanc o ystod eang o gefndiroedd yn ymgysylltu, bod eu lleisiau'n cael eu clywed a'u bod yn dylanwadu ar benderfyniadau ar bob lefel. Mae ymrwymiad i barhau â'r gwaith hwn a dyfnhau cyfleoedd i blant a phobl ifanc lywio'r penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

### Strwythurau cyfranogiad a dulliau gweithredu

Cesglir barn plant a phobl ifanc trwy ystod o ddulliau ymgysylltu er mwyn sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed a'u bod yn dylanwadu ar lunwyr penderfyniadau ar bob lefel. Dyma rai enghreifftiau:

Pleidlais Ieuenctid bob dwy flynedd: Bob dwy flynedd, cynhelir pleidlais "Beth sy'n Bwysig i Chi", sy'n cyrraedd miloedd o bobl ifanc trwy'r ysgolion, y gwasanaethau ieuenctid, darparwyr hyfforddiant a phlatfformau ar-lein.

Cynadleddau a Digwyddiadau wedi'u Targedu: cynhelir amrywiaeth o ddigwyddiadau â thema, wedi'u dylunio a'u harwain gan bobl ifanc. Y llynedd, er enghraifft, cynhaliwyd Cynhadledd Troseddau Casineb, a hwyluswyd gan Fforwm Ieuenctid Lleisiau Ifanc dros Ddewis, a 'Diwrnod Gweithredu', a gydlynwyd gan Warcheidwaid Diogelu Ifanc, yn canolbwyntio ar ddiogelu a llesiant.

Grwpiau a Fforymau Ieuenctid: Cynhelir ystod o fforymau a grwpiau cyfranogiad ar draws y sir i gynrychioli cymunedau a lleisiau amrywiol. Mae'r rhain yn cynnwys fforymau seiliedig ar faterion a lleoliad, a fforymau ar gyfer demograffeg benodol, sy'n cwrdd yn rheolaidd i rannu barn, adolygu gwasanaethau a llywio datblygiadau polisi. Mae gan Sir Benfro 2 fforwm ieuenctid cymunedol gweithgar yn Aberdaugleddau a Hwlffordd (mae capasiti'r Swyddfa Hawliau Plant a Phobl Ifanc yn golygu nad oes modd cefnogi mwy na dau fforwm).

Mae'r fforymau yn cwrdd yn union cyn y clwb ieuenctid felly mae unrhyw bobl ifanc sy'n aros i'r clwb ieuenctid agor yn cael gwahoddiad i ymuno. Mae swyddog o'r Swyddfa Hawliau Plant a Phobl Ifanc yn gweithio yn y clwb ieuenctid hefyd – sy'n annog mwy o bobl ifanc i roi cynnig ar y fforwm gan eu bod nhw eisoes yn adnabod y staff, sef Nadine a Bethany.

Mae ALl Sir Benfro wedi ymrwymo i gynnig cyfleoedd cyfranogiad cynhwysol i bob person ifanc, yn enwedig i bobl ifanc agored i niwed neu i rai heb gynrychiolaeth ddigonol. Defnyddir gweithwyr proffesiynol y mae pobl ifanc yn gallu ymddiried ynddynt, megis gweithwyr ieuenctid, staff ADY a gweithwyr cymdeithasol, i estyn allan at bobl ifanc na fyddent o bosib yn ymgysylltu trwy fforymau traddodiadol. Cyflwynir gweithgareddau ymgysylltu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ysgolion, clybiau ieuenctid, PLC, a lleoliadau eraill er mwyn cwrdd â phobl ifanc ble bynnag y maent. Pan gynhelir digwyddiadau mewn ysgolion, gofynnir am drawstoriad o ddisgyblion sy'n cynrychioli cymuned ehangach yr ysgol er mwyn sicrhau bod ystod amrywiol o leisiau yn cael eu clywed. Cefnogir grwpiau penodol hefyd, megis pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal a rhai ag ADY, er mwyn sicrhau bod eu lleisiau nhw'n cael eu clywed. Defnyddir ystod o ddulliau ymgysylltu sy'n gweddu i anghenion gwahanol, a darperir cymorth ychwanegol er mwyn ceisio meithrin eu hyder a'u gallu i gymryd rhan mewn modd ystyrlon.

**Gwreiddio cyfranogiad a hawliau plant**

Yn 2014, gwnaeth Cyngor Sir Penfro adduned ffurfiol i ymrwymo i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), ac mae wrthi'n ceisio caniatâd i ddiweddaru'r adduned hwn er mwyn adlewyrchu blaenoriaethau a chynnydd parhaus.

Mae cyfranogiad yn rhan o'r swyddogaeth gorfforaethol ehangach, gan y credir mai dyma'r cyfrwng gorau ar gyfer gwreiddio cyfranogiad.

Mae gan y sir Swyddfa Hawliau Plant a Phobl Ifanc benodedig, a gefnogir gan ddau aelod o staff, sy'n cyflawni rôl ganolog o ran gwreiddio dull gweithredu seiliedig ar hawliau ar draws yr awdurdod. Yn ogystal, mae tîm y Swyddfa yn cefnogi'r swyddogaeth gorfforaethol ehangach, a nhw yw'r pwynt cyswllt cyntaf i eraill pan fydd penderfyniadau'n effeithio ar hawliau plant a phobl ifanc.

Mae eu rôl yn cynnwys cefnogi ymgyngoriadau pan fydd angen, arwain Arolwg 'Beth sy'n Bwysig' bob dwy flynedd a rhannu'r canlyniadau â'r cabinet.

Rhoddir llawer o gyfleoedd i bobl ifanc ddylanwadu ar benderfyniadau a chydgynhyrchu prosiectau. Mae hyn yn cynnwys ymwneud yn weithgar â chynllunio, ymgynghori ac adolygu gwasanaethau. Mae pobl ifanc yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn paneli cyfweld ar gyfer recriwtio staff, gan helpu i lywio'r gweithlu sy'n eu cefnogi. Cânt gyfleoedd hefyd i ymgysylltu'n uniongyrchol â'r aelodau etholedig, gan sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed ar lefelau uchaf llywodraethu lleol.

**Arfer Da/Uchafbwyntiau – yma ceir rhai o'r uchafbwyntiau.**

- Recriwtio a Dethol: Mae pobl ifanc yn ymwneud yn weithgar â recriwtio staff ar draws y gwasanaethau Addysg a Gofal Cymdeithasol yn bennaf. Yn ddiweddar, cafodd hyfforddiant y paneli cyfweld ei adolygu a'i ddiweddaru er mwyn cynnig gwell cefnogaeth i gyfranogwyr ifanc.
- Adolygu Gwasanaethau: yn ddiweddar mae'r grŵp lleol ar gyfer pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal wedi cyfrannu at ddatblygiad Fframwaith Therapi newydd, gan sicrhau bod eu profiadau bywyd yn dylanwadu'n uniongyrchol ar y dull o gyflwyno cefnogaeth. Mae'r grŵp hwn yn cyfarfod â'r bwrdd rhianta corfforaethol a buont yn recriwtio pennaeth gwasanaeth.

- Datblygu Polisïau a Rhaglenni: Mae Cynulliad Ieuenctid Sir Benfro wedi dylunio a datblygu Gêm Llythrennedd Iechyd Meddwl ar gyfer pobl ifanc, wedi'i llywio yn uniongyrchol gan y blaenoriaethau a nodwyd ym mhleidlais ieuenctid "Beth sy'n Bwysig i Chi" 2023. Cydgynhyrchwyd yr adnodd blaengar hwn gyda chymorth y Tîm Iechyd Meddwl Sylfaenol a'r Tîm Mewngymorth Ysgolion.
- Ymgynghoriad ar Raddfa Fawr: Cyrhaeddodd pleidlais "Beth sy'n Bwysig i Chi" 2025 fwy na 5,000 o bobl ifanc ar draws Sir Benfro. Bellach, mae'r Cynulliad Ieuenctid yn gweithio mewn partneriaeth â'r Swyddfa Hawliau Plant a Phobl Ifanc i gydgynhyrchu rhaglen waith er mwyn ymateb i'r canfyddiadau, gan sicrhau bod gwaith cyflenwi gwasanaethau yn cael ei lywio'n uniongyrchol gan flaenoriaethau pobl ifanc.
- Ymgynghori ynghylch y Gyllideb: Mae pobl ifanc yn cael eu cynnwys yn gyson yn y prosesau ymgynghori ar gyllideb yr awdurdod lleol, sy'n rhoi llais iddyn nhw ar y penderfyniadau ariannol sy'n effeithio ar eu bywydau a'u cymunedau.
- Cystadleuaeth 'Bake Off' y Cyngor: Mae aelodau ifanc y cyngor ieuenctid yn gweithio ar y cyd ag aelodau/uwch-arweinwyr y cyngor i greu cacen. Gweithgaredd gwaith ieuenctid yw hwn sy'n gyfle i bobl ifanc ofyn unrhyw gwestiynau a all fod ganddynt. Gwneir ymdrech i sicrhau cyfatebiaeth rhwng y person ifanc â phortffolio'r aelod cabinet er mwyn gwneud y gweithgaredd yn fwy ystyrlon/yn gyfle i feithrin perthynas.
- Mae cynghorydd tref yn dod yn rheolaidd i gyfarfodydd y Fforwm Ieuenctid – roedd y staff am gofnodi bod ei hegni a'i hymrwymiad hi i'r fforwm yn gwneud gwahaniaeth mawr iawn o ran ymgysylltiad plant a phobl ifanc.

**Rhwystrau a heriau**

Dyma rai o'r rhwystrau allweddol a amlygwyd o ran hyrwyddo a hwyluso cyfranogiad ystyrlon:

Trafnidiaeth: Mae daearyddiaeth wledig Sir Benfro yn cynnig heriau wrth sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn gallu dod i gyfarfodydd, i ddigwyddiadau neu i sesiynau ymgysylltu, yn enwedig pan fyddan nhw'n byw mewn cymunedau mwy ynysig.

Mynediad cyfyngedig at gyllideb wedi'i neilltuo: Heb gyllideb benodol ar gyfer gweithgareddau cyfranogi, mae'n gallu bod yn anodd cynllunio mewn modd cyson a chynnig cyfleoedd ystyrlon sy'n hygyrch, yn gynhwysol ac yn gynaliadwy

Capasiti'r staff: Tîm bach sy'n cefnogi cyfranogiad a hawliau plant, felly mae terfyn ar faint o brosiectau a chyfleoedd ymgysylltu y gellir eu hwyluso ar unrhyw adeg. Mae hynny'n effeithio ar y gallu i fynd ar ôl materion yn brydlon a chynnal cyswllt rheolaidd â phob grŵp o bobl ifanc.

Mae'r grwpiau â llai o ymgysylltiad ar hyn o bryd yn cynnwys:

- Plant a phobl ifanc Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Bellach, nid oes uned benodedig ar gyfer y plant a'r bobl ifanc hyn felly mae'n anoddach clywed y lleisiau hyn
- Plant sy'n derbyn eu haddysg yn y cartref – nid oes cyswllt uniongyrchol ond mae cynllun i ymgysylltu trwy staff ALl ehangach yn y flwyddyn newydd.
- Nodwyd y gallai aelodau'r cabinet fod yn fwy ymwybodol o hawliau/ cyfranogiad er mwyn gallu galw tîm y Swyddfa Hawliau Plant a Phobl Ifanc i gyfrif.

**Cyswllt:** cypro@pembrokeshire.gov.uk

## 17. Powys

Powys yw'r sir fwyaf o ran maint yng Nghymru a'r un leiaf poblog; mae'n sir wledig yn bennaf gydag ucheldir helaeth a threfi marchnad bychain (e.e. Aberhonddu, y Drenewydd, y Trallwng).

- **Poblogaeth:** tua **134,439** (ganol 2024, pob oed)
- **Plant 0–15:** tua **15,096**
- **Amddifadedd:** Dim ond un ardal gynnyrch ehangach haen is sydd yn y 10% mwyaf difreintiedig yn genedlaethol (mae hyn ymhlith y nifer isaf yng Nghymru).

### Trosolwg

Mae cyfranogiad yn gyfrifoldeb i bawb yn eu meysydd gwasanaeth ac mae'n rhywbeth i anelu ato ar lefel weithredol a lefel strategol. Mae gan y cyngor Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd. Mae gennym Swyddog Cyfranogiad penodedig yn y Gwasanaethau Plant (Matt Rising) a Swyddog Cydraddoldeb ac Ymgysylltiad Pobl Ifanc yn y Gwasanaethau Ieuenctid/Addysg (Jess Metcalf).

### Strwythurau Cyfranogiad

Mae lleisiau pobl ifanc yn cael eu clywed yn glir a'u gwerthfawrogi drwy Fwrdd Iau Dechrau'n Dda (JSWB), sy'n rhan gadarn ac annatod o waith Partneriaeth Dechrau'n Dda a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Mae cyfathrebu'n ystyrlon ac yn digwydd y ddwy ffordd, gyda phobl ifanc nid yn unig yn mynegi barn ond hefyd yn derbyn adborth am sut mae eu cyfraniad wedi llywio penderfyniadau. Mae cyfle iddynt gyfarfod â'r Cadeirydd deirgwaith y flwyddyn, sy'n sicrhau llinell ddeialog uniongyrchol sy'n hyrwyddo tryloywder ac atebolrwydd.  Gwneir ymdrech i gynnwys plant a phobl ifanc ym mhob cam wrth ddatblygu gwasanaethau. Mae eu cipolygon a'u profiadau bywyd yn helpu i lywio blaenoriaethau, i ddylanwadu ar fodelau cyflenwi ac i lywio adolygiadau gwasanaeth parhaus, gan sicrhau bod ein dull gweithredu yn berthnasol ac yn ymateb i'w hanghenion o hyd.

Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn defnyddio 5 colofn gwaith Ieuenctid – Addysgol, Grymusol, Cyfranogol, Cynhwysol a Mynegiannol i gynllunio, cyflwyno a gwerthuso'i waith yn effeithiol. Ar hyd y broses, cefnogir y bobl ifanc i fynegi eu hunain ac i ddatblygu eu hyder a'u llais. Mae'r gwerthusiad yn canolbwyntio ar effaith y gwaith ym mhob un o'r meysydd hyn, a defnyddir adborth ac adfyfyrio i asesu canlyniadau dysgu, lefelau ymgysylltiad, gwaith grymuso, cynhwysiad a hunanfynegiant. Drwy'r dull gweithredu hwn mae modd sicrhau bod y gwasanaeth yn dal i ymateb i anghenion a phrofiadau pobl ifanc tra'n cynnal gwerthoedd craidd gwaith ieuenctid a chyfranogiad.

Mae cyfranogiad yn agored i unrhyw un rhwng 0 a 100+ oed sy'n byw, yn gweithio, yn astudio ac ati ym Mhowys. Mae'r timau'n gweithio gyda phobl ifanc rhwng 3 a 25 oed hyd at eu pen-blwydd yn 26.

### Gwreiddio cyfranogiad a hawliau plant

Mae awdurdod Powys wedi gwreiddio cyfranogiad plant mewn elfennau o waith cynllunio, cyflwyno ac adolygu gwasanaethau trwy waith Bwrdd Iau Dechrau'n Dda a chyda chefnogaeth y gwasanaethau ieuenctid a amlinellwyd uchod.

Ar ben hynny, datblygwyd Strategaeth Ymgysylltiad Ieuenctid ddrafft a fydd yn destun ymgynghoriad gyda phobl ifanc cyn cael ei rhannu â rhanddeiliaid ehangach i gael eu sylwadau. Mae hynny'n sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu cynnwys mewn modd ystyrlon o'r dechrau a bod eu persbectif yn llywio'r strategaeth ei hun. Yn ogystal, mae'n cefnogi'r uchelgais ehangach o wreiddio arferion ymgysylltiad ieuenctid cyson ac uchel eu hansawdd ar draws y sir.

Unwaith y caiff ei chwblhau a'i chytuno gyda'r bobl ifanc a'r Cabinet, bydd y Strategaeth Ymgysylltiad Ieuenctid yn gam pwysig tuag at roi sylw i'r materion hyn a chreu model cyfranogi mwy cynhwysol, ymatebol a dylanwadol ledled Powys.

**Uchafbwyntiau Arfer Da**

- Mae Bwrdd Iau Dechrau'n Dda (BIDDd) wedi cyflwyno nifer o fentrau effeithiol o dan arweiniad ieuenctid sydd wedi arwain at welliant uniongyrchol mewn gwasanaethau i bobl ifanc ym Mhowys. Aethant ati i ddylunio a lansio Caffi Ieuenctid yn y Drenewydd, gan greu lle diogel, croesawgar gyda Wi-Fi, lluniaeth, a chefnogaeth gweithiwr ieuenctid—oedd yn llenwi bwlch clir a amlygwyd gan eu cymheiriaid. Wedi'r pandemig, cynhaliodd BIDDd arolwg iechyd emosiynol ar draws y sir, a arweiniodd at ailgyflwyno nyrsys ysgol a llywio cynlluniau llesiant i'r dyfodol. Mae eu gwaith eiriol wedi dylanwadu ar bolisi rhanbarthol, gan gynnwys cyfraniadau i Fframwaith NYTH/NEST trwy ymgysylltiad uniongyrchol ag uwch-swyddogion Llywodraeth Cymru. Yn ogystal, datblygwyd cynlluniau i gynnal gwasanaethau ysgol i drafod iechyd meddwl ac ehangwyd eu cynrychiolaeth trwy ffurfio grŵp ar gyfer pobl ifanc 18-25 oed. Mae'r prosiectau hyn yn dangos sut mae cyfranogiad ystyrlon gan ieuenctid yn gallu arwain at newidiadau go iawn, gwell gwasanaethau a chysylltiadau cymunedol cryfach.
- Digwyddiad ymgysylltiad Pobl Ifanc Powys Gynaliadwy – digwyddiad gwrando ar bobl ifanc er mwyn deall beth sy'n bwysig iddyn nhw o ran dyfodol y sir. Bydd y digwyddiad hwn yn dwyn yr enw "Eich Powys Chi" ac yn dod yn rhan o weithgareddau ymgysylltu ehangach Powys Gynaliadwy. Y digwyddiad hwn oedd yr ymgais gyntaf ar y fath raddfa a bydd yn brototeip ar gyfer gweithgareddau ymgysylltu â phobl ifanc yn y dyfodol.
- Gyda chefnogaeth Swyddog Cyfranogiad, bu pobl ifanc yn y gwasanaethau plant yn gweithio gyda'r trydydd sector i sicrhau cesys cysur a chymryd rhan yn uwch-gynadleddau diwygiadau radicalaidd Lleisiau o Ofal Cymru, sydd wedi'u grymuso i godi eu llais ac ymgysylltu mewn digwyddiadau. Bu pobl ifanc yn rhan o baneli cyfweld ar gyfer swyddi perthnasol yn yr awdurdod lleol sy'n effeithio ar eu bywydau.
- Drwy gynnal gwasanaethau ysgol mewn Ysgolion Uwchradd ar draws y sir a siarad â grwpiau LHDTC+ mae pobl ifanc wedi dangos diddordeb mewn sefydlu grwpiau ac wedi ymrwymo i wneud hynny. Mae'r grwpiau hyn yn llwyfannau ar gyfer cynyddu ymwybyddiaeth, cynnig cefnogaeth, addysgu a dod â grwpiau lleiafrifol ynghyd.
- Drwy weithgareddau cyfranogi, bu modd i bobl ifanc gyfrannu at astudiaeth genedlaethol Dileu Digartrefedd ymysg Ieuenctid Cymru ynghylch eu profiad o Niwroamrywiaeth. Cafodd yr astudiaeth ei chyhoeddi a'i hyrwyddo ar draws Cymru, a'i chyflwyno i Weinidogion Cymru.

**Heriau/Rhwystrau**

- Ym Mhowys, mae'r rhwystrau allweddol i hyrwyddo a hwyluso cyfranogiad ystyrlon yn cynnwys daearyddiaeth eang y sir a'r seilwaith trafnidiaeth cyfyngedig, sy'n rhwystro mynediad at gyfleoedd ymgysylltu, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig neu ynysig.
- Mae gwahaniaethau sylweddol hefyd mewn anghenion a blaenoriaethau lleol ar draws y sir sy'n golygu bod dull gweithredu 'yr un gwasanaeth i bawb' yn aneffeithiol, ond amlygir hefyd fod angen sicrhau cysondeb o ran ansawdd a hygyrchedd cyfleoedd cyfranogi.

- Mae eithrio digidol yn her o hyd, gyda darpariaeth band eang annibynadwy a lefelau amrywiol o hyder digidol yn cyfyngu ar ymgysylltiad ar-lein.
- Mae diwylliant o docenistiaeth yn parhau, lle gwelir bod cyfranogiad, yn enwedig cyfranogiad pobl ifanc, yn rhy aml yn cael ei drin fel ymarfer ar bapur yn unig yn hytrach na phroses ystyrlon sydd â dylanwad gwirioneddol.
- Hyd yn oed pan fydd lleisiau pobl ifanc yn cael eu clywed, mae diffyg strwythurau clir i uwchgyfeirio eu mewnbwn a'u troi yn benderfyniadau a chynlluniau gwasanaeth. Mae angen canlyniadau byrdymor, tymor canolig a hirdymor gweladwy i ddangos bod eu cyfranogiad yn werthfawr ac yn arwain at newid go iawn.
- Ar ben hynny, mae ofn codi llais, boed hynny oherwydd diffyg hyder neu ofn beirniadaeth, neu oherwydd pryderon am ganlyniadau gwneud hynny, yn gallu cyfyngu'n sylweddol ar gyfranogiad, yn enwedig ymhlith unigolion sy'n fwy agored i niwed neu ar y cyrion.
- Mae problemau o ran recriwtio a chadw staff ar draws yr awdurdod/y sir yn lleihau ymhellach y gallu i gynnal ymgysylltiad hirdymor y gall pobl ifanc ymddiried ynddo. Er mwyn rhoi sylw i'r rhwystrau hyn, rhaid gwreiddio cyfranogiad fel arfer craidd, sy'n derbyn adnoddau digonol, sy'n cael ei gyflwyno'n gyson ac yn seiliedig ar ymddiriedaeth, diogelwch a dylanwad gwirioneddol.
- Unwaith y caiff ei chwblhau a'i chytuno gyda'r bobl ifanc a'r Cabinet, bydd y Strategaeth Ymgysylltiad Ieuenctid yn gam allweddol tuag at roi sylw i'r materion hyn a chreu model cyfranogiad mwy cynhwysol, ymatebol a dylanwadol ledled Powys.

**Cyswllt:** Jess Metcalf – jess.metcalf@powys.gov.uk

## 18. Rhondda Cynon Taf

Awdurdod poblog iawn yn y Cymoedd yw Rhondda Cynon Taf gyda threfi pwysig (Pontypridd, Aberdâr, Tonypandy), cymoedd serth a thirweddau ôl-ddiwydiannol.

- **Poblogaeth:** tua **241,178** (ganol 2024, pob oed)
- **Plant 0–15:** tua **31,440**
- **Amddifadedd:** Mae nifer o ardaloedd yn y 10% mwyaf difreintiedig, sy'n nodweddiadol o'r patrwm yng nghymoedd De Cymru.

### Trosolwg

Yng Nghyngor RhCT, mae cyfranogiad yn gyfrifoldeb trawsgyfarwyddiaethol a leolir yn y Gwasanaeth Ieuenctid, y Gwasanaethau Plant, a'r Gwasanaethau Addysg.

Cynhelir cyfranogiad mewn amrywiaeth o ffyrdd gwahanol, yn cynnwys gweithio'n uniongyrchol gyda theuluoedd, darparu cyfleoedd i roi adborth, cynnal adolygiadau, a chynnal ymgyngoriadau mewn cartrefi preswyl, er mwyn sicrhau bod y cyfleoedd yn cynnwys grwpiau agored i niwed neu grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

Cesglir barn plant a phobl ifanc yn bennaf trwy ymgyngoriadau. Er enghraifft, bydd yr awdurdod yn siarad â phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yn eu sesiwn galw heibio ynghylch strategaeth y buon nhw'n ei llunio, er mwyn cael eu barn a gwneud newidiadau yn seiliedig ar eu hadborth.

**Strwythurau Cyfranogiad**

Nid oes un dull corfforaethol o ymdrin â chyfranogiad ar draws yr awdurdod, er bod ymdrechion i gysylltu ag addysg a'r gwasanaethau ieuenctid.

Mae gan y Gwasanaeth Addysg Strategaeth ar gyfer Llais y Disgybl sy'n rhan o'u Strategaeth Addysg newydd, sy'n golygu bod uwch-reolwyr yn siarad yn uniongyrchol â disgyblion er mwyn deall eu hanghenion ar draws 17 o glystyrau ysgol.

Mae tîm y Gwasanaethau Ieuenctid yn ymgysylltu â 9,000 o bobl ifanc bob blwyddyn. Mae cymorth 1-i-1 ar gael, gyda'r nod o wella iechyd a llesiant meddyliol ieuenctid. Mae'r Strategaeth Cyfranogiad yn cynnwys arolwg "Eich Llais" er mwyn llywio'r cynllun 5 mlynedd nesaf. Cefnogir pedwar Fforwm Ieuenctid lleol a Fforwm sirol i lywio mentrau sy'n effeithio ar bobl ifanc, e.e. bwydlenni ysgol. Ar ben hynny, mae fforwm ar gyfer plant a phobl ifanc niwroamrywiol, pedwar Fforwm Ieuenctid Cymraeg, yn ogystal â chefnogaeth i gyfranogi yn y Senedd Ieuenctid. Mae Swyddog Datblygu Digidol penodedig yn cefnogi ymgysylltiad trwy'r cyfryngau cymdeithasol. Mae yna glybiau ieuenctid mynediad agored, cynhelir gweithdai democratiaeth mewn ysgolion ac mae canolfan galw heibio ar gyfer pobl ifanc 14+ oed ar gael ddwywaith yr wythnos.

**Gwreiddio Cyfranogiad a Hawliau Plant**

Mae gan Wasanaethau Plant RhCT weledigaeth rymus, set o werthoedd a chanllawiau ymarferol a ddatblygwyd ar y cyd ag ymarferwyr.

**Datganiad Gweledigaeth**

Yn RhCT, rydyn ni am sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael y dechrau gorau mewn bywyd a bod modd iddyn nhw ddysgu a thyfu'n ddiogel. Yn y Gwasanaethau Plant, rydyn ni'n cydnabod bod ar blant a theuluoedd angen cymorth ychwanegol weithiau er mwyn cyflawni hynny. Gan sefydlu perthnasoedd yn seiliedig ar ein gwerthoedd, rydyn ni'n gweithio ochr yn ochr â phlant a theuluoedd, yn adeiladu ar gryfderau er mwyn galluogi newid cadarnhaol ac yn rhoi blaenoriaeth bob amser i'n rôl, sef cadw plant yn ddiogel.

**Datganiad Gwerthoedd**

- **Teulu:** Rydyn ni'n hyrwyddo hawl plant i fywyd teuluol. Byddwn ni bob amser yn gweithio yn ôl ethos 'teulu yn gyntaf' ac yn meddwl yn eang am yr hyn y gallai teulu ei olygu i blentyn
- **Cymorth:** Rydyn ni'n cefnogi teuluoedd i dderbyn y cymorth sydd ei angen pan fydd ei angen. Rydyn ni'n rhoi rhagor o gymorth, neu weithiau'n rhoi llai o gymorth, ond dydyn ni ddim yn camu i ffwrdd yn rhy fuan.
- **Parch:** Rydyn ni'n parchu unigoliaeth unigryw pawb ynghyd â'u hamgylchiadau a'u dewisiadau, ac yn sicrhau bod pobl ifanc a'u teuluoedd yn rhan o'n gwaith ac o'r penderfyniadau sy'n ymwneud â'u bywydau a'u hamgylchiadau.
- **Cydymdeimlad** Wrth fynd ati i roi cymorth, rydyn ni'n defnyddio dull sydd wedi'i lywio gan drawma, gan flaenoriaethu empathi a meithrin perthnasoedd cadarn wrth weithio gyda phlant a theuluoedd.
- **Cryfderau teuluoedd a diogelu:** Rydyn ni'n gweithio gyda theuluoedd er mwyn nodi'r deilliannau maen nhw am eu cyflawni, gan adeiladu ar gryfderau, amlygu peryglon a gweithio i'w lleihau.
- **Sefydlogrwydd:** Rydyn ni'n hyrwyddo sefydlogrwydd ar gyfer pobl ifanc sy'n derbyn gofal ac yn deall y bydd angen cymorth arbenigol arnyn nhw ar eu taith.

- **Balchder** Rydyn ni'n falch iawn o gyflawniadau'r bobl sy'n cael cymorth gennym, a'r gwaith rydyn ni'n ei gyflawni gyda nhw.
- **Gwella:** Rydyn ni'n chwilfrydig ynghylch pa mor effeithiol yw ein gwaith, rydyn ni'n deall yr effaith ac rydyn ni bob amser yn barod i wella ac arloesi.

Mae'r weledigaeth a'r gwerthoedd hyn yn cyd-fynd â CCUHP (ac yn cyfeirio'n benodol at rai hawliau) ac egwyddorion cyfranogiad, ond gallai'r cyswllt rhyngddynt fod yn gryfach.

**Uchafbwyntiau Arfer Da**

- Mae gwaith gwasanaethau ieuenctid RhCT yn arbennig o helaeth ac yn ymgysylltu â 9,000 o bobl ifanc bob blwyddyn.  Gosodwyd gweithiwr ieuenctid ym mhob ysgol uwchradd yn yr awdurdod lleol.
- Mae ymrwymiad cryf i egwyddorion cyfranogiad, er enghraifft, cydgynhyrchwyd fideo wedi'i animeiddio ynghylch rhianta corfforaethol gyda phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal.
- Mae ieuenctid wedi cymryd rhan mewn ymgyngoriadau ynghylch y gyllideb a gwasanaethau chwarae (ymgynghorwyd â mwy na 1,000 o blant a rhieni).
- Mae cynghorwyr y bwrdd corfforaethol yn cwrdd â phobl ifanc ar gyfer adborth uniongyrchol, sy'n cael ei adrodd yn ôl i blant.
- Anogaeth i bobl ifanc 16+ ymuno â'r bwrdd rhianta corfforaethol, gyda deunyddiau sydd bellach yn haws i blant eu deall.
- O fewn y Gwasanaethau Plant cynhaliwyd arolwg 'Gwneud eich Rhan' ar gyfer pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal, er mwyn cael gwybod beth oedd yn llwyddiannus iddyn nhw, beth allai gael ei wella, a sut hoffen nhw gymryd rhan. Cafodd y bobl ifanc adborth am ganlyniadau'r arolwg ar ffurf 'Fe Ddwedsoch Chi...Fe Wnaethon Ni', a oedd yn amlygu eu hymrwymiad i gyflawni gwelliannau ar gyfer pobl ifanc. I roi un enghraifft, amlygodd pobl ifanc 16-24 nad oedd digon o wybodaeth am fudd-daliadau, iechyd meddwl a llesiant. I wella'r sefyllfa, aeth RhCT ati i ailddylunio'r wefan, a chynnwys gwybodaeth glir a hygyrch am y budd-daliadau a'r cymorth sydd ar gael i bobl ifanc, ynghyd â sut i gael gwybodaeth am iechyd meddwl a llesiant. Roedd cyfle i bobl ifanc adolygu'r wybodaeth a'i chymeradwyo cyn ei chyhoeddi ar y wefan

**Heriau/Rhwystrau**

Er gwaethaf yr arferion cadarn, nododd awdurdod RhCT nifer o heriau sy'n effeithio ar gynaliadwyedd cyfranogiad a'i gyrhaeddiad.

- Mae angen adnoddau ac arian penodedig, yn enwedig ar gyfer plant anodd eu cyrraedd a phlant sy'n cael eu hecsbloetio;
- Heriau o ran ymgysylltu â phlant ifancach oherwydd gofynion cynllunio/amser;
- Mae angen cyllid ychwanegol i ehangu gwaith cyfranogiad gyda gofalwyr ifanc;
- Diffyg amser a diffyg tîm penodedig i gefnogi cyfranogiad plant ifanc digwmni sy'n ceisio lloches, a'u cynorthwyo â'r heriau maen nhw'n eu hwynebu (cael hyd i gyfieithwyr ar y pryd, diffyg cyfreithwyr, llety etc.);
- Newid mewn diwylliant ers y pandemig – anoddach annog pobl i gyfranogi bellach.
- Mae trafnidiaeth yn rhwystr sylweddol, yn enwedig ar gyfer gofalwyr ifanc.

**Cyswllt:** Bedwyr Harries – Bedwyr.Harries@rctcbc.gov.uk;
Aimee Cartwright – Aimee.Cartwright@rctcbc.gov.uk

## 19. Abertawe

Yr ail ddinas fwyaf yng Nghymru; mae 69% o'r sir yn wledig / 31% yn drefol, ond mae 86.7% o'r boblogaeth yn byw yn yr ardaloedd trefol ar yr arfordir.

- **Poblogaeth:** tua **246,742** (ganol 2024, pob oed)
- **Plant 0–15:** tua **30,249**
- **Amddifadedd:** mae 13.3% o'r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (20 allan o 150) yn y 10% mwyaf difreintiedig (MALlC 2025).

### Trosolwg

Mae Cyngor Abertawe yn defnyddio dull cyngor cyfan o ymdrin â chyfranogiad, o dan arweiniad Cyfarwyddiaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol trwy'r Tîm Partneriaeth a Chyfranogaeth a'r Tîm Dysgu ac Arloesi, gydag Addysg yn cydweithio fel partner allweddol. Mae'r Tîm Partneriaeth a Chyfranogaeth yn canolbwyntio ar gydgysylltu a chydweithio yng nghyd-destun yr ymrwymiad statudol i hwyluso mecanweithiau ar gyfer gwrando ar leisiau Plant a Phobl Ifanc ar draws y sir, gyda chefnogaeth Addysg trwy'r ysgolion a lleoliadau addysg, er mwyn helpu i wreiddio a chwyddo llais y dysgwr.

Mae Swyddog Cyfranogiad a Hawliau Plant penodedig yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn sicrhau nid yn unig fod lleisiau, hawliau a phrofiadau bywyd plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yn cael eu clywed ond hefyd eu bod yn llywio'r gwasanaethau a gyflwynir.

Deellir bod cyfranogiad ystyrlon yn gyfrifoldeb a rennir ac i gefnogi hynny mae Cyngor Abertawe wedi mabwysiadu model lloeren; caiff ymarferwyr o wahanol dimau eu grymuso i ymgysylltu â phobl ifanc er mwyn llywio'r gwasanaethau maen nhw'n eu defnyddio.

### Strwythurau cyfranogiad a dulliau gweithredu

Mae cyfleoedd cyfranogiad wedi'u gwreiddio ar draws yr awdurdod ac mewn gwahanol wasanaethau. Er enghraifft, mae pob un o'i Hybiau Ieuenctid Evolve wedi sefydlu eu Bwrdd Cynghori Pobl Ifanc eu hunain, gan roi llais uniongyrchol i bobl ifanc ynghylch sut cyflwynir cymorth yn eu cymunedau. Yn y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, yn ogystal â chyfrannu at ymgyngoriadau, mae pobl ifanc yn cydgynhyrchu elfennau o'r gwasanaeth ac yn helpu i ddylunio ymyriadau ystyrlon sy'n berthnasol i'w profiadau.

Hefyd, mae tîm Coll, Camfanteisio a Masnach Cyd-destunol (CMET) y cyngor wedi datblygu Bwrdd Ieuenctid penodedig, sy'n llwyfan strwythuredig i bobl ifanc allu dylanwadu ar benderfyniadau a chynlluniau'r gwasanaeth. Ar yr un pryd, mae Timau Cefnogi Maethu Abertawe, Gofal gan Berthynas, a Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig i gyd yn cynnal paneli ieuenctid, sy'n sicrhau bod safbwyntiau plant a phobl ifanc yn rhan ganolog o'u cymorth i deuluoedd a gofalwyr.

Mae "Sgwrs Fawr" Cyngor Abertawe yn fodel ar gyfer ymgysylltu â phlant a phobl ifanc i gasglu eu barn ar faterion sy'n effeithio ar eu bywydau, a dylanwadu ar bolisi'r cyngor. Mecanwaith sirol yw hwn sy'n llwyfan i unigolion leisio pryderon a chymryd rhan mewn prosesau gwneud penderfyniadau mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan sicrhau bod lleisiau tawel hefyd yn cael eu clywed y tu allan i'r strwythurau ffurfiol traddodiadol.

Mae ystod o fyrddau cynghori, paneli a fforymau sy'n ceisio adlewyrchu amrywiaeth y boblogaeth – mae'r rhain yn cynnwys byrddau a arweinir gan ieuenctid yn yr Hybiau Cymorth Cynnar, grwpiau cydgynhyrchu yn y gwasanaethau cyfiawnder a gofal, a phaneli cymunedol sy'n llywio

strategaethau tai, addysg a iechyd. Yn ogystal, defnyddir dulliau ymgysylltu anffurfiol a chreadigol – megis podlediadau, sesiynau galw heibio, a phlatfformau digidol. Mae mannau cymunedol megis y Cwtsh Cydweithio a'r Siop Gwybodaeth dan yr Unto yn fannau croesawgar lle gall preswylwyr rannu syniadau a bod yn rhan o benderfyniadau lleol.

Mae Hyrwyddwyr Cyfranogiad ar draws gwasanaethau yn helpu i wreiddio diwylliant o wrando a chydgynhyrchu, gan sicrhau bod ymgysylltiad yn ddeialog barhaus yn hytrach na digwyddiad unwaith yn unig.

Mae ymrwymiad i dryloywder ac atebolrwydd – rhennir adborth o'r gweithgareddau ymgysylltu trwy adroddiadau "Fe Ddwedsoch Chi, Fe Wnaethon Ni" ac mae'r awdurdod wrthi'n datblygu trosolwg cynhwysfawr o waith cyfranogi diweddar er mwyn llywio cynlluniau ar gyfer y dyfodol ac osgoi dyblygu gwaith.

**Gwreiddio cyfranogiad a hawliau plant**

Lansiodd Cyngor Abertawe ei Gynllun Hawliau Plant a Phobl Ifanc yn 2014, gan ddod drwy hynny yn awdurdod lleol cyntaf y Deyrnas Unedig i wreiddio Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn ffurfiol yn ei fframwaith polisi. Mae'r ddyletswydd hon yn golygu bod yn rhaid i'r Cabinet roi "sylw dyledus" i hawliau CCUHP wrth ddatblygu, adolygu neu newid polisïau, strategaethau neu wasanaethau

Mae'r ymrwymiad hwn gan y cyngor cyfan i Hawliau Plant a Chyfranogiad yn amlwg yn asesiadau effaith y gwasanaethau ac yn cael ei ddatblygu gydag arweiniad canolog/corfforaethol. Mae presenoldeb Swyddog Cyfranogiad a Hawliau Plant yn Nhîm Dysgu ac Arloesi y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, ochr yn ochr â'r Hybiau Trawsnewid a Pherfformiad, yn fodd i leisiau a phrofiadau bywyd plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal lywio dyluniad gwasanaethau, adroddiadau perfformiad a gwelliant parhaus yn uniongyrchol. O ganlyniad i'r cydweddiad hwn, mae dangosfyrddau perfformiad yn integreiddio dealltwriaeth ieuenctid ochr yn ochr â data ansoddol. Cafodd y gwaith o ailddylunio gwasanaethau, megis Hybiau Ieuenctid Evolve a'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, ei gydgynhyrchu â phobl ifanc. Mae Addunedau Rhianta Corfforaethol a'r cynlluniau gweithredu cysylltiedig wedi cael eu datblygu a'u monitro â mewnbwn uniongyrchol gan bobl ifanc sydd â phrofiad o ofal.

Mae Sgyrsiau am yr Hyn sy'n Bwysig yn rhan annatod o gynlluniau trawsnewid, gan sicrhau bod gwasanaethau'n ymateb i adborth amser go iawn. Cryfheir y dull gweithredu hwn ymhellach trwy ddefnyddio'r fframwaith Arwyddion Diogelwch sydd, yn ei hanfod, yn gyfranogol ac yn gydgynhyrchiol. Mae'r fethodoleg hon yn sicrhau bod plant a phobl ifanc wrth wraidd unrhyw waith cynllunio a llunio penderfyniadau, ac mae'n annog ymarferwyr i gydweithio â theuluoedd er mwyn nodi cryfderau, asesu risgiau a chyd-greu datrysiadau. Mae'n cydweddu'n naturiol â'r strategaeth cyfranogiad, gan ategu ymrwymiad i ymarfer person-ganolog, seiliedig ar hawliau.

Yn y gwasanaethau addysg, mae grŵp cynllunio llais y dysgwr yn cyfarfod bob tymor i ystyried cyfleoedd cyfranogi. Mae canfyddiadau cyfranogiad yn cyfrannu at adolygu gwasanaeth (e.e. cinio ysgol) a manteisir ar gyfleoedd hefyd i ddatblygu/gyflwyno polisïau (e.e. ymddygiad mewn ysgolion). Mae'r adran Addysg yn rhoi adroddiad blynyddol ar lais y dysgwr i'r Panel Craffu ar Berfformiad Addysg, sy'n cynnwys y gwaith a gyflawnwyd ar y cyd gan y Tîm Partneriaeth a Chyfranogaeth a'r gwasanaethau Addysg. Mae'r Tîm Partneriaeth a Chyfranogaeth yn cydweithio â Thîm Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar i gefnogi lleoliadau sy'n gweithio i sicrhau neu sydd eisoes wedi sicrhau dyfarniad y Cynllun Darpariaethau Cyn Ysgol Iach a Chynaliadwy (HSPSS), sy'n asesu pa mor dda mae'r darpariaethau hyn yn hyrwyddo sgiliau hunan-gymorth. Mae hyn yn cynnwys arferion megis galluogi mynediad annibynnol at ddŵr yfed i blant yn ystod

y dydd a chyfleoedd iddynt baratoi a gweini eu prydau bwyd a'u byrbrydau eu hunain.

**Uchafbwyntiau Arfer Da**

- Mae Abertawe wedi datgan ei bod yn ddinas Hawliau Dynol gyda hawliau plant yn rhan o wead y fframwaith hwn. Mae'r dull gweithredu hwn sy'n seiliedig ar hawliau dynol yn sicrhau bod yr un iaith seiliedig ar hawliau yn cael ei defnyddio ar gyfer pob oedran, sy'n hwyluso gwaith pontio. Mae e-ddysgu gorfodol ynghylch hawliau dynol, gan gynnwys hawliau plant, ar waith ar draws yr awdurdod.
- Gwelir ymrwymiad corfforaethol cryf ac amlwg i gyfranogiad plant a phobl ifanc ar lefel y cabinet – er enghraifft, bu'r cyngor llawn yn cwrdd â phobl ifanc i drafod y maniffesto pobl ifanc.
- Cydnabyddir nad oes un dull sy'n addas i bawb a chefnogir amrywiaeth o lwybrau cyfranogi – sy'n cynnwys y Sgwrs Fawr, cyfranogiad cymunedol (y Siop dan yr unto a'r Cwtsh Cydweithio) sy'n cynnig mannau croesawgar lle gall preswylwyr rannu syniadau a chyfrannu at wneud penderfyniadau lleol, yn ogystal â chomisiynu grwpiau arbenigol, e.e. EYST a'r YMCA i gefnogi cyfranogiad grwpiau amrywiol, gan gynnwys lleiafrifoedd ethnig a gofalwyr ifanc.

**Rhwystrau a heriau**

Er gwaethaf yr arferion cadarn, nododd Abertawe nifer o heriau sy'n effeithio ar gynaliadwyedd cyfranogiad a'i gyrhaeddiad:

- Mae natur statudol y gwaith yn golygu bod terfyn ar faint o ddylanwad sydd gan blant a phobl ifanc ar y gwasanaethau craidd sy'n cael eu cynnig
- Mae angen bod y cynnig cyfranogiad yn ystyriol o drawma, sy'n gofyn am ddull gweithredu sensitif a hyblyg
- Gall diogelu a chyfrifoldebau statudol gyfyngu ar y gallu i gymryd rhan mewn gweithgareddau cyfranogiad ehangach
- Gall fod yn anodd cyfleu cysyniad rhianta corfforaethol mewn ffordd sy'n taro deuddeg gyda phobl ifanc
- Gorymgynghori â phlant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal
- Amlygodd cydweithwyr yn yr adran Addysg fod angen neilltuo amser i alluogi aelod penodedig o staff i ganolbwyntio'n benodol ar gyfranogiad yn y sector addysg. Gallai'r rôl hon gefnogi gweithgareddau megis hwyluso fforymau llais y disgybl, cydgysylltu adborth gan blant a phobl ifanc ynghylch cyflwyno gwasanaethau, cefnogi ysgolion i wreiddio cyfranogiad yn eu cynlluniau gwella, a sicrhau bod dysgwyr yn ymwneud yn weithgar â llywio'r polisïau a'r arferion sy'n effeithio arnyn nhw
- Weithiau mae amserlenni tynn yn gallu peryglu cyfranogiad ac ymgysylltiad ystyrlon, ac mae sicrhau adborth effeithiol yn gallu bod yn heriol ar adegau

Y cyfeiriad e-bost ar gyfer cyfranogiad Plant a Theuluoedd yw CFSParticipation@swansea.gov.uk – dylai unrhyw rai sydd â chwestiynau am gyfranogiad ac adborth yng nghyswllt Gwasanaethau Plant a Theuluoedd Abertawe eu hanfon i'r cyfeiriad hwn.

UNCRC@swansea.gov.uk – ar gyfer materion sy'n ymwneud â hawliau plant neu â chyfleoedd cyfranogiad yn fwy cyffredinol.

education@Swansea.gov.uk – anfonwch ymholiadau/adborth ynghylch llais y dysgwr i'r cyfeiriad hwn.

## 20. Torfaen

Awdurdod cymharol fach yn y Cymoedd yw Torfaen gyda chanolfannau trefol fel Pont-y-pŵl a Chwmbrân; mae yma gyfuniad o dreftadaeth ddiwydiannol a datblygiadau maestrefol.

- **Poblogaeth:** tua **93,419** (ganol 2024, pob oed)
- **Plant 0–15:** tua **12,286**
- **Amddifadedd:** Mae'n cynnwys nifer o ardaloedd yn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

### Trosolwg

Y tîm Cyfathrebu sy'n gyfrifol am gyfranogiad yn Nhorfaen. Yn wreiddiol, roedd y swyddog cyfathrebu yn rhan o'r tîm cysylltiadau cyhoeddus ond yn dilyn gwerthusiad, unwyd y timau ysgolion; cyfathrebu; ymgysylltu a chysylltiadau cyhoeddus.

Mae hyn yn darparu swyddogaeth ymgysylltu broffesiynol sy'n fodd i blant a phobl ifanc fwydo i mewn i'r cyngor a'r cysylltiadau cyfathrebu â'r holl wasanaethau, gan alluogi'r cyngor i fod mor gefnogol â phosib i blant a phobl ifanc.

### Strwythurau Cyfranogiad

Mae'r ffaith fod y swydd cyfranogiad yn rhan o'r tîm cyfathrebu yn golygu ei bod yn fwy hygyrch i bobl ifanc, na fydd llais plant a phobl ifanc yn distewi wrth iddyn nhw ddod yn oedolion, ac y bydd yn llywio gwasanaethau trwy'r sefydliad cyfan, gan ddarparu golwg gorfforaethol ehangach.

Mae Fforwm Ieuenctid Torfaen yn gyfle i bobl ifanc sôn wrth y cyngor am y materion sy'n bwysig iddyn nhw, a chyfrannu at benderfyniadau'r cyngor. Mae'r fforwm yn agored i bobl ifanc rhwng 11 a 18 oed sy'n byw yn Nhorfaen. Mae'n cyfarfod unwaith y mis yn ystod y tymor ysgol.

Yr aelodau, sy'n cael eu recriwtio unwaith y flwyddyn trwy'r ysgolion, y clybiau ieuenctid a grwpiau cymunedol, sy'n pennu'r blaenoriaethau fydd yn derbyn sylw yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

Mae Cynghrair Ieuenctid Torfaen yn cynnwys cynrychiolwyr o'r ysgolion uwchradd lleol ac aelodau o 17 o wahanol sefydliadau pobl ifanc. Ei nod yw amlygu materion sy'n gyffredin i'r rhan fwyaf o bobl ifanc a chynnig atebion posibl a gaiff eu cyflwyno i'r cyngor.

Fforwm Ieuenctid Torfaen yw un o'r fforymau sy'n ymwneud â'r gynghrair ieuenctid. Mae'r aelodau yn cyfarfod deirgwaith y flwyddyn. Mae gwaith y gynghrair yn cael ei lywio gan Strategaeth Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc y cyngor a'i chefnogi gan grŵp llywio sy'n cynnwys lleoliadau statudol, gwirfoddol ac ysgolion.

### Gwreiddio cyfranogiad a hawliau plant

Mae awdurdod Torfaen wedi cynnwys llais y plentyn ym mhob Cynllun tîm yn y Gwasanaeth Addysg ac mae'n sicrhau bod cyflwyno cyfranogiad yn rhan o ddiwrnod cynllunio blynyddol y gwasanaeth. Ar lefel gorfforaethol, mae llawer o enghreifftiau lle mae llais Plant a Phobl Ifanc yn rhan o waith cynllunio, cyflwyno ac adolygu gwasanaethau, megis y Pwyllgorau Craffu, a chyflawnir gwaith pellach i wreiddio cyfranogiad a hawliau wrth gynllunio, cyflwyno ac adolygu gwasanaethau.

Mae'r awdurdod wedi hwyluso hyfforddiant ynghylch hyrwyddo cyfranogiad ar gyfer y Gwasanaeth Chwarae, y Gwasanaeth Ieuenctid, a'r Gwasanaeth Tai, ac wedi comisiynu hyfforddiant i reolwyr y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ystod y 5 mlynedd diwethaf.

Mae staff Torfaen wedi defnyddio 'Hunanasesiad y Ffordd Gywir' i annog timau ar draws y Gyfarwyddiaeth Plant a Theuluoedd i fapio llais Plant a Phobl Ifanc yn ein cynlluniau ar gyfer 2024/25 a gosod targedau mesuradwy. Aeth pob tîm ati i gyflwyno adroddiad trwy eu Timau Arwain i'r Swyddog Gwerthuso a Gwella a oedd yn sicrhau cysondeb trwy fonitro gweithrediad y cynlluniau er mwyn sicrhau bod newidiadau'n cael eu monitro.

**Uchafbwyntiau Arfer Da**

- Mae pobl ifanc yn bwydo i mewn i'r pwyllgorau craffu yn rheolaidd. Y gofynion sylfaenol yw bod plant a phobl ifanc yn dod i'r cyfarfodydd ac yn gofyn cwestiynau.
- Mae pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yn ymwneud â'r bwrdd rhianta corfforaethol. Mae'r awdurdod yn cynnig profiad gwaith neu brentisiaethau sy'n targedu pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal ac sy'n gallu arwain at swydd barhaol, ac mae hynny wedi'i gynnwys yn ein strategaeth Datblygu'r Gweithlu.
- Mae awdurdod Torfaen yn cynnal 'Diwrnodau Meddiannu' – lle mae plant a phobl ifanc yn meddiannu'r cyngor ac uwch-rolau yn y sefydliad. Yn ogystal â gwneud penderfyniadau, maen nhw'n dal swyddogion yn atebol am y penderfyniadau hyn. Mae pobl ifanc yn ymgeisio am y rolau, yn cyflwyno ceisiadau. Maen nhw'n eistedd gyda'r cyngor ac yn hytrach na gwrando yn unig mae'r cyngor yn cydgynhyrchu â nhw!
- Mae Cynghrair Ieuenctid Torfaen yn croesawu grwpiau agored i niwed neu grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol ac mae gweithwyr arweiniol yn eu cefnogi i ddod i'r cyfarfodydd a chymryd rhan ynddynt, e.e. pobl ifanc a all wynebu mwy o heriau wrth godi eu llais, gan gynnwys pobl ifanc o'r gymuned sipsiwn, teithwyr, Roma a phobl ifanc sy'n ymwneud â'r gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid.
- Nododd pobl ifanc fod angen ymgysylltu'n fwy â phobl ifanc trwy'r cyfryngau cymdeithasol felly mae awdurdod Torfaen wedi cyflogi prentis ifanc i weithio gyda phobl ifanc i greu'r sianeli cyfryngau cymdeithasol cywir ar eu cyfer er mwyn annog a chefnogi eu hymgysylltiad â gwasanaethau. Bydd y Prentis yn arwain y strategaeth gyfathrebu hon ar ran y cyngor.
- Mae'r ddarpariaeth chwarae yn cael ei chyflwyno'n dda ar draws y sir, ac mae'n cefnogi cyfleoedd estyn allan, chwarae mewn canolfannau ar draws y sir a chynlluniau chwarae yn ystod gwyliau'r haf. Aed ati i gydweithio er mwyn cyflwyno gwaith ynghylch Erthygl 12, sef 'eich hawl i gael gwrandawiad ac i'ch barn gael ei chymryd o ddifri' wedi i'r swyddog cyfranogiad hyfforddi 200 o wirfoddolwyr ymlaen llaw.

**Heriau/Rhwystrau**

- Mae cefnogi gwasanaethau i ddeall pwysigrwydd cyfranogiad pan na fyddant o bosib yn dod wyneb yn wyneb â phobl ifanc yn eu rôl yn her. Oes ganddyn nhw'r sgiliau i sicrhau cyfranogiad da?
- Mae her o ran sicrhau ansawdd er mwyn gofalu bod llais plant a phobl ifanc yn rhan o'r patrwm gwaith ym mhob cyfarwyddiaeth ac nid dim ond yn y gwasanaethau sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc.
- Soniodd y bobl ifanc y buon ni'n cwrdd â nhw, 'Mae'n rhaid cael elfen o hyder i gymryd rhan, gallai pobl orbryderus gael trafferth mewn cyfarfodydd.'

**Cyswllt:** Jess Gabriel – jessica.gabriel@torfaen.gov.uk;
Phil Wilson – Philip.Wilson@torfaen.gov.uk

## 21. Cyngor Bro Morgannwg

Awdurdod arfordirol i'r gorllewin o Gaerdydd yw **Bro Morgannwg**; mae'n cynnwys y Barri, Penarth, a thir amaethyddol y Fro wledig; a chymysgedd o dirweddau maestrefol a gwledig.

- **Poblogaeth:** tua **134,733** (ganol 2024, pob oed)
- **Plant 0–15:** tua **18,297**
- **Amddifadedd:** Mae'n cynnwys ardaloedd bychain difreintiedig ond yn gyffredinol mae llai o grynodiad o'r rhain nag mewn llawer o awdurdodau yn Ne Cymru.

### Trosolwg

Mae cyfranogiad wedi ennill ei blwyf ym Mro Morgannwg, gydag arferion cadarn o dan arweiniad y gwasanaeth Ieuenctid ac uchelgais amlwg i wreiddio cyfranogiad mewn modd cyson ar draws pob cyfarwyddiaeth. Y timau ieuenctid sy'n arwain llawer o'r gwaith ar hyn o bryd, ond mae'r sefydliad wedi gwneud ymrwymiad clir i sicrhau bod lleisiau plant a phobl ifanc yn dylanwadu ar benderfyniadau ar lefel wleidyddol, ar lefel strategol ac ar lefel cyflwyno gwasanaethau. Pwyslais pendant ar gynhwysiad a chysylltiad cynnar yw sylfaen dull gweithredu'r Fro.

### Strwythurau cyfranogiad a dulliau gweithredu

Y Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus yw'r fframwaith ar gyfer gweithgareddau cyfranogiad yn y Fro, wedi'u cydgysylltu trwy'r tîm Cyfathrebu, gyda'r gwaith cyflwyno'n cael ei rannu ar draws sawl gwasanaeth. Mae swyddogion arweiniol yn cyfarfod trwy rwydwaith cyfranogiad mewnol i rannu'r gwersi a ddysgwyd, i sicrhau cyfatebiaeth rhwng dulliau gweithredu ac i gydweithio ar weithgareddau cyfranogiad.

Mae gan Wasanaeth Ieuenctid y Fro, sy'n rhan o'r gyfarwyddiaeth Addysg, rôl ganolog i hwyluso cyfranogiad plant a phobl ifanc, fel sydd gan y Tîm Datblygu Chwaraeon a Chwarae (sy'n rhan o gyfarwyddiaeth yr Amgylchedd a Thai). Mae hynny'n cynnwys arwain Cyngor Ieuenctid y Fro, Grwpiau Gweithredu Ieuenctid lleol, y rhaglen Llysgenhadon Chwaraeon Ifanc, cyfarfodydd y rhwydwaith cynghorau ysgol uwchradd, ac ystod o brosiectau cyfranogiad sy'n gysylltiedig ag ymgyngoriadau lleol a chenedlaethol. Maen nhw hefyd yn cefnogi Cynghorau Tref i sefydlu a chynnal Cynghorau Tref Ieuenctid. Cefnogir pobl ifanc i ymgysylltu nid yn unig mewn mannau a arweinir gan ieuenctid ond hefyd mewn strwythurau lle bydd oedolion yn gwneud penderfyniadau.

Mae pobl ifanc yn ymwneud yn uniongyrchol â'r canlynol:

- Prosesau craffu, gan gynnwys aelodaeth gyfetholedig ar Bwyllgor Craffu Dechrau'n Dda
- Ymgyngoriadau ynghylch y gyllideb a datblygiad y cynllun corfforaethol
- Ailddylunio a chomisiynu gwasanaethau, gan gynnwys y gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion
- Gweithgareddau creu lle yn nhrefi'r Fro

Un cryfder amlwg yw'r Rhwydwaith Cynghorau Ysgol Uwchradd, sy'n dod â disgyblion o bob ysgol uwchradd at ei gilydd bob tymor i rannu arferion, i drafod materion ac i ymgysylltu'n uniongyrchol ag aelodau etholedig ac uwch-swyddogion.

Ochr yn ochr â hynny, mae'r Fro wedi datblygu rhaglen gref ar gyfer Llysgenhadon Hawliau, lle mae pobl ifanc yn cyflwyno hyfforddiant cyfranogiad a CCUHP i oedolion ac ymarferwyr, gan

gryfhau diwylliant sy'n seiliedig ar hawliau ar draws ysgolion a gwasanaethau, o dan fodel cyfranogiad cynaliadwy newydd ym Mro Morgannwg. Mae ysgolion yn gwreiddio'r rhaglen hon ac yn ei chyflwyno trwy fodel seiliedig ar glystyrau gydag ysgol uwchradd St Cyres yn arwain y dull gweithredu newydd hwn.

### Gwreiddio cyfranogiad a hawliau plant

Mae cyfranogiad a hawliau plant yn cael eu gwreiddio trwy'r canlynol:

- Cynnwys gorfodol ynghylch CCUHP a hawliau plant yn sesiynau sefydlu'r gwasanaeth ieuenctid a'r Tîm Chwarae, ac yn yr hyfforddiant i Arweinwyr Chwaraeon Ifanc ac Arweinwyr Chwarae
- Hyfforddiant dan arweiniad ieuenctid a gyflwynir trwy'r prosiectau Llais Ieuenctid
- Ymgynghori'n rheolaidd â phobl ifanc ynghylch penderfyniadau pwysig, sy'n cynnwys cyllidebau a chynllunio corfforaethol

Mae pobl ifanc yn cymryd rhan mewn camau cynllunio, cyflwyno ac adolygu:

- Llywio blaenoriaethau corfforaethol (e.e. Cynllun Corfforaethol y Fro 2030)
- Dylanwadu ar fodelau cyflwyno gwasanaeth yn y gyfarwyddiaeth addysg a gwasanaethau plant
- Gwerthuso gwasanaethau trwy fecanweithiau craffu ac adborth parhaus

Yn hytrach na bod yn weithgaredd unwaith yn unig, mae cyfranogiad yn rhan greiddiol o gyflwyno gwasanaethau, gyda chymorth i'r bobl ifanc ymgysylltu mewn modd ystyrlon yn y mannau lle mae oedolion yn gwneud penderfyniadau.

### Uchafbwyntiau Arfer Da

Gwelir arfer cadarn gan awdurdod y Fro o ran ymgysylltiad cynnar ac ystyrlon, gydag enghreifftiau amlwg o dimau ieuenctid yn herio cynigion lle na fu ymgynghori â phobl ifanc, megis datblygiadau seilwaith lleol.

Mae'r prif uchafbwyntiau yn cynnwys:

- Gwnewch Eich Marc 2024, lle sicrhaodd y Fro y nifer mwyaf o bleidleisiau yng Nghymru, gyda'r canlyniadau'n bwydo'n uniongyrchol i'r Cynllun Corfforaethol. Prosiect lleol oedd Gwnewch Eich Marc 2026 a gwelwyd hyd yn oed mwy o bobl ifanc yn pleidleisio nag yn 2024, gan chwyddo'r ymgysylltiad wrth i fwy na 6000 o bobl ifanc gymryd rhan.
- Mae plant a phobl ifanc yn weithredol wrth lywio Cynllun Chwaraeon a Gweithgaredd Corfforol y Fro. Cyfrannodd mwy na 4,000 trwy'r Arolwg Chwaraeon Ysgol, ac mae mwy na 140 o Lysgenhadon Chwaraeon Ifanc yn darparu mewnbwn parhaus. Yn 2025, sefydlwyd rhwydwaith Llysgenhadon Benywaidd Ifanc i roi llwyfan i fenywod ifanc eiriol dros eu cymheiriaid, cefnogi ymgyngoriadau a dylanwadu ar gynlluniau i'r dyfodol. Mae cynrychiolwyr Llysgenhadon Ifanc yn dod i'r gynhadledd ranbarthol flynyddol i rwydweithio ac i ddatblygu eu rolau ymhellach. Mae cynrychiolydd o'r Fro yn aelod o'r panel Llysgenhadon Ifanc Cenedlaethol.
- Gwaith yr Aelod o Senedd Ieuenctid y Deyrnas Unedig, sy'n cysylltu â phobl ifanc ynghylch gwahanol destunau ar gyfer gwaith polisi cenedlaethol, a phobl ifanc sy'n arfer eu hawl ddemocrataidd i bleidleisio dros eu cynrychiolydd
- Cydgynhyrchu â ieuenctid wrth gomisiynu gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion, a chraffu'n barhaus ar y gwaith o gyflwyno'r gwasanaeth

- Y Rhwydwaith Cynghorau Ysgol Uwchradd, sy'n fecanwaith cyson ar gyfer llais y disgybl ar draws y sir
- Y Prosiect Llysgenhadon Hawliau, sy'n darparu hyfforddiant seiliedig ar hawliau ac yn cryfhau cysylltiadau â Chomisiynydd Plant Cymru. Bydd hwn yn cael ei ail-wampio fel Rhaglen Arolygwyr Ifanc er mwyn sicrhau bod y Gwasanaeth Ieuenctid yn gwreiddio'r safonau cyfranogiad a CCUHP yn eu hymarfer a'u dull cyflwyno ar draws pob darpariaeth
- Ei Llais Cymru, prosiect o dan arweiniad merched oedd yn rhoi sylw i ddiogelwch merched a menywod ifanc. Derbyniodd gydnabyddiaeth ar ffurf Gwobr Rhagoriaeth Ieuenctid, a ddaeth i ben wedi i'w hymgyrch gyrraedd lefel ryngwladol

Mae dull y Fro o ymdrin â chynhwysiad yn arbennig o gryf, gyda gwaith sy'n targedu ymgysylltiad â grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a model "caseg eira" lle cefnogir pobl ifanc lai hyderus i ddod â chymheiriaid i fannau cyfranogi. Gwelir lefel uchel o gynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol mewn grwpiau a phaneli ieuenctid.

**Rhwystrau a heriau**

Er gwaethaf yr arfer cryf, nodwyd nifer o heriau:

- Cyllid a chapasiti, gan fod oddeutu 65% o rolau'r gwasanaeth ieuenctid ac oddeutu 90% o rolau Chwaraeon a Chwarae wedi'u hariannu gan grant, ac mae hynny'n arwain at ansefydlogrwydd a throsiant staff
- Mae cyllid hirdymor cyfyngedig yn effeithio ar y gallu i gynnal gwaith cyfranogi, i gyflawni camau gweithredu a rhoi adborth i bobl ifanc am y canlyniadau
- Mae trafnidiaeth a daearyddiaeth, yn enwedig mewn cymunedau gwledig, yn cyfyngu ar fynediad at gyfleoedd cyfranogi, ac mae pobl ifanc yn llai parod i gymryd rhan mewn gwaith hybrid
- Nid yw cyfranogiad yn cael ei wreiddio'n ddigon cynnar bob amser wrth ddatblygu gwasanaethau. Weithiau, mae'n dod yn waith "ychwanegol" yn hytrach nag yn fan cychwyn
- Mae timau ieuenctid yn aml yn dibynnu ar herio llafar mewn cyfarfodydd, sy'n effeithiol ond yn anodd ei gynnal a'i fesur ar draws y sefydliad

**Argymhellion**

Ar sail profiad Bro Morgannwg, mae'r argymhellion canlynol yn dod i'r amlwg:

- Datblygu fframwaith cyfranogiad clir i gefnogi gwreiddio cyson ar draws pob cyfarwyddiaeth
- Adroddiadau rheolaidd ar lefel uwch-arweinwyr er mwyn monitro cynnydd ac atebolrwydd
- Ariannu mwy sefydlog a chynaliadwy ar gyfer rolau cyfranogiad a rolau y mae cyfranogiad yn rhan annatod ohonynt.
- Mesurau llwyddiant clir er mwyn asesu sut mae cyfranogiad yn cael ei wreiddio y tu hwnt i'r gwasanaethau ieuenctid
- Cymorth er mwyn gwella dulliau o gofnodi a darparu tystiolaeth o'r cipolygon cyfranogiad anffurfiol a gesglir trwy waith chwarae, chwaraeon a gwaith ieuenctid

**Cyswllt:** Rob Thomas – drthomas@valeofglamorgan.gov.uk

## 22. Wrecsam

Awdurdod yng Ngogledd-ddwyrain Cymru yw Wrecsam, sy'n cwmpasu dinas Wrecsam ac ardaloedd gwledig gyda chysylltiadau economaidd trawsffiniol cadarn â Swydd Gaer.

- **Poblogaeth:** tua **136,149** (ganol 2024, pob oed)
- **Plant 0–15:** tua **17,878**
- **Amddifadedd:** Mae'n cynnwys ardaloedd yn y 10% mwyaf difreintiedig, sy'n cyd-fynd â'r dosbarthiad cenedlaethol.

### Trosolwg

Mae cyfranogiad yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn cael ei lywio gan fframwaith hawliau plant clir ac ymrwymiad hirsefydlog i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael gwrandawiad ac yn rhan o'r penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw. Disgrifir yr ymrwymiad hwn yn Strategaeth Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc Wrecsam, sy'n sicrhau bod cyfranogiad yn cyd-fynd â CCUHP a'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol.

Mae nifer o wasanaethau yn gyfrifol am gyfranogiad, yn cynnwys y Gwasanaethau Ieuenctid a Chwarae, Cyfiawnder Ieuenctid, Datblygu Chwarae, Ysgolion Iach, a strwythurau cyfranogiad ar gyfer pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal. Mae'r dull gweithredu aml-wasanaeth hwn yn cefnogi cyfranogiad mewn gwahanol leoliadau, gan gydnabod bod plant a phobl ifanc yn ymgysylltu mewn ffyrdd gwahanol yn dibynnu ar eu hamgylchiadau a'u profiadau.

### Strwythurau cyfranogiad a dulliau gweithredu

Mae tirlun cyfranogiad hirsefydlog yn Wrecsam gyda nifer o lwybrau ar gael i blant a phobl ifanc ddylanwadu ar benderfyniadau a llywio gwasanaethau. Mae'r strwythurau cyfranogiad craidd yn cynnwys:

- Senedd yr Ifanc, sy'n cynnig fforwm i bobl ifanc godi materion, trafod blaenoriaethau, ac ymgysylltu â llunwyr penderfyniadau.
- Cyngor Gofal Pobl Ifanc Wrecsam, sy'n cefnogi plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal i ddylanwadu ar wasanaethau a'r broses cynllunio gofal.
- Y Gwasanaethau Ieuenctid a Chwarae, sy'n cynnig cyfleoedd cyfranogi trwy glybiau ieuenctid, darpariaeth estyn allan a darpariaeth yn y gymuned.
- Datblygu Cyfleoedd Chwarae ac Ysgolion Iach, sy'n gwreiddio cyfranogiad mewn lleoliadau chwarae ac ysgolion.

Cefnogir cyfranogiad trwy ddeunyddiau hawdd eu deall sy'n seiliedig ar hawliau a dulliau cyfathrebu sy'n hwylus i blant, gyda phwyslais pendant ar sicrhau bod plant yn deall eu hawliau ac yn gwybod sut i gymryd rhan. Mae asesiadau effaith a safonau cyfranogiad yn offer strwythuredig sy'n sicrhau bod barn plant yn llywio dyluniad gwasanaethau a'u penderfyniadau.

### Gwreiddio cyfranogiad a hawliau plant

Mae hawliau plant wedi'u gwreiddio yn benodol yn strategaeth cyfranogiad Wrecsam, gyda ffocws pendant ar ymwybyddiaeth, cynhwysiad, ac adborth. Yn y strategaeth, mae pwyslais ar y canlynol:

- Sicrhau bod plant a phobl ifanc yn deall eu hawliau a chyfleoedd i gyfranogi

- Cynorthwyo staff ar draws y gwasanaethau i barchu a chymhwyso'r safonau cyfranogiad
- Defnyddio asesiadau effaith er mwyn sicrhau bod barn plant yn cael ei hystyried wrth wneud penderfyniadau

Ymdrinnir â chyfranogiad nid fel ymgynghoriad unwaith yn unig ond fel proses barhaus, ac mae mecanweithiau yn eu lle i ddangos i'r bobl ifanc sut mae eu sylwadau wedi dylanwadu ar ganlyniadau. Mae'r awdurdod wedi mynegi uchelgais glir i gryfhau cysondeb ac atebolrwydd mewn arferion cyfranogi ar draws gwasanaethau.

**Uchafbwyntiau Arfer Da**

Mae cryfderau Wrecsam yn cynnwys:

- Strategaeth Cyfranogiad clir a hygyrch sydd wedi'i gwreiddio mewn hawliau plant a'r safonau cenedlaethol
- Nifer o lwybrau cyfranogiad sy'n adlewyrchu amrywiol anghenion a phrofiadau plant a phobl ifanc
- Defnyddio offer strwythuredig, megis y safonau cyfranogiad ac asesiadau effaith, i gefnogi arfer cyson
- Ymrwymiad cadarn i sicrhau bod cyfleoedd cyfranogi yn gynhwysol, yn enwedig yn achos plant sydd â phrofiad o ofal a'r bobl ifanc sy'n ymgysylltu trwy wasanaethau cyfiawnder ieuenctid neu ataliaeth

Mae ffocws yr awdurdod ar sicrhau bod cyfranogiad yn rhywbeth ystyrlon mae plant a phobl ifanc yn ei ddeall yn gryfder amlwg.

**Rhwystrau a heriau**

Er bod bwriad strategol cadarn, nodwyd nifer o heriau:

- Yn achos cyfiawnder ieuenctid, gwelir yn aml fod cyfranogiad yn cael ei gyfyngu gan ofynion statudol, sy'n gallu cyfyngu ar gyfleoedd ar gyfer cyfranogiad ystyrlon. Mae'r gwasanaethau ataliaeth yn cynnig mwy o gyfleoedd ymgysylltu ond mae cyfranogiad yng nghyd-destun cyfiawnder ieuenctid statudol yn heriol o hyd.
- Mae pwysau ar adnoddau, gan gynnwys cyllid, capasiti'r staff, amser a thrafnidiaeth, yn effeithio ar y gallu i gynnal ac ehangu cyfranogiad, yn enwedig yn achos ymgysylltiad wyneb yn wyneb.
- Mae anghysondeb cenedlaethol, gan gynnwys atal Nod Barcud Cenedlaethol Llywodraeth Cymru dros dro, wedi effeithio ar waith cynllunio a chyflwyno lleol, gan achosi ansicrwydd ynghylch disgwyliadau a chynnydd.

Mae'r heriau hyn yn adlewyrchu pwysau systemig ehangach yn hytrach na diffyg ymrwymiad lleol.

**Cyswllt:** Caroline Bennett – Caroline.Bennett@wrexham.gov.uk



www.comisiynyddplant.cymru
T: 01792 765600
E: post@complantcymru.org.uk
Facebook: @childcomwales

Llinell gymorth cyngor rhadffôn:
0808 801 1000

post@complantcymru.org.uk
01792 765600

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales